# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaethau Democrataidd**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR CRAFFU GOFAL ARBENNIG**

Dyddiad ac Amser

**1.00 y.h., DYDD LLUN, 4YDD MEDI, 2017**

Lleoliad

**Siambr Arfon,**
**Swyddfeydd y Cyngor,**
**Penrallt,**
**Caernarfon,**
**Gwynedd. LL55 1BN**

Pwynt Cyswllt

**Glynda O'Brien**

**01341 424301**

**glyndaobrien@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd: 24.08.17)

# PWYLLGOR CRAFFU GOFAL

**AELODAETH (18)**

## Plaid Cymru (10)

Y Cynghorwyr

Alan Jones Evans
E. Selwyn Griffiths
Elin Walker Jones
Linda Ann Jones
Peter Read
Simon Glyn
Sian Wyn Hughes
Annwen Daniels
Rheinallt Puw
Sedd Wag

## Annibynnol (6)

Y Cynghorwyr

Richard Medwyn Hughes
Beth Lawton
Elfed Powell Roberts
Eryl Jones-Williams
Dewi Wyn Roberts
Angela Russell

## Llais Gwynedd (1)

Y Cynghorydd
Anwen J. Davies

## Aelod Unigol (1)

Y Cynghorydd

## Aelodau Ex-officio

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

## Aelodau Eraill a Wahoddwyd

Y Cyng. R. Glyn Daniels

# R H A G L E N

## 1. YMDDIHEURIADAU

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

## 3. CYFLWYNIADAU - ADDASRWYDD DARPARIAETH IECHYD ARFAETHEDIG AR GYFER TRIGOLION BLAENAU FFESTINIOG 5

**(A) Croesawu a gwahodd cynrychiolwyr Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i gyflwyno gwybodaeth a thystiolaeth ynglyn â darpariaeth iechyd ym Mlaenau Ffestiniog.** 6 - 16

Copi o adroddiad ynghlwm

**(B) Cyfle i aelodau'r Pwyllgor Craffu Gofal holi cwestiynau i gynrychiolwyr y Bwrdd Iechyd ac i dderbyn ymateb.**

**(C) Croesawu a gwahodd cynrychiolwyr o Bwyllgor Amddiffyn Ysbyty Coffa Ffestiniog i gyflwyno gwybodaeth a thystiolaeth ynglyn â darpariaeth iechyd ym Mlaenau Ffestiniog.** 17 - 75

**(D) Cyfle i aelodau'r Pwyllgor Craffu Gofal holi cwestiynau i gynrychiolwyr y Pwyllgor Amddiffyn ac i dderbyn ymateb.**

**(E) Cyfle i aelodau'r Pwyllgor Craffu ofyn unrhyw gwestiynau ychwanegol i gynrychiolwyr y Bwrdd Iechyd a'r Pwyllgor Amddiffyn.**

## 4. TRAFODAETH

Trafodaeth gan Aelodau’r Pwyllgor Craffu Gofal a swyddogion y Cyngor yn deillio o’r cyflwyniadau uchod.

## 5. ARGYMHELLION

Llunio argymhellion drafft gyda chefnogaeth y swyddogion i'w gyflwyno, pe byddai angen, er ystyriaeth y Pwyllgor Craffu Gofal yn ei gyfarfod ar 21 Medi 2017.

| | |
|---|---|
| Cyfarfod | Pwyllgor Craffu Gofal |
| Dyddiad | 4 Medi 2017 |
| Pwnc | **Iechyd yn ardal Blaenau Ffestiniog** |

Trafodwyd y Rhybudd o Gynnig canlynol gan y Cynghorydd Glyn Daniels yng nghyfarfod y Cyngor ar 15 Mehefin 2017:

> **"'Rwyf yn cynnig bod Cyngor Gwynedd yn cefnogi Pwyllgor Amddiffyn Ysbyty a thrigolion Blaenau Ffestiniog i bwyso ar Fwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr ac awdurdodau perthnasol er sicrhau bod cyfleusterau priodol ac angenrheidiol yn yr ysbyty newydd sy'n cael ei godi yn y dref.**
>
> **I'r perwyl hyn, golygaf fod cyfleusterau sy'n arferol i'w canfod mewn ysbytai lleol, megis uned pelydr x, mân ddamweiniau a nifer ddigonol o welyau i gleifion preswyl. O ystyried fod Blaenau Ffestiniog y drydedd dref fwyaf yng Ngwynedd, ac hefyd fod ymateb y mwyafrif llethol o'r trigolion mewn refferendwm diweddar yn mynnu fod y dref yn haeddu gwell triniaeth, credaf nad oes unrhyw reswm i'r Cyngor beidio cefnogi'r cynnig hwn.**
>
> **PENDERFYNWYD cyfeirio'r mater yn syth i'r Pwyllgor Craffu Gofal a'i drafod cyn gynted ag y bo'r modd."**

Gwahoddwyd cynrychiolwyr o *Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwalad*r a *Phwyllgor Amddiffyn Ysbyty Blaenau Ffestiniog* i gyflwyno gwybodaeth a thystiolaeth berthnasol ynglŷn ag addasrwydd y ddarpariaeth iechyd arfaethedig ar gyfer trigolion Blaenau Ffestiniog.

Cyflwynwyd yr wybodaeth a'r dystiolaeth ymlaen llaw yn yr atodiadau amgaeedig.

Yn ogystal, gofynnwyd i gynrychiolwyr y Bwrdd Iechyd a'r Pwyllgor Amddiffyn i gyflwyno crynodeb o'r prif bwyntiau ar lafar yn y cyfarfod.

Yn dilyn ystyriaeth o'r dogfennau ymlaen llaw a'r cyflwyniadau, gofynnir i Aelodau'r Pwyllgor Craffu:

1 Holi cwestiynau i'r cynrychiolwyr.
2 Yn dilyn y sesiwn holi ac ateb i gynnal trafodaeth ymysg yr Aelodau gyda'r nod o lunio argymhellion.

Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr University Health Board

**ADRODDIAD I : Pwyllgor Craffu Cyngor Gwynedd**

**GAN: Ffion Johnstone, Cyfarwyddwraig Ardal, BIPBC**

**DYDDIAD Y CYFARFOD: Dydd Llun 4 Medi**

**TESTUN: Darpariaeth Gwasanaethau Iechyd, Blaenau Ffestiniog**

---

## 1. Cyflwyniad

Cynhyrchwyd yr adroddiad hwn cyn cyfarfod Pwyllgor Craffu Cyngor Gwynedd sydd i'w gynnal ar 4 Medi i drafod y rhesymwaith ar gyfer datblygu'r ganolfan iechyd a gofal cymdeithasol newydd a'r rheswm pam y daeth y ddarpariaeth gwelyau hanesyddol, uned mân anafiadau a gwasanaeth Pelydr-x i ben yn dref Blaenau Ffestiniog.

Mae'r adroddiad yn rhoi gwybodaeth ar yr ymgynghoriad Mae Gogledd Cymru yn Newid a'r penderfyniadau dilynol a gymerwyd gan y Bwrdd Iechyd ac mae'n rhoi diweddariad ar gynnydd yn erbyn yr argymhellion perthnasol a wnaed ar y pryd.

## 2. Strwythur Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Yn 2015, newidiodd y Bwrdd Iechyd ei strwythur rheoli a gweithredu pan sefydlwyd tri thîm ardal ddaearyddol yng ngorllewin, canol a dwyrain yr ardal. Mae'r timau ardal yn gyfrifol am ddarparu ystod o wasanaethau cychwynnol, cymuned ac ysbyty a/neu eu contractio i fodloni anghenion y boblogaeth.

Mae ardal y Gorllewin yn gyfrifol am ddarparu ystod eang o wasanaethau ar draws lleoliadau lluosog yn Ynys Môn a Gwynedd. Mae hyn yn cynnwys y prif safle ysbyty, Ysbyty Gwynedd, chwe ysbyty cymuned yng Nghaergybi (Penrhos Stanley), Caernarfon (Eryri), Porthmadog (Alltwen), Pwllheli (Bryn Beryl), Dolgellau a Thywyn a rhwydwaith o ganolfannau iechyd a chlinigau ar draws y ddwy sir.

Darperir gofal cychwynnol yn y Gorllewin gan 35 Practis Meddyg Teulu gyda'r pedwar clwstwr meddygon teulu sef Ynys Môn, Arfon, Dwyfor a Meirionnydd.

## 3. Y Cefndir i *Mae Gofal Iechyd yng Ngogledd Cymru yn Newid* (2012) a'r newidiadau i Wasanaethau Gofal Iechyd Ardal Leol a Chymuned

Cafodd y cynigion allweddol ar gyfer gwasanaethau gofal iechyd ardal leol a Chymuned a nodwyd yn *Mae Gofal Iechyd yng Ngogledd Cymru yn Newid* eu datblygu yn dilyn ystyried y sail tystiolaeth, yr achos dros newid gwasanaethau a'r angen i gynnal gwasanaethau dibynadwy a chyson i holl boblogaeth Gogledd Cymru.

O grynhoi, cynigiwyd:

- Canolbwyntio ein hadnoddau ar ddarparu **gwasanaethau gofal iechyd dibynadwy mewn llai o ysbytai** i wneud yn siŵr bod y gwasanaethau a ddarperir ar gael yn gyson;

- **Darparu'r un gwasanaethau gofal iechyd gyda'r un amseroedd agor o fewn taith 40 munud mewn car** i gymaint o bobl â phosibl yng Ngogledd Cymru;

- Dylai'r **deg ysbyty canlynol weithredu fel "canolfannau"** gwasanaeth mewn ardaloedd lleol, lle gall amrywiaeth eang o wasanaethau gael eu darparu yn gyson a diogel:

  - Ysbyty Gwynedd;
  - Ysbyty Penrhos Stanley;
  - Ysbyty Alltwen;
  - Ysbyty Dolgellau a'r Bermo;
  - Ysbyty Llandudno;
  - Ysbyty Glan Clwyd;
  - Ysbyty Cymuned Treffynnon;
  - Ysbyty Cymuned Glannau Dyfrdwy;
  - Ysbyty Maelor Wrecsam;
  - Inffyrmari Dinbych

- **Gwasanaethau Mân Anafiadau** i gael eu darparu ym mhob un o'r "canolfannau" saith niwrnod yr wythnos. Hefyd fe fydd Gwasanaethau Mân Anafiadau yn Ysbyty Bryn Beryl ac Ysbyty Cymuned Tywyn i fodloni gofynion gwyliau, ac efallai y bydd Meddygon Teulu yn darparu Gwasanaethau Mân Anafiadau mewn ardaloedd anghysbell iawn.

- **Gwasanaethau Pelydr-x** i gael eu darparu ym mhob un o'r "canolfannau" o 9am i 5pm ddydd Llun i ddydd Gwener. Bydd hyn yn darparu Gwasanaethau Pelydr-X dibynadwy sy'n gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael.

- 

- Roedd defnyddio'r ysbytai hyn fel y "canolfannau" yn golygu y bydd gwasanaethau fel Pelydr-X a Gwasanaethau Mân Anafiadau ar gael o fewn 40 munud mewn car ar gyfer bron iawn holl boblogaeth Gogledd Cymru. Pe byddai cynigion ar gyfer darparu gofal iechyd drwy'r "canolfannau" arfaethedig hyn yn cael eu derbyn, byddai gwasanaethau i bobl Blaenau Ffestiniog yn cynnwys Pelydr-x a Gwasanaethau Mân Anafiadau yn cael eu darparu o Ysbyty Alltwen. Cynigiwyd hefyd i ddarparu gofal cleifion mewnol yn Ysbyty Alltwen, sy'n 13.5 milltir o Flaenau Ffestiniog.

  .

  Ni chafodd Ysbyty Coffa Ffestiniog, Ysbyty'r Fflint nac Ysbyty Cymuned Llangollen eu dynodi fel canolfannau. Cynigiwyd y dylai adnodd gofal cychwynnol / canolfannau integredig iechyd a gofal cymdeithasol gymryd eu lle. (Ni chafodd Blaenau Ffestiniog ei ddynodi fel canolfan oherwydd dangosodd dadansoddiad o dderbyniadau a defnydd o'r ysbyty bod y dalgylch wedi'i gyfyngu i Flaenau Ffestiniog ei hun gydag ychydig o dderbyniadau o'r ardal i'r gorllewin ac ychydig iawn o weithgarwch o'r dwyrain neu ardal yr 'ucheldir gwledig'. Mae gan ganolfannau ysbyty eraill ddalgylch ehangach.)

Yn ogystal, cafodd nifer o **gynigion lleol penodol** eu cynnig ar gyfer Blaenau Ffestiniog:

- - datblygu cyfleuster newydd yn Ysbyty Coffa Ffestiniog i ddarparu gwasanaethau cymuned gwell a'r posibilrwydd o ehangu gwasanaethau gofal cychwynnol ar y safle.

Roedd cefnogaeth lwyr yn ystod yr ymgynghoriad Mae Gofal Iechyd yng Ngogledd Cymru yn Newid i'r tair egwyddor allweddol ganlynol:

- ***Atal wedi'i dargedu*** - gweithredu i hybu iechyd da ac atal salwch
- ***Gofal ychwanegol yn y cartref*** - darparu mwy o ofal yn eu cartrefi i bobl a fyddai'n gorfod mynd i'r ysbyty fel arall
- ***Symud gofal o ysbytai llym i'r gymuned*** - symud gwasanaethau i ardaloedd lleol i ddod â chanlyniadau gwell i gleifion

Cafodd y cynigion eu cymeradwyo gan y Bwrdd Iechyd ym mis Ionawr 2013 yn dilyn proses ymgynghori hir (18 mis) a manwl a oruchwyliwyd gan y Sefydliad Ymgynghori a'i chymeradwyo gan Weinidog Iechyd Llywodraeth Cymru.

## 4. Gweithredu Argymhellion Mae Gofal Iechyd yng Ngogledd Cymru yn Newid a Darpariaeth Gofal

Fel y rhagwelwyd yng Nghynllun Iechyd Gwledig Llywodraeth Cymru, mae'r Bwrdd Iechyd wedi ceisio darparu agweddau mwy holistaidd at ddarparu gofal yn hytrach na pharhau â model gofal hanesyddol. Mae hyn yn cynnwys darparu mwy o ofal yn y cartref, oriau gwell i nyrsio cymuned, mwy o gymysgedd sgiliau mewn gwasanaethau cymuned, gwell integreiddio â gofal cymdeithasol a darparu ystod ehangach o wasanaethau arbenigol yn lleol. Bydd y Ganolfan newydd sy'n cael ei hadeiladu ym Mlaenau Ffestiniog yn cynnwys yr holl egwyddorion hyn.

### i. Pam dim gwelyau cleifion mewnol?

Yn unol â chyfeiriad strategol cenedlaethol a sefydliadol, nod y Bwrdd Iechyd o hyd yw gofalu am fwy o bobl yn eu cartrefi neu'n agosach at gartrefi, gan osgoi'r angen iddynt gael eu derbyn i'r ysbyty pan fo'n bosibl.

Gofal Cleifion Mewnol - Pan wnaed y penderfyniad i gau'r 12 gwely cleifion mewnol yn Ysbyty Coffa Ffestiniog, cytunwyd y dylid agor chwe gwely ychwanegol yn Ysbyty Alltwen (a ddigwyddodd ym mis Ebrill 2013). Ers mis Ebrill 2013, derbyniwyd 79 o gleifion o Flaenau i Alltwen bob blwyddyn ar gyfartaledd. Dros bedair blynedd, mae nifer cyfartalog y cleifion o Flaenau a dderbyniwyd bob mis i Ysbyty Alltwen rhwng 5.3 ac 8, sy'n unol â'r capasiti chwe gwely ychwanegol a agorwyd.

Gofal yn y Cartref - Cytunwyd hefyd, er mwyn cefnogi gofal cleifion ag anghenion meddygol mwy dwys yn y cartref yn hytrach nag ysbyty, y byddai Gofal Ychwanegol yn cael ei gyflwyno ar draws yr ardal leol ym mis Medi 2013. Darparwyd adnoddau ychwanegol sylweddol mewn nyrsio, gwasanaethau cymdeithasol, y trydydd sector a chefnogaeth weinyddol. Hefyd mae gwasanaeth nyrsio cymuned 24/7 llawn wedi'i gyflwyno ar draws Dwyfor / Meirionnydd ar ôl ei weithredu'n llwyddiannus yn Arfon ac Ynys Môn. Mae rhai problemau o ran cadernid y gwasanaeth cyflenwi, ond mae hyn yn cael ei ddatrys ar hyn o bryd.

Gofal Lliniarol - Mae'n bwysig nodi bod Tîm Nyrsio Cymuned Meirionnydd wedi bod yn gofalu am fwy a mwy o gleifion gofal lliniarol yn eu cartrefi/amgylchedd o'u dewis yn ystod y blynyddoedd diweddar. Cyn hyn, byddai'r cleifion gofal lliniarol hyn (yn ogystal â chleifion gofal ychwanegol) wedi cael eu derbyn i'r ysbyty. Ar hyn o bryd mae 11 i 12 claf ar gyfartaledd yn cael gofal diwedd oes ar yr un pryd gan Dîm Nyrsio Cymuned Blaenau, sef y nifer fwyaf yn holl ardaloedd Meirionnydd.

Capasiti Cartrefi Nyrsio / Preswyl - Mae prinder gwelyau nyrsio a phreswyl ledled Gogledd Cymru ac yn fwy eang ar draws Cymru. Fel Bwrdd Iechyd, rydym yn gweithio'n agos â'r sector annibynnol i gefnogi cartrefi ac adolygu ffioedd a chontractau. Ym Mlaenau Ffestiniog rydym wedi comisiynu gwelyau camu i fyny/i lawr ym Mryn Blodau, sy'n cael defnydd da iawn. Cefnogir y gwelyau hyn gan y nyrsys ardal sy'n gweithio bellach dros y cyfnod 24/7. Er ein bod yn cydnabod nad oes gwelyau cartrefi nyrsio ym Mlaenau, ni fyddai ail ddarparu gwelyau cymuned yn ateb diogel na chynaliadwy gan nad oes ar y cleifion hyn angen gofal cleifion mewnol. Gan fod nyrsio ardal 24/7 wedi'i gyflwyno, mae mwy o gleifion yn cael eu nyrsio yn eu cartrefi eu hunain ac mae ardal Blaenau yn cefnogi mwy o gleifion diwedd oes yn eu cartrefi eu hunain.

I grynhoi, mae agor y chwe gwely ychwanegol yn Alltwen ar y cyd â gwelliannau i wasanaethau megis gofal ychwanegol a nyrsio cymuned dros nos a sefydlu'r tri gwely yng Nghartref Gofal Preswyl Bryn Blodau i ofal camu i fyny/i lawr, seibiant a galluogi (sy'n cael eu defnyddio 80% o'r amser), yn sicrhau bod ystod lawn o opsiynau gofal yn eu lle i gleifion o ardal Blaenau a fyddai fel arall wedi cael eu derbyn i wely claf mewnol cymuned.

### *ii.* Pam dim Gwasanaethau Pelydr-x?

Roedd pedair sesiwn pelydr-x yn arfer cael eu darparu yn Ysbyty Coffa Ffestiniog bob wythnos. Roedd y rhifau a welwyd yn gyffredinol tua hanner y lefel a argymhellwyd ar gyfer bob sesiwn ac roedd hyn yn anghynaladwy i'r Gwasanaeth Radioleg o ran cynnal gallu staff a defnydd effeithlon o adnoddau ac offer. Collodd Canolfan Iechyd y Bala eu sesiynau pelydr-x nifer o flynyddoedd yn ôl am yr un rheswm.

Mae gwasanaeth pelydr-x yn awr ar gael 5 diwrnod yr wythnos yn Ysbyty Alltwen. Rydym yn ystyried bod y pellter sydd angen ei deithio am belydr-x yn rhesymol (ac yn braf o fewn y canllaw 40 munud a argymhellwyd ym Mae Gofal Iechyd yng Ngogledd Cymru yn Newid). Dylid nodi bod y gwasanaeth cymuned sganio calon a methiant y galon i Wynedd wedi cael ei beilota ym Meirionnydd i ddechrau, a bydd yn cael ei ddarparu yn y ganolfan newydd ym Mlaenau.

### iii. Pam dim gwasanaeth Uned Mân Anafiadau?

Pan oedd yr Uned Mân Anafiadau ar agor yn Ysbyty Ffestiniog (yn yr ystafell driniaeth/ochr), gwelwyd 2 i 3 claf y dydd ar gyfartaledd ac roedd mwyafrif y rhain ar gyfer gorchuddion a thynnu gwaed i gleifion allanol. Ystyriwyd bod y lefel hwn o weithgaredd yn anghynaladwy ac mae'n unol â darganfyddiadau adroddiad gan Fwrdd Iechyd Powys (Mawrth 2008*) 'Adolygiad o'r trefniadau ar gyfer llywodraethu clinigol a diogelwch cleifion o fewn gwasanaethau a ddarperir gan Fwrdd Iechyd Lleol Powys'*. Yn Adran 2 ar Wasanaethau Mân Anafiadau, mae'r adroddiad yn nodi bod niferoedd bychan ym mhob un o'i saith Uned ym Mhowys a dim ond yn Aberhonddu oedd cyfartaledd o fwy na 10 claf mân anafiadau'r dydd (oedd yn ddigon i alluogi'r nyrs ymarferydd brys gynnal ei sgiliau). Roedd gan rai unedau gyfartaledd o hyd at 2 glaf newydd mân anafiadau'r dydd ac "nid oeddent yn

gynaliadwy fel Uned Mân Anafiadau annibynnol". Aeth yr adroddiad ymlaen i ddweud bod ..."niferoedd mor fychan yn golygu na all staff gynnal eu sgiliau".

Yn ogystal â gallu cael mynediad at driniaeth mân anafiadau yn ystod oriau meddygfa ym Meddygfa Blaenau (yn unol â'r gwasanaeth a ddarperir gan feddygfeydd dan fanyleb gwasanaethau ychwanegol), gall y gymuned ehangach ym Mlaenau ddefnyddio gwasanaethau mân anafiadau yn Ysbyty Alltwen (12.6 milltir, 21 munud i ffwrdd) Rhwng mis Ebrill 2016 a diwedd mis Mawrth 2017, mynychodd 432 o gleifion â chod post Blaenau Uned Mân Anafiadau Alltwen, sef 1.2 claf y dydd ar gyfartaledd. Rhwng mis Ebrill 2017 a mis Gorffennaf 2017 pan ymestynnwyd oriau agor yr Uned yn Alltwen i 10pm 7 diwrnod yr wythnos, mynychodd 245 o gleifion â chod post Blaenau Uned Mân Anafiadau Alltwen, sy'n 2 glaf y dydd ar gyfartaledd. Ym mis Medi, bwriedir ymestyn yr oriau agor hyd at hanner nos 7 diwrnod yr wythnos yn barhaol. Ar gyfartaledd, arhosodd 90% o gleifion llai nag awr i gael eu trin. Hefyd:

- *Mynychodd 53 o gleifion yr Uned Mân Anafiadau ar ôl 8pm ym mis Mehefin 2017, o'i gymharu â 9 yn yr un mis y flwyddyn flaenorol. Mae 109 o gleifion wedi mynd i'r Uned yn ystod yr oriau agor estynedig (ers mis Ebrill 2017).*
- *Cafodd mwyafrif y cleifion a ddaeth i'r Uned eu brysbennu fel Safonol*
- *Daeth 98% ohonynt i'r Uned ohonynt eu hunain, dim ond 2% ddaeth mewn ambiwlans*
- *Cafodd 79% o gleifion eu cyfeirio'n ôl at eu meddyg teulu*
- *Arhosodd 93% o gleifion llai nag awr i gael eu trin*
- *Cafodd 87% o gleifion a ddaeth i Ysbyty Alltwen rhwng mis Ebrill 2016 a mis Mehefin 2017 eu rhyddhau. Cafodd 13% eu hanfon i Uned Achosion Brys Ysbyty Gwynedd a chafodd 0% eu derbyn.*

Dylid nodi fodd bynnag bod y penderfyniad a ellir rheoli anaf penodol yn yr Uned yn benderfyniad clinigol i gael ei wneud gan y clinigydd sy'n gweld y claf. Gall anafiadau i'r llaw yn aml gynnwys niwed cudd i dendonau neu nerfau. Mae timau arbenigol y genau a'r wyneb yn ymdrin mwy a mwy ag anafiadau'r wyneb ac mae'n rhesymol i glinigydd mân anafiadau gyfeirio at ysbyty cyffredinol dosbarth os ydynt yn credu mai dyma'r dewis cywir i'r claf. Mae'n annhebygol y bydd yn addas i Uned Mân Anafiadau drin anafiadau cyflym o'r ganolfan beicio mynydd ym Mlaenau. Yn wir, byddai amlder ymateb ambiwlans awyr yn cefnogi hyn.

### iv. Rhoi argymhellion Mae Gofal Iechyd yng Ngogledd Cymru yn Newid ar waith

Mae'r tabl canlynol yn dangos sut mae'r Bwrdd Iechyd (Ardal y Gorllewin) wedi bod yn rhoi argymhellion Mae Gofal Iechyd yng Ngogledd Cymru yn Newid ar waith ac mae'n disgrifio'r gofal rydym eisoes yn ei ddarparu ym Mlaenau yn ogystal â'r gofal ychwanegol fydd yn cael ei ddarparu pan fydd y Ganolfan newydd yn agor ar ddiwedd mis Medi 2017.

| Argymhelliad | Gofal sy'n cael ei ddarparu |
|---|---|
| ➢ **Gwasanaeth Gofal Ychwanegol yn y Cartref i'w sefydlu ym Meirionnydd** | Yn unol â strategaeth genedlaethol a strategaeth y Bwrdd Iechyd, mae mwy o ofal yn |

| | |
|---|---|
| **erbyn diwedd mis Mai 2013.** | awr yn cael ei ddarparu yng nghartrefi unigolion, pan fo hyn yn briodol. Dechreuwyd cyflwyno gofal ychwanegol (gyda buddsoddiad o dros £250K mewn swyddi nyrsio, gofal cymdeithasol a swyddi trydydd sector) ym Meirionnydd ym mis Medi 2013. Mae bob un o'r 6 Meddygfa yn yr ardal leol wedi cofrestru â'r gwasanaeth sy'n gofalu am gleifion ag anghenion meddygol mwy dwys yn y cartref. Er bod y niferoedd yn isel (gan gydnabod craffter y gofal presennol sydd eisoes yn cael ei ddarparu gan nyrsys ardal Meirionnydd), mae'r gwasanaeth yn cael ei werthfawrogi gan gleifion, gofalwyr a meddygon teulu sy'n gwerthfawrogi'r cyfle gofal sy'n cael ei ddarparu yn eu cartrefi eu hunain yn hytrach na chael eu derbyn i'r ysbyty. **Nyrsio Cymuned 24/7** Yn ogystal â hyn, mae gwasanaeth nyrsio ardal 24/7 wedi cael ei gyflwyno ar draws Dwyfor / Meirionnydd dros y misoedd diwethaf. Mae adborth cychwynnol gan gleifion yn gadarnhaol iawn, er nad yw'r gwasanaeth yn gadarn eto oherwydd salwch staff / swyddi gwag. Rydym yn gweithio i fynd i'r afael â hyn. **Gofal Lliniarol** Mae Tîm Nyrsio Cymuned Gogledd Meirionnydd yn gofalu am niferoedd cynyddol o gleifion gofal lliniarol (oddeutu 11-12 o gleifion ar unrhyw adeg) o ardal y Blaenau yn eu hamgylchedd cartref o'u dewis - yn flaenorol byddai'r cleifion hyn a'r cleifion gofal ychwanegol wedi cael eu derbyn i'r ysbyty. |
| ➢ **Bod gofal cleifion mewnol yn cael ei ddarparu o Ysbyty Alltwen** | Yn dilyn cau 12 gwely claf mewnol yn Ysbyty Coffa Ffestiniog, agorwyd chwe gwely ychwanegol yn Ysbyty Alltwen (13.5 milltir i ffwrdd / 23 munud mewn car). Yn ogystal â hyn, agorwyd 3 gwely camu i fyny / camu i lawr (ynghyd â gwelyau galluogi a gofal seibiant) yng nghartref preswyl Bryn Blodau yn 2015. Yn ystod 2016, cafodd 66 o gleifion eu derbyn i welyau camu i fyny / camu i lawr Bryn Blodau (bu i 16 gamu i lawr o Ysbyty Gwynedd a 50 wedi camu i fyny o gartref). |
| ➢ **Bod yr Uned Mân Anafiadau yn cau erbyn mis Chwefror 2013** | Mae gwasanaeth mân anafiadau ar gael 7 diwrnod yr wythnos, 8am tan 10pm (i'w ymestyn tan hanner nos 7/7 ym mis Medi 2017) yn Ysbyty Alltwen. Mae Meddygfa Blaenau hefyd yn cael ei chomisiynu i ddarparu gwasanaeth mân anafiadau, Dydd Llun i ddydd Gwener 8.30am i 6.00pm. |
| ➢ **Bod yr Uned Pelydr-X yn cau erbyn mis Ebrill 2013** | Mae gwasanaeth pelydr-X yn cael ei ddarparu yn ddyddiol, dydd Llun i ddydd Gwener yn Ysbyty Alltwen. |
| ➢ **Gan eithrio cleifion mewnol a mân anafiadau y bydd y gwasanaethau presennol sy'n cael eu darparu o adeilad yr ysbyty yn parhau ac yn cael** | Ac eithrio cleifion mewnol, mân anafiadau a phelydr-X, bydd yr holl wasanaethau presennol sy'n cael eu darparu o adeilad blaenorol yr Ysbyty a'r Ganolfan Iechyd yn cael eu |

| | |
|---|---|
| **eu datblygu ymhellach, sy'n disgyn i bedwar maes, sef, triniaethau dydd, lles ac atal, gwasanaeth/lleoliad staff a gwybodaeth a chyngor.** | trosglwyddo i'r Ganolfan newydd. Bydd Canolfan Goffa Ffestiniog yn darparu canolbwynt i gael mynediad at wasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol, gwasanaethau trydydd sector a gwasanaethau lles yn y gymuned, ac mae'n cefnogi gweledigaeth y Bwrdd Iechyd ar gyfer y gwasanaeth iechyd o ddarparu gofal yn y gymuned ac yn agosach i gartrefi unigolion. Bydd ystod o sesiynau newydd a chynyddol o wasanaethau iechyd, lles, atal a gwybodaeth / cyngor yn cael eu darparu –<br>**.** Mae hyn yn cynnwys (ond nid yw'n derfynol):<br><br>➢ Lleoliad **Meddygfa newydd a mwy**<br><br>➢ **Clinigau cleifion allanol newydd dan Arweiniad Meddygon Ymgynghorol a Gofal Lliniarol gan Nyrs Arbenigol** a Therapïau Cyflenwol ac ystod o wasanaethau cefnogi Teuluoedd a Chleifion trydydd sector<br><br>➢ **Clinigau newydd Resbiradol a Methiant y Galon gan Nyrs Arbenigol** (gyda chlinigau Diabetes, Rhiwmatoleg, Offthalmoleg ac Orthoptig presennol) a **Chlinig Awdioleg newydd** mewn Ystafelloedd Cleifion Allanol newydd amlbwrpas ➢<br><br>**Ystafell benodol i Blant a Phobl Ifanc** sy'n darparu clinigau Paediatrig Ymgynghorol, mwy o sesiynau Gwasanaethau Iechyd Meddwl i Blant a Phobl Ifanc, (CAMHS) sesiynau wythnosol Magu Plant y Blynyddoedd Cynnar, Sesiynau Tylino Babi a Grwpiau Babi, Clinigau Cyn-geni a mwy o sesiynau Therapi Iaith a Lleferydd Paediatrig; ➢<br><br>**Gwasanaeth Anableddau Dysgu wedi'i gryfhau'n fawr**- gyda Gwasanaeth Therapi Ymddygiad Dilechdidol (DBT) wythnosol rheolaidd drwy'r dydd, sesiynau Grŵp DBT, clinig cleifion allanol Anableddau Dysgu amlddisgyblaethol, a gwasanaeth galw heibio ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth, rhieni a gofalwyr ➢<br><br>**Gwasanaeth Dydd Dementia** a fydd yn cynyddu i 2 ddiwrnod yr wythnos ynghyd â Grŵp Cefnogi Gofalwyr Dementia ➢<br><br>**Lleoliad newydd ar gyfer staff Iechyd Meddwl a Chamddefnyddio Sylweddau i Oedolion** gyda mwy o sesiynau grŵp<br><br>➢ **Lleoliad Deintyddol Cymuned newydd** |

| | |
|---|---|
| | gyda'r bwriad o recriwtio deintydd cyffredinol cyflogedig - mae'r hysbyseb allan ar hyn o bryd ➢<br>Sesiynau **rheolaidd Ffisiotherapi, Podiatreg, Iaith a Lleferydd a Dieteteg**<br><br>➢ **Clinig Newydd Dim Smygu Cymru** (Iechyd Cyhoeddus Cymru) ➢<br><br>Prosiect Lles Cymuned **newydd Tan y Maen**: **Cyrsiau Grŵp Ymwybyddiaeth Ofalgar / sesiynau Cerdded** ➢<br><br>**Canolfan Waith newydd** - Cefnogaeth Cyflogaeth ac Ymgynghorwyr Cyflogaeth Anabledd ➢<br><br>**Cyngor ar Bopeth Gwynedd** ➢<br><br>**Lleoliad staff** ar gyfer Tîm Plant / Pobl Ifanc, Iechyd Meddwl, Therapïau, Gofal Lliniarol a lleoliad swyddfa ar y cyd ar gyfer staff Nyrsio Ardal a staff Gofal Cymdeithasol |
| ➢ **Bydd tîm prosiect amlasiantaethol yn cael ei sefydlu i reoli gweithredu'r newidiadau yn cynnwys ailddatblygu adeilad yr ysbyty presennol. Bydd hyn yn adeiladu ar y gwaith cychwynnol sydd eisoes wedi'i gynnal gyda Chyngor Gwynedd a chymdeithasau tai.** | Sefydlwyd Grŵp Gorchwyl a Gorffen ym mis Ionawr 2013, ac roedd yn cyfarfod yn wythnosol am bedwar mis i reoli'r newidiadau Mae Gofal Iechyd yng Ngogledd Cymru yn Newid. Yna cafodd Bwrdd Prosiect Integredig amlasiantaethol ei sefydlu ym mis Mehefin 2013, gydag aelodaeth rhanddeiliaid eang o'r Bwrdd Iechyd, y Feddygfa leol, Cyngor Gwynedd, Cyngor Tref Ffestiniog, Mantell Gwynedd, Iechyd Cyhoeddus Cymru, CIC Gogledd Cymru, Cynghrair Cyfeillion Ysbyty Coffa Ffestiniog, a Chymdeithasau Tai lleol. Fe wnaeth y Bwrdd hwn gyfarfod yn fisol dros bron i 18 mis, a datblygodd gyfres o egwyddorion model gwasanaeth cytunedig, adolygodd ddarpariaeth / bylchau gwasanaeth presennol, cynhyrchodd model gwasanaeth cytunedig i lywio'r achos busnes ac amserlennu lleoliad ar gyfer cyfleusterau iechyd a gofal cymdeithasol integredig newydd ym Mlaenau. Cwblhawyd yr achos busnes erbyn diwedd mis Mawrth 2014. |
| ➢ **Achos busnes ffurfiol i gefnogi gwella cyfleusterau yn cael ei ddatblygu a'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru.** | Datblygwyd achos busnes cyfalaf am £3.9m gan Fwrdd Prosiect Integredig Iechyd a Gofal Cymdeithasol Blaenau Ffestiniog yn 2013/14, a’i gyflwyno i Lywodraeth Cymru (Ebrill 2014). Gwnaethpwyd cyflwyniad o’r achos busnes i swyddogion Cyfalaf Llywodraeth Cymru ym mis Hydref 2015, a oedd yn cynnwys cynrychiolwyr gweithredol a chynrychiolwyr sy'n aelodau o BIPBC a Chyngor Gwynedd. Cafodd yr achos busnes ei gymeradwyo'n ffurfiol gan Lywodraeth Cymru ym mis Rhagfyr 2015. Dechreuodd y gwaith adeiladu ar y safle ym |

| | |
|---|---|
| | Mlaenau ym mis Ebrill 2016, a disgwylir iddo gael ei gwblhau ym mis Medi a disgwylir iddo agor i'r cyhoedd yn Hydref 2017. |

Rydym yn credu bod yr uchod yn dangos ein hymrwymiad a'n cynnydd hyd yn hyn i fodloni'r argymhellion a amlinellwyd yn *Mae Gofal Iechyd yng Ngogledd Cymru yn Newid* i ddarparu'r lefel o ofal a ragwelwyd yn wreiddiol ynddo ar draws y sbectrwm oedran o fewn cymuned ehangach Blaenau.

**5. Ymgysylltu**

Ym mis Gorffennaf 2016, fe benododd y tîm Ardal Swyddog Ymgysylltu penodol ar gyfer y Gorllewin, ac mae ei gwaith yn cynnwys cefnogi'r Tîm Ardal i gydlynu'r gweithgareddau ymgysylltu presennol a'r dyfodol ym Mlaenau Ffestiniog. Yn y 12 mis diwethaf, mae hi wedi adeiladu perthnasoedd â rhanddeiliaid a grwpiau cymuned a'u cynnal, ac wedi trefnu digwyddiadau ymgysylltu bob yn ail fis ym Mlaenau Ffestiniog i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i bob aelod o'r gymuned ar yr adeilad newydd a'r gwasanaethau sy'n mynd i gael eu darparu yno.

Ar y cyd â Thîm Cyfathrebu'r Bwrdd Iechyd, mae newyddlen reolaidd yn awr yn cael ei chynhyrchu ar gyfer cymuned ehangach Blaenau. Mae pum newyddlen wedi cael eu cynhyrchu a'u dosbarthu hyd yma, ac yn fwy diweddar mae fideos wedi cael eu postio ar ein cyfryngau cymdeithasol yn dangos gwaith adeiladu'r adeilad, a chyfweliadau â staff am y gwasanaethau fydd yn defnyddio'r ganolfan

Y bwriad yw rhoi'r newyddion diweddaraf am ddatblygiadau i'r preswylwyr, yn cynnwys y gwasanaethau newydd a gwasanaethau ychwanegol fydd ar gael yn y Ganolfan Iechyd newydd. Yn ogystal â hyn, mae Grŵp Cyfranogwyr Cleifion lleol newydd yn cael ei gynllunio, ym Mlaenau Ffestiniog i ddechrau a fydd yn darparu mewnbwn gwerthfawr ar wasanaethau penodol i ddylanwadau ar ddarpariaeth gwasanaeth lleol a datblygiadau gwasanaeth y dyfodol. Y bwriad yw canolbwyntio ar wasanaeth neu grŵp cleientiaid penodol ym mhob cyfarfod. Cynigir mai'r flaenoriaeth gyntaf ar gyfer y Grŵp hwn fydd Pobl Hŷn

Mae enghreifftiau o'r digwyddiadau ymgysylltu sydd wedi cael eu cynnal ym Mlaenau yn cynnwys:-

- Ym mis Medi 2016, cynhaliwyd digwyddiad ymgysylltu mawr yn y Neuadd Goffa ar gyfer y cyhoedd i gwrdd ag aelodau o'r Bwrdd Iechyd, Awdurdod Lleol a'r trydydd sector fydd yn bresennol yn y ganolfan newydd i drafod eu problemau ac i weld y cynlluniau pensaer, ac i gwrdd â swyddogion fydd yn gweithio yno e.e. CAMHS, Cyngor Gwynedd ac Ymwelwyr Iechyd.

- Yn ystod mis Tachwedd a mis Rhagfyr 2016, stondinau ymgysylltu ym Meddygfa bresennol Blaenau i annog aelodau o'r gymuned i fod yn rhan o'r Grŵp Cyfranogiad Cleifion newydd. Roedd hyn ar Ddiwrnod Cenedlaethol Hawliau Gofalwyr, ble wnaeth y Swyddog Ymgysylltu bwysleisio'r wybodaeth a'r gefnogaeth sydd ar gael i ofalwyr di-dâl yn yr ardal hefyd. (Dynodwyd 3 gofalwr nad oeddent yn cael unrhyw gefnogaeth, a rhoddwyd gwybodaeth iddynt ar gyfer cymorth)

- Ym mis Chwefror 2017, fe wnaethom ymgysylltu â Chyngor Ysgol y Moelwyn, a rhai o'u hathrawon i bwysleisio'r gwasanaethau newydd a'r gwasanaethau ychwanegol ar gyfer y genhedlaeth nesaf i'r disgyblion- unwaith eto nid oeddent yn ymwybodol o nifer y gwasanaeth a fyddai ar gael iddynt yn eu cymuned, a dosbarthwyd copïau o'r newyddlen ddiweddaraf iddynt.
- Ym mis Mai 2017, roedd stondin ymgysylltu anffurfiol yn "Eurospar" Blaenau, i ymgysylltu â phreswylwyr lleol mewn lleoliad anffurfiol, a arweiniodd at gefnogi mam ifanc a oedd angen cefnogaeth ar gael mynediad at wasanaethau CAMHS ar gyfer ei mab oedd yn ei arddegau.
- Ym mis Mehefin 2017, cynhaliodd y CIC arolwg o brofiadau cleifion o'r gwasanaethau Meddygon Teulu lleol yn y dref.
- Rydym hefyd wedi cael ein gwahodd i fod yn rhan o sesiynau hwyl "Caban Bach" i'r teulu, darparwr gofal iechyd lleol yn y dyfodol i ymgysylltu â rhieni ifanc a'u teuluoedd i bwysleisio'r gwasanaethau newydd a'r gwasanaethau ychwanegol fydd yn y ganolfan.

Mae ymgysylltu parhaus â'r trydydd sector hefyd drwy Mantell Gwynedd, sy'n cael ei gynrychioli yn y Grŵp Trosglwyddo Gwasanaeth Prosiect Blaenau a gydag Age Cymru, sydd ar hyn o bryd yn rhedeg Canolfan Byw'n Dda ym Mlaenau. Mae'r Swyddog Ymgysylltu wedi bod yn gweithio ag asiantaethau trydydd sector lleol ac asiantaethau eraill hefyd er mwyn i Swyddogion y Ganolfan Waith, Swyddogion Cyngor Ar Bopeth Gwynedd, fod yn bresennol yn y Ganolfan i gynnig eu gwasanaethau i'r gymuned mewn lleoliad newydd, ynghyd â Chanolfan Tan y Maen (Iechyd Meddwl), Cymdeithas Alzheimer a Gwasanaeth Rhanbarthol Camddefnyddio Sylweddau (i'w gadarnhau) sy'n cael ei arwain gan Cyngor Gwynedd. Bydd hyn yn cynnig 'siop un stop' o wasanaethau a fydd yn cefnogi anghenion meddygol, iechyd a lles y gymuned, a drwy Ganolfan Cyngor ar Bopeth a'r Ganolfan Waith, mynediad at gyngor ar fudd-daliadau a mynediad at gyflogaeth/hyfforddiant.

Yn olaf, mae'r Bwrdd Iechyd yn datblygu Strategaeth Gwasanaethau Clinigol cyffredinol tymor hirach ar hyn o bryd ("Strategaeth Byw'n Iach, Aros yn Iach") yn amlinellu ei weledigaeth strategol, a sut y bydd yn darparu gofal iechyd ar gyfer y tymor canolig i'r tymor hirach. Fel rhan o'r Strategaeth hon, byddwn yn datblygu rhaglen ymgysylltu ar draws Gogledd Cymru. Bydd hyn yn sicrhau y byddwn yn parhau i ddysgu o adborth cleifion a'u profiadau, ac yn llywio gwelliannau gwasanaeth ar gyfer unigolion ar draws yr ystod oedran.

**5. Casgliad**

Amlinellodd Mae Gofal Iechyd yng Ngogledd Cymru yn Newid, gyfeiriad clir ar gyfer gwasanaethau yn ardal y Bwrdd Iechyd, ac mae cynnydd sylweddol wedi'i wneud hyd yma o ran symud yr argymhellion ymlaen ar lefel leol yng Ngwynedd.

Er bod unigolion yn gefnogol yn gyffredinol i ddarparu mwy o ofal gartref a dod â gwasanaethau o ysbytai yn agosach i'r boblogaeth, roedd y penderfyniad i gau gwelyau, yr uned mân anafiadau a'r adran pelydr-X yn benderfyniadau cynhennus yn ardal y Blaenau, ac i raddau mae wedi cuddio potensial y datblygiad newydd a'i gwmpas i ddarparu lleoliad sy'n addas ar gyfer yr Unfed Ganrif ar Hugain i'r dref a'r ardal, lle bydd ystod sylweddol o

wasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol a gwasanaethau trydydd sector yn cael eu darparu o fis Hydref 2017.

Drwy agor y ganolfan newydd, rydym yn credu y bydd profiadau unigolion o'r amgylchedd a'r gwasanaethau newydd a ddarperir yn lliniaru pryderon unigolion am y newidiadau, ac y bydd yn gwneud llawer i'w cadw nhw'n iach ac mor annibynnol â phosibl cyn hired â phosibl.

***EITEM 3C*** ***Cyflwyniad*** ***At Aelodau'r Pwyllgor Craffu***

Mae'r dogfennau a anfonwyd atoch yn profi, ymysg pethau eraill:-

(i) Mai **Arbed Arian** yn hytrach na gwella gwasanaethau iechyd yn yr ardal oedd flaenaf ar feddwl y Bwrdd Iechyd yn Ionawr 2013 wrth bleidleisio i gau Ysbyty Coffa Ffestiniog ac amddifadu'r ardal o'r gwasanaethau canlynol – Uned Mân Anafiadau, Uned Pelydr-X, meddygfeydd yn Llan Ffestiniog a Dolwyddelen, Practis Meddygon dibynnol a sefydlog.
***(Gweler Rhestr Dyfyniadau tudalennau 19 - 20 a Chyfaddefiad y Prif Weithredwr Mary Burrows cyn gorfod gadael ei swydd.)***


(ii) Eu bod nhw wedi cyflwyno **gwybodaeth** oedd weithiau'n **anghywir neu'n fwriadol gamarweiniol**, dro arall yn gelwydd llwyr, wrth geisio cyfiawnhau eu cynlluniau. ***(Gweler tudalennau 20 – 22)***

(iii) Eu bod nhw, dro ar ôl tro, wedi **dewis cau llygad i broblemau'r ardal ac i gwynion pobol** – a hynny mewn ardal y maen nhw eu hunain yn fwy na pharod i'w chydnabod fel un ddirwasgedig.
***(Gweler enghreifftiau yn y detholiad o lythyrau at swyddogion y Bwrdd Iechyd)***

(iv) Eu bod nhw wedi mynd ati'n fwriadol i ddangos **ANFFAFRIAETH** (DISCRIMINATION) yn ein herbyn ni, a'r anffafriaeth hwnnw, ar adegau, yn awgrymu agwedd hiliol.
***(Gweler y dyfyniadau ar dudalen 23)***

(v) Bod **anwybodaeth ddaearyddol** swyddogion y Betsi am yr ardal, a hynny dros nifer o flynyddoedd, yn profi nid yn unig gyn lleied maen nhw ddeall am y sefyllfa ond gyn lleied hefyd maen nhw'n boeni am y llanast a gafodd ei greu yma yn 2013, a'r un y maen nhw'n dal i geisio'i gyfiawnhau.
***(Gweler 3(ch) ar dudalen 22 a sylwadau Simon Dean ar tudalen 23 - 25)***

## ATODIAD 1




**<u>Asesiad yn ôl poblogaeth</u>**

**PWY**, yn ôl Adran Cyfraith Llywodraeth Cymru, sy'n gyfrifol am weinyddu'r Ddeddf?
**ATEB**: **<u>Awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd lleol.</u>**

**BETH** yw'r cyfrifoldeb hwnnw?
**ATEB:** Ystyried anghenion y boblogaeth leol parthed gofal a chefnogaeth.

**SUT** mae gwneud hynny?
**ATEB**: Rhaid ystyried: -
(i) <u>A yw'r gofynion hynny yn cael eu parchu ai peidio?</u>
(ii) Beth yw <u>ystod a safon</u> y gwasanaethau hynny?
(iii)A ydynt yn cael eu darparu hefyd yn y Gymraeg.

**<u>Definition according to the 2014 Well-being Act</u>**
***"Well-being, in relation to a person, means well-being in relation to any of the following:- physical and mental health and emotional well-being."***

**As far as the residents of Ffestiniog and the Welsh Uplands are concerned, their needs are <u>not</u> being met under the above terms of the '*Well-being Act 2014*'. <u>So who should be held responsible?</u>**

**<u>Diffiniad yn ôl deddf Llesiant a Gofal Cymdeithasol 2014</u>**
***"Ystyr 'llesiant' yw llesiant mewn perthynas ag unrhyw un neu rai o'r canlynol:- iechyd corfforol, iechyd meddwl a llesiant emosiynol."***

**Ym marn trigolion ardal Ffestiniog ac Ucheldir Cymru, <u>nid yw</u> lefel y gofal, fel y caiff ei ddiffinio uchod, yn cael ei ddarparu, ac rydym yn gofyn *"<u>Ar bwy mae'r bai am hynny?</u>"***

**<u>Herio rhai o'r pethau a ddywedwyd gan BIPBC dros y blynyddoedd</u>**

***Gobeithio y bydd aelodau'r Pwyllgor Craffu am geisio atebion i rai ohonynt?***

1. **Prawf mai arbed arian yn hytrach na gofal iechyd oedd y gwir reswm dros gau Ysbyty Coffa Ffestiniog a thros dynnu gwasanaethau o'r ardal.**

*(i)* *"Os oes sicrwydd y bydd y buddsoddiad ychwanegol yn cael ei gyfyngu i gyfnod o ddim mwy na thair blynedd, yna fe all hynny **arwain at elw ariannol yn y tymor hir ac yn ffordd resymol hefyd o ddod â newidiadau a fydd yn gynaladwy."***

*(ii)* *"… **gwnaethom ddatgan yn eglur nad oedd gennym refeniw ychwanegol ar gael i sefydlu gwasanaethau newydd ..."***

*(iii)* Ac mae adroddiad y Bwrdd ei hun - y *'Service Planning Report'* – yn 2012 hefyd yn tanlinellu eu gwir fwriad - *"Bydd datblygu'r Ganolfan newydd ar safle Ysbyty Coffa Ffestiniog yn golygu na fydd angen adeilad yr hen Ganolfan Iechyd mwyach, er y bydd safle'r adeilad pelydr-X yn ddefnyddiol fel maes parcio. **Bydd yr ad-drefnu yn arwain at arbediadau ariannol yn y gwaith cynnal a chadw, ac ynghyd â'r gwelliannau eraill ar safle'r Ysbyty dylid gweld arbedion sylweddol o fewn y pedair blynedd nesaf."***

……………………………………………………………………………………..

2. **METHIANT LLWYR**

Yn y wasg ar y pryd:- *"Adroddwyd bod Mary Burrows, y Prif Weithredwr, a'r Athro Merfyn Jones y Cadeirydd yn gadael **o ganlyniad i adroddiad damniol ar waith y Bwrdd Iechyd."***

………………….

Cyfaddefiad **<u>Mary Burrows</u>**, Prif Weithredwr BIPBC, o'i methiant ei hun ac un y Bwrdd Iechyd, cyn iddi hi a sawl un arall o'r prif swyddogion orfod gadael eu swyddi o dan gwmwl gwarth:-

***"Fy marn broffesiynol yw bod y Bwrdd, yn Hydref 2011, <u>wedi rhoi gormod o sylw i'r sefyllfa ariannol a hynny ar draul diogelwch clinigol</u> a'r materion oedd yn codi parthed rheolaeth ac ad-drefnu. Fel y Prif Weithredwr rwy'n***

***derbyn bod cyfrifoldeb arnaf i roi trefn ar y materion cyllidol ond doeddwn i ddim yn fodlon gwneud hynny ar draul pob dim arall ac fe wnes i hynny'n berffaith eglur ar y pryd. Os oedd hyn yn golygu gorfod ildio fy swydd fel Prif Weithedwr, yna dyma oedd y pris y byddai'n rhaid i mi ei dalu."***

**Ond eto i gyd, cyn belled ag y mae Ucheldir Cymru yn y cwestiwn, dal i gadw at yr un hen ddadleuon a'r un hen esgusion a chelwyddau a wna pob un o'r prif weithredwyr a ddaeth ar ei hôl hi, sef David Purt, Simon Dean, a rŵan Gary Doherty**!

**3. Datganiadau camarweiniol, rhai ohonynt yn gelwyddog, a wnaed yn enw'r Betsi**

***(i)*** Addewid gan un o staff BIPBC mewn sesiwn ymgynghorol yng Nghanolfan Hamdden Glaslyn, Porthmadog ar ***29ain Chwefror 2012*** –

***"Cyn dileu unrhyw wasanaethau, dylid gofalu bod gwasanaethau eraill i gymryd eu lle."***

Roedd hwn yn gelwydd llwyr cyn belled ag yr oedd Ysbyty Coffa Ffestiniog ac Ucheldir Cymru yn y cwestiwn oherwydd doedd y gwasanaethau y cyfeirid atynt ddim ar gael hyd yn oed flwyddyn yn ddiweddarach pan ruthrwyd i gau'r Ysbyty Coffa ar ***26ain Mawrth 2013***. Doedden nhw ddim ar gael flwyddyn gyfan ar ôl hynny chwaith – **A dydi'r rhan fwyaf ohonyn nhw ddim ar gael hyd yn oed heddiw, 4½ blynedd yn ddiweddarach!**

***(ii)*** ***Chwefror 2013 :*** Gohebiaeth oddi wrth Mary Burrows i'r Pwyllgor Amddiffyn

***"Oherwydd absenoldeb staff, bydd yr Uned Mân Anafiadau yn Ysbyty Coffa Ffestiniog yn cael ei gadw ar gau am gyfnod o bedair wythnos, er mwyn sicrhau diogelwch cleifion."***

***"Mae'r Uned Mân Anafiadau yn yr Ysbyty yn parhau ar gau oherwydd salwch staff ... Mae nifer y gwlâu yn yr Ysbyty yn cael ei gadw i 10 gwely. O ystyried lefel gofynion y cleifion, nid oes yma ddigon o staff nyrsio i gynnal 12 gwely."***

Dau ddatganiad cwbwl **gelwyddog** a **chamarweiniol** o gofio bod y Bwrdd Iechyd wedi pleidleisio'n unfrydol, **dair wythnos ynghynt**, ar ***18fed Ionawr 2013***, i gau'r Ysbyty Coffa.
Chwe wythnos yn ddiweddarach, ar ***26ain Fawrth 2013***, fe gafodd y cleifion olaf eu trosglwyddo i lawr i Alltwen ac o fewn dyddiau wedyn fe ddechreuwyd rhwygo offer ac asedau allan o'r adeilad, a hynny gyda'r bwriad amlwg o roi terfyn buan ar brotestiadau lleol.

***(iii)*** **Dr PETER HIGSON** Cadeirydd BIPBC - ***22.02.2014*** **:-**

*" … gwasanaethau ychwanegol i'r boblogaeth gyfan."*

**……………….**

*"Bydd yr adeilad newydd yn gartref i wasanaethau gofal cychwynnol ac i ystod ychwanegol o wasanaethu iechyd a gofal cymdeithasol."*

Roedd yr honiadau uchod yn **anghywir a chamarweiniol**

**……………**

***"Bydd gwasanaethau yn nes at gartref, ac felly'n arbed yr angen i deithio."***

**Eto'n gelwydd cyn belled ag y mae Blaenau Ffestiniog a gweddill Ucheldir Cymru yn y cwestiwn.**

**……………**

***(iv)*** **GARY DOHERTY** *(*Prif Weithredwr presennol BIPBC) mewn datganiad i'r Pwyllgor Deisebau yng Nghaerdydd ar ***Ionawr 2017*** :-

***(a) "Mae'r feddygfa yn y Blaenau yn cael ei chynnal gan dîm llawn o feddygon, efo rhai ohonynt wedi ymrwymo'n barhaol i'r practis, ac efo rhai ohonynt yn gyflogedig llawn amser yn hytrach nag ar delerau 'locum'.***

**Datganiad cwbl gamarweiniol eto!** Fe ŵyr Mr Doherty gystal â neb mai'r **unig feddyg** sydd wedi *'ymrwymo i'r Practis'* yw Dr Tom Parry, a arferai fod yn aelod llawn o bractis Meddygon Blaenau cyn iddo ef a'i gyd-weithiwr Dr Dawn Jones benderfynu ymddeol o'u swyddi yn 2014 oherwydd pwysau gwaith afresymol yn sgîl penderfyniadau'r Betsi i gau'r Ysbyty Coffa. **Y Bwrdd Iechyd ei hun a berswadiodd Dr Parry i ddychwelyd yn rhan-amser.** '*Locums'* yn teithio o bell yw'r gweddill ac mae Mr Doherty ar fai i hawlio bod *'tîm llawn'* o feddygon yn cynnal y feddygfa, oherwydd fe geir dyddiau pan nad oes ond un neu efallai ddau o

feddygon ar gael. (Yn ôl a ddeallwn, mae Dr Dawn Jones, oedd yn feddyg ifanc addawol a phoblogaidd yn yr ardal, bellach wedi cefnu ar ei gyrfa feddygol oherwydd iddi gael ei dadrithio gan agwedd ddi-fater y Bwrdd Iechyd.)

***(b) "Mae Gwasanaethau Mân Anafiadau llawn yn cael ei gynnig gan y Practis yn y Blaenau yn ystod oriau'r feddygfa."***

Mae'r datganiad hwn ymhell o fod yn wir, ac fe ddylai Mr Doherty wybod hynny'n well na neb!

*(c) " … mae'n amlwg bod rhai unigolion yn **chwilio'n gyson am enghreifftiau … er mwyn gallu manteisio'n wleidyddol."***

Mae'r **cyhuddiad** hwn gan Mr Doherty yn ei ddatganiad i'r Pwyllgor Deisebau yn un difrifol, a dylid gofyn iddo egluro **pwy'n union ydi'r *'unigolion'*** y mae'n cyfeirio atyn nhw a pha fantais *'gwleidyddol'* maen nhw'n chwilio amdano. Naill ai egluro hynny'n foddhaol neu ymddiheuro ar goedd.

*(ch) "Mae Blaenau Ffestiniog yn amlwg yn wledig … gyda **41.5% o boblogaeth Blaenau yn byw mewn penterfi bychain neu mewn cymunedau diarffordd …"***

Mae'r datganiad hwn yn dangos **anwybodaeth affwysol** a **diffyg adnabyddiaeth llwyr o ddaearyddiaeth** yr ardal. Fel y gŵyr aelodau'r Pwyllgor Craffu, mae Blaenau yn dal i gael ei hystyried fel y drydedd dref fwyaf yng Ngwynedd, tu ôl i Fangor a Chaernarfon.

Os nad mewn anwybodaeth y gwnaed y datganiad uchod, yna yr unig eglurhâd arall yw bod Mr Doherty wedi mynd-ati'n fwriadol i gamarwain y Pwyllgor Deisebau.

**Dylid gofyn iddo egluro pa un sy'n wir.**

*(d) "Does dim dwywaith nad oes problemau dyrys iawn yn Blaenau, efo lefelau uwch o amddifadedd, deiet gwael, tewdra a hen bobl yn byw eu hunain nag yng ngweddill Meirionnydd a rhaid cydnabod y problemau hyn pan yn cyflwyno gofal iechyd a gofal cymdeithasol yn y dref."*

**GWIR IAWN. Felly pam fyddai'r Bwrdd Iechyd yn dewis mynd â gwasanaethau hanfodol oddi yma yn hytrach nag ychwanegu at yr hyn oedd yma gynt, fel ag a wnaed yn Nhywyn a Dolgellau?**

**Mae hon yn enghraifft amlwg o ddangos FFAFRIAETH i rai ardaloedd ffyniannus ar draul ardal arall ddirwasgedig.**

……………………………………………………………………………………………

**4. Enghreifftiau eraill i brofi ANFFAFRIAETH *(Discrimination)* - hiliol o bosib! - yn erbyn pobl Ucheldir Cymru**

**DAVID PURT, Prif Weithredwr BIPBC 2014-15:-**

*(a) "Cytunwyd bod Unedau Mân Anafiadau yn Bryn Beryl a Tywyn yn cael eu cadw fel cydnabyddiaeth o natur wledig yr ardal;* ***cafodd y gwasanaethau hyn eu cynnal o 10.00 tan 18.00 saith diwrnod yr wythnos yn ystod misoedd yr haf a phum diwrnod yr wythnos yn ystod misoedd y gaeaf."***

*(b) "Bydd Gwasanaeth Mân Anafiadau ar gael saith diwrnod yr wythnos yn yr Ysbytai Canolbwynt* [e.e. Dolgellau]. ***Bydd gwasanaethau Mân Anafiadau ar gael hefyd yn Ysbyty Bryn Beryl ac Ysbyty Gymunedol Tywyn er mwyn ymateb i ofynion y gwyliau****."*

Mewn geiriau eraill, mae'r Gwasanaeth Mân Anafiadau yn cael ei ymestyn ym Mhwllheli a Tywyn yn ystod tymor y gwyliau **i gyfarfod â gofynion ymwelwyr â'r ardaloedd hynny**, tra bod **DIM** gwasanaeth o'r fath yn cael ei gynnig yn Blaenau Ffestiniog ac Ucheldir Cymru. **Mae hon yn enghraifft amlwg o ddangos anffafriaeth yn erbyn Cymry Cymraeg yr Ucheldir.**

***Am ba reswm bynnag, bu'n rhaid i Mr Purt adael yn fuan wedyn***!

……………………………………………………………………………………………

**SIMON DEAN (Prif Weithredwr BIPBC 2015-16) :-**

***" … Edrychir ar Tywyn, fel cymuned sy'n fwy diarffordd na Blaenau Ffestiniog. O safbwynt hygyrchedd mae'r 'Welsh Index of Deprivation' yn rhoi sgôr uchel i Blaenau oherwydd bod fan'no yn elwa o fod â gwasanaeth trên, gwasanaeth bysys a ffyrdd da.*** *Roedd hon yn* ***ystyriaeth bwysig yng ngolwg Llywodraeth Cymru pan yn cymeradwyo Cynllun Busnes Tywyn a hefyd gan y Bwrdd Iechyd yn ei***

***drafodaethau gyda'r CIC*** [Cyngor Iechyd Cymunedol] ***a arweiniodd at y penderfyniad i gadw'r Uned Mân Anafiadau yn Nhywyn."***

Roedd y wybodaeth hon yn **gelwydd llwyr** gyda'r bwriad o adeiladu achos yn erbyn ardal Gymraeg a Chymreig Blaenau ac Ucheldir Cymru. Mae'n **wirioneddol anhygoel** nad oedd neb yn y Betsi, na chwaith yn Llywodraeth Cymru, yn gwybod bod gan Tywyn hefyd ei gorsaf a gwasanaeth trên sy'n cysylltu ardaloedd y glannau efo Birmingham a dinasoedd eraill yn Lloegr - a bod gan Tywyn hefyd wasanaeth bysiau llawn cystal â'r un sydd ar gael yn Ucheldir Cymru. Y **cwestiwn pwysig**, felly, ydi hwn – **PWY a aeth ati'n fwriadol i gyflwyno'r wybodaeth gelwyddog hon i'w chynnwys yn y *Welsh Index of Deprivation*, a thrwy hynny wneud yn siŵr bod un ardal yn cael ffafriaeth dros ardal arall. Tybed a oes gan y wybodaeth isod oddi ar y rhyngrwyd rywbeth i'w neud â'r peth?** -

*"**Blaenau Ffestiniog** is a historic mining town in Gwynedd, Wales. It has a population of 4,875 according to the 2011 census, which makes it the third largest town in Gwynedd unitary authority, behind Bangor and Caernarfon. Blaenau is one of few places where the Welsh language is commonly heard on the streets around the town.*
***Tywyn** is a very anglicized town, with the majority of its population (52.8%) being born in England according to the 2011 UK census. Likewise, slightly more respondents claimed an English-only identity (35.0%) than a Welsh-only identity (33.7%)."*

**Methodd (neu gwrthododd) Simon Dean â chynnig eglurhâd, a chyn hir roedd yntau hefyd wedi diflannu.**

........................................................................................................................................

5. Yn dilyn penderfyniad BIPBC i gau'r Ysbyty Coffa yn Ionawr 2013, fe anfonwyd y cais isod **nifer o weithiau** at Gadeirydd BIPBC -

*"Os na ddangoswyd ffafriaeth i un ardal mwy nag arall, gawn ni ofyn sut yr aeth BIPBC ati i bwyso a mesur rhwng gwahanol ardaloedd yng ngogledd orllewin Cymru. Roedd rheidrwydd ar y Bwrdd i gynhyrchu dogfen yn cloriannu sefyllfa gofal iechyd nid yn unig yma yn Stiniog ond hefyd yn nalgylchoedd Tywyn, Dolgellau, Alltwen a Phwllheli.* ***Carwn wneud cais am gopi o'r adroddiadau hynny, ... er mwyn gweld beth yn union oedd y dadleuon dros roi gwell gwasanaeth i drefi llai poblog ond mwy Seisnig y glannau.****'*

**Rydym yn dal i aros am ateb! Pam hynny, tybed?**

**** Rydym yn pwysleisio NAD gwarafun i Tywyn a Phwllheli eu hysbytai a wnawn ni, ond gofyn yn hytrach pam nad yw Blaenau Ffestiniog ac Ucheldir Cymru yn haeddu'r un gwasanaethau. Gobeithio y bydd aelodau'r Pwyllgor Craffu yn llwyddo'n well na ni i gael ateb i'r cwestiwn.**

# DEISEBAU yn gwrthwynebu cynlluniau'r Bwrdd Iechyd

## *List of Petitions objecting to the Health Board's plans*

***2005***

**"Yr ydym ni, trethdalwyr a thrigolion Cylch Blaenau Ffestiniog, yn gwrthwynebu pob bwriad i is-raddio Ysbyty Coffa Ffestiniog ac yn galw am adfer ac uwchraddio gwasanaethau iechyd yn yr ardal."** **4,128** wedi arwyddo

***"We, the ratepayers and inhabitants of Blaenau Ffestiniog district oppose all plans to downgrade the Ffestiniog Memorial Hospital and call for the return and enhancement of health services in the area."*** *4,128 signatories*

***"Rydym ni a enwir isod o'r farn ei bod yn hollbwysig y dylid uwchraddio Ysbyty Coffa Blaenau Ffestiniog ar unwaith. Rydym yn diolch yn fawr i 'Clywed' am gynnal ymgynghoriad ar ran yr Awdurdod Iechyd ond rydym yn anfodlon ar gylch cul yr ymgynghoriad hwn."*** *377* ***o ddisgyblion Y. y M.***

***"We, the undersigned are of the opinion that it is imperative that Ysbyty Coffa Ffestiniog should be upgraded immediately. We thank 'Clywed' ('Listening')' for holding this consultation on behalf of the Health Authority but we are dissatisfied with the narrow scope of the consultation."*** *Signed by* ***377*** *Ysgol y Moelwyn pupils*

***2012***

*Rydym ni, sydd wedi arwyddo isod, yn galw ar Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i ddatblygu Ysbyty Coffa Ffestiniog yn 'ysbyty canolbwynt' ar gyfer cefn gwlad gogledd Meirionnydd a de Conwy.*

………………

Arwyddwyd gan **5 meddyg**, **2 nyrs i gynrychioli staff yr Ysbyty**, **4 cynghorydd sir**, **cadeirydd y Cyngor Tref**, **Ysgrifennydd Cyngor Cymunedol Dolwyddelan**, **cadeiryddion cynghorau Trawsfynydd a Maentwrog, cadeirydd Cwmni Seren, Cadeiryddion Cyfeillion yr Ysbyty Coffa a'r Pwyllgor Amddiffyn.**

**………………..**

*We, the undersigned, call on the Betsi Cadwaladr University Health Board to develop Ffestiniog Memorial Hospital as a focus hub hospital to serve the rural community of north Meirionnydd and south Conwy.*

*Signed by 5 doctors, 2 nurses on behalf of the Hospital, 4 county councillors, Chair of Town Council, Secretary of Dolwyddelen Community Council, chairs of Trawsfynydd and Maentwrog Community Councils, chair of Cwmni Seren, chairs of Friends of the Memorial Hospital and of the Defence Committee.*

***2014***

*"Hyd nes i'r Gweinidog Iechyd gael cyfle i ystyried adroddiad yr Athro Marcus Longley ar safon gwasanaethau iechyd yng nghefn gwlad Cymru – adroddiad a gomisiynwyd gan y Gweinidog ei hun yn Ionawr 2014 – yna rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i ddwyn perswâd ar Lywodraeth Lafur Cymru i ohirio trafod 'Cynllun Busnes' BIPBC sydd â'r bwriad o israddio ein Ysbyty Coffa i ddim byd mwy na 'Canolfan Goffa'."*

***(2,772 wedi llofnodi)***

***Until such time that the Health Minister has had to consider Prof Marcus Langley's Report – a report commissioned by the Minister himself -then we call on the Labour Government to defer discussing BCUHB's 'Business Case' which is intended to downgrade the Ffestiniog Memorial Hospital into nothing other than a Memorial Centre.***

***(2,772 signatories)***

**CAFODD POB UN O'R DEISEBAU UCHOD EU HANWYBYDDU'N LLWYR**

Yr unig ymateb fu hwn gan Gadeirydd BIPBC yn 2014.

***"Mae'n bwysig deall y ffeithiau sy'n cael eu cyflwyno i'r rhai y gofynnir iddynt lofnodi deisebau mewn perthynas â'r datblygiad ym Mlaenau Ffestiniog."***

**Roedd y fath ymateb yn sarhâd llwyr ar ddeallusrwydd Cymry Cymraeg yr Ucheldir**

**...............................**

***ALL THE ABOVE PETITIONS WERE IGNORED***

*The only response came from BCUHB Chair in 2014*

***"It's important to explain the facts to those who sign petitions in relation to the development in Blaenau Ffestiniog"***

**This has been seen as an insult to our intelligence as a community**

***2015***

**Cyflwynwyd deiseb i'r Pwyllgor Deisebau yng Nghaerdydd yn galw am adfer gwelyau a gwasanaethau Mân Anafiadau a Pelydr-X i'r Ysbyty Coffa. Ddwy flynedd yn ddiweddarach mae'r ddeiseb honno'n dal i gael ei chadw'n agored wrth i'r Pwyllgor Deisebau barhau i ddisgwyl am atebion boddhaol oddi wrth y Bwrdd Iechyd.**

***A petition calling for the return of inpatient beds, a Minor Injuries Unit and X-ray facilities to the Memorial Hospital. Two years down the line the Petitions Committee is still not satisfied with the Health Board's answers and insists on keeping the petition open.***

***Chwefror / February 2015***

**Pleidlais Gymunedol / Refferendwm**

***52% o'r etholaeth yn bwrw pleidlais. 99.6% o blaid ail-agor yr Ysbyty efo Gwlâu i gleifion, Uned MânAnafiadau a gwasanaeth Pelydr-X.***

**Y CANLYNIAD HWN ETO'N CAEL EI ANWYBYDDU'N LLWYR**

**.....................**

***Community Poll / Referendum result in 2015***

***52% of electorate voted; 99.6% calling for return of Inpatient Beds, Minor Injuries Cover and X-ray facilities to the Memorial Hospital.***

**THIS RESULT WA S AGAIN TOTALLY IGNORED**

# Atodiad 1: Crynodeb o effaith y cynigion fesul sir

| | Gwelyau | Cleifion Allanol a Gofal Dydd | Pelydr-X | Uned Mân Anafiadau | Gofal Cychwynnol | Mwy o Ofal Gartref | Crynodeb |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Ynys Môn** | | **Ysbytai** | | | **Cymuned** | | |
| **Cefni** | ✓ | ✓ | – | – | | ✓✓ | Mwy o wasanaethau cymuned ar gyfer pobl hŷn ag angheni meddwl, lleihau gwelyau o 25 i 18 |
| **Penrhos Stanley** | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | | ✓✓ | Dim newid i wasanaethau ysbyty. Gofal ychwanegol gartref eisoes yn bodoli |
| **Gwynedd** | | **Ysbytai** | | | **Cymuned** | | |
| **Eryri** | ✓ | ✓ | ✘ | – | | ✓✓ | Cau pelydr-X (9 sesiwn yr wythnos ar hyn o bryd) |
| **Alltwen** | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | | ✓✓ | Yn derbyn cleifion Blaenau Ffestiniog |
| **Bryn Beryl** | ✓ | ✓ | ✘ | ✓ | | ✓✓ | Mwy o wasanaethau cymuned ar gyfer pobl hŷn ag angheni meddwl, cau 6 gwely yn barhaol Newid yn oriau Uned Mân Anafiadau |
| **Coffa Ffestiniog** | ✘ | ✓ | ✘ | ✘ | ✓✓ | ✓✓ | Ailddatblygu adeiladau'r ysbyty i ddarparu gwell gwasanaet ehangu gofal cychwynnol |
| **Dolgellau ac Abermaw** | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | | ✓✓ | Mwy o wasanaethau cymuned ar gyfer pobl hŷn ag angheni meddwl, cau 9 gwely yn barhaol |
| **Tywyn** | ✓ | ✓ | ✘ | ✓ | ✓✓ | ✓✓ | Achos busnes i ddatblygu Tywyn wedi'i gyflwyno i Lywodrae |
| **Conwy** | | **Ysbytai** | | | **Cymuned** | | |
| **Llandudno** | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | | ✓✓ | Parhau gyda chynlluniau datblygus |
| **Bae Colwyn** | ✓ | ✓ | ✓ | ✘ | | ✓✓ | Cau Uned Mân Anafiadau |

| **Symbol** | **Beth mae hyn yn olygu** |
|---|---|
| ✓✓ | Datblygiad neu welliant sylweddol |
| ✓ | Aros yr un fath |
| ✓ (llwyd) | Peth newid |
| ✘ | Gwasanaeth yn cau |
| – | Yn dynodi dim gwasanaeth yn bodoli |

**Atodiad 5 -** **<u>Gohebiaeth</u>**

***I sylw aelodau Pwyllgor Craffu Iechyd***

***Cyflwynir y llythyrau isod fel enghreifftiau yn unig o'r gohebu a fu efo swyddogion y Bwrdd Iechyd dros y blynyddoedd a'r modd y mae ein cwynion a'n pryderon a'n cwestiynau wedi cael eu diystyrru'n llwyr. Pe bai angen, fe ellid ychwanegu dwsinau o lythyrau eraill tebyg i'r rhain, er mwyn tanlinellu agwedd ddilornus y Betsi tuag at drigolion Stiniog ac Ucheldir Cymru. Gobeithio y cewch gyfle i daflu golwg drostynt.***

***Yn gyntaf, fodd bynnag, ac er hwylustod i chi fel aelodau'r Pwyllgor, dyma gynnwys adroddiad y BBC yn 2012 yn cofnodi fel roedd y Pwyllgor Craffu yn datgan pryderon yn gynnar yn y broses:-***

***31.10.2012***

**Newyddion y BBC** **Cyngor Gwynedd yn galw am oedi wrth ailstrwythuro Betsi Cadwaladr**

Mae arweinyddion Cyngor Gwynedd wedi galw i'r cynlluniau dadleuol i newid gwasanaethau iechyd gogledd Cymru gael eu gohirio am y tro.

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) newydd orffen cyfnod deg wythnos o ymgynghoriad cyhoeddus ar newidiadau sy'n cynnwys cau ysbytai cymunedol ac sydd wedi arwain at brotestiadau yn lleol. Dywedodd Cabinet y Cyngor ei fod yn ceisio eglurhad, gan ofni y bydd yn arwain at gostau ychwanegol. Cyfaddefodd fodd bynnag nad oes gan y Cabinet unrhyw awdurdod dros benderfyniadau'r bwrdd iechyd.

**Mae'r Cabinet yn dymuno gweld gwasanaethau newydd yn eu lle a'r cynlluniau wedi'u hariannu cyn rhoi unrhyw newidiadau ar waith.** Mewn ymateb drafft i'r newidiadau arfaethedig, dywed y Cabinet fod trosglwyddo gwasanaethau o ysbytai i'r gymuned yn "cynyddu'r risg y bydd goblygiadau ariannol pellach yn disgyn ar y cyngor ... Os yw'r bwrdd iechyd yn cau gwasanaethau, beth fydd yn cael ei gynnig yn eu lle?" <http://www.gwynedd.gov.uk/ADNPwyllgorau/2012-13/Cabinet/2012-10-30/english/06_01_The Health Boards Consultation on Reorganisation.pdf>

(Wyn Williams, Aelod Cabinet Cyngor Gwynedd dros Wasanaethau Cymdeithasol a Gofal)

**"Wrth ymgymryd â newid sylweddol mae angen ennill ymddiriedaeth trigolion Gwynedd a sicrhau bod yr hyn sy'n cael ei gynnig yn sefydlu trefniadau gwasanaeth sy'n fwy cynaliadwy ar gyfer y dyfodol,"** medd y drafft. ***"Felly gofynnir i'r newidiadau beidio â digwydd hyd nes bydd y gwasanaethau newydd yn eu lle neu hyd nes bydd y cynlluniau wedi cael eu cymeradwyo a'u hariannu."***

Yn dilyn cyfarfod y Cyngor ddydd Mawrth, dywedodd Wyn Williams, yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol a Gofal, ***"Rydym yn bryderus iawn ynghylch dogfennaeth [y bwrdd iechyd]. Nid yw'r berthynas waith rhwng gofal ac iechyd yn un eglur, ac os yw'r bwrdd iechyd yn cau gwasanaethau, beth fydd yn cael ei gynnig yn eu lle?***

**Dim awdurdod**

***"Rydym wedi tynnu sylw at wendidau adroddiad [y bwrdd iechyd] ac rydym yn gofyn iddynt beidio â gwneud unrhyw newidiadau oni bai fod y cyhoedd yn ymwybodol o beth yw'r newidiadau hynny. Anogwn y bwrdd iechyd i beidio â bwrw ymlaen â'i gynlluniau hyd y byddwn wedi derbyn eglurhad."***

Pwysleisiodd Mr Williams fodd bynnag nad oes gan y cyngor unrhyw awdurdod dros benderfyniad terfynol y bwrdd iechyd.

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr wedi treulio 10 wythnos yn ceisio barn. Dan gynlluniau arfaethedig BIPBC, bydd ysbytai cymuned Blaenau Ffestiniog a'r Fflint yn cau, a bydd gofal dwys cymhleth i'r newydd-anedig yn cael ei symud i Arrowe Park yn Wirral. Daeth ymgynghoriad Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i ben ddydd Sul. <http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/861/12_69 Healthcare in North Wales is Changing v1.0.pdf>

## *Detholiad o'r ohebiaeth gyda Mary Burrows, Prif Weithredwr cyntaf BIPBC*

***13.12.2012***

Annwyl **Mrs Burrows**,

Mae eich penderfyniadau diweddaraf ynglŷn ag Ysbyty Coffa Blaenau Ffestiniog yn destun pryder ac anniddigrwydd mawr inni fel aelodau o Bwyllgor Amddiffyn yr Ysbyty Coffa, ac rydym unwaith eto'n cael lle i amau cymhellion y Bwrdd Iechyd.

Yn gyntaf, rydych wedi cau'r Uned Mân Anafiadau ***'am gyfnod o 4 wythnos oherwydd absenoldeb salwch staff dros dro <u>er mwyn cynnal diogelwch cleifion</u> a chefnogi staff nyrsio presennol'.*** A fyddwch cystal, felly, ag ateb y cwestiynau canlynol.

i. Sut y gallwch fod mor sicr ynglŷn â'r cyfnod o bedair wythnos?

ii. A ydych yn addo'n bendant y bydd y gwasanaeth yn cael ei adfer unwaith y daw'r cyfnod o salwch i ben, pryd bynnag y bydd hynny?

iii. Fe wyddom bod y nyrs, sydd bellach yn glaf, wedi bod yn cael ei hanfon yn ddiweddar – yn groes i'w dymuniad, o bosib – i helpu i gynnal y gwasanaeth mân anafiadau yn Ysbyty Alltwen pan oedd argyfwng yn fan'no, a bod eraill o'n nyrsys Graddfa 6 ni yn yr Ysbyty Coffa wedi cael eu defnyddio i'r un pwrpas yn ystod y misoedd diwethaf.

   Felly, o weld bod yr Ysbyty Coffa rŵan yn dioddef yr un argyfwng ag un Alltwen, yna pam na ellir cynnig yr un cymorth i ninnau yma, ***'er mwyn cynnal diogelwch cleifion'.*** Hynny yw, pam na ellir llenwi'r bwlch trwy anfon, i ninnau hefyd, nyrs gymwys o ryw ysbyty arall?

   Neu gadewch imi ofyn yr un cwestiwn mewn ffordd wahanol - Pan oedd gan Alltwen broblem staffio, yna pam na chafodd yr oriau mân anafiadau yn fan'no eu cwtogi? A

pham na roddwyd yr un dewis gerbron trigolion Porthmadog a'r cylch i ***'gysylltu ag un ai eu Meddyg Teulu lleol neu fynd i'r Uned Mân Anafiadau gerllaw yn Ysbyty ... (** *Ysbyty Coffa Ffestiniog, efallai**?)'*** Mewn geiriau eraill, mae eich polisi ar y mater hwn yn dangos ffafriaeth amlwg tuag at un ardal ar draul un arall, a hynny, yn ein barn ni, er mwyn cyfiawnhau cau Ysbyty Coffa Ffestiniog, er gwaetha'r ffaith eich bod wedi gwadu'r fath beth ar hyd y blynyddoedd. Hefyd, trwy ddyfynu'r nifer *'1-3 claf'* sy'n ymweld â'r uned yn Ffestiniog bob dydd, mae'n gwbwl amlwg eich bod yn ceisio gwneud achos i gau'r uned, nid 'dros dro', fel rydych yn honni, ond yn barhaol! O brofiad chwerw, fe wyddom bellach mai addewid sinigaidd yw'r geiriau '***Caiff y sefyllfa ei monitro'n agos yn ystod y cyfnod hwn.'*** Ers 2005, mae BILlG, a BIPBC i ddilyn, wedi mynd ati'n fwriadol i erydu gwasanaethu o'r Ysbyty Coffa, trwy leihau'r nifer gwlâu ynddi ac, yn sgîl hynny, greu diffyg preifatrwydd i gleifion trwy droi Ward y Dynion, ar gost anhygoel o £70,000, yn adran ffisiotherapi sydd â phrin ddefnydd ohoni erbyn heddiw, diolch i'r modd y caiff y gwasanaeth hwnnw ei reoli o Ysbyty Alltwen. Yn y broses, collwyd hefyd ward fechan oedd â gwely gofal paliatif, a thorrwyd ar oriau Mân Anafiadau o 24 awr i 10 awr ac yn awr i ddim o gwbwl! Rydym wedi lleisio'n pryderon yn gyson dros y blynyddoedd ond ni chafwyd clust y Bwrdd Iechyd o gwbwl. Wrth weld y gwasanaeth yn yr Ysbyty Coffa yn gwanychu o flwyddyn i flwyddyn, ac o fis i fis bellach – yna pa ryfedd ein bod yn amau agenda gudd gan y Bwrdd Iechyd?

iv. Gyda phob parch, nid yw tactegau BIPBC yn ddim gwahanol i rai Bwrdd Iechyd Gwynedd yn ôl yn 2005. Ond efallai na ddylem synnu at hynny, o gofio mai'r un pobol, i bob pwrpas, sy'n dal wrth y llyw. Felly peidiwch, da chi, â'n trin ni fel ffyliaid sydd ddim yn gweld nac yn deall yr hyn sy'n mynd ymlaen tu ôl i ddrysau caeëdig!

Maddeuwch y chwerwedd sydd yn y llythyr hwn ond mae achos teilwng drosto, bellach.

Yn gywir,

Geraint V. Jones (Cadeirydd Ysbyty Coffa Ffestiniog)

*cc. Yr Arglwydd Dafydd Elis Thomas AM*

*Elfyn Llwyd, AS*

Mr Geraint V Jones,
Cadeirydd
Pwyllgor Amddiffyn Ysbyty Goffa Ffestiniog

Annwyl Mr Jones,

Diolch am eich e-bost yn codi nifer o ymholiadau ynghylch Ysbyty Goffa Ffestiniog ac ymddiheuraf am yr oedi.

Mae'r Uned Mân Anafiadau yn yr Ysbyty yn parhau ar gau oherwydd salwch staff sy'n ein gadael heb y gallu i ddarparu gwasanaeth yn ddiogel yn yr Uned.

Mae nifer y gwlâu a ddarperir yn yr Ysbyty wedi cael ei gynnal ar lefel o 10 gwely. Nid oes digon o staff nyrsio ar gael i weithredu 12 gwely, o ystyried anghenion y cleifion. Yn anffodus felly, nid yw wedi bod yn bosib ailagor y gwlâu ychwanegol yn y cyfamser.

Mae'r Cynllun Rhyddhau'n Gynnar yn Wirfoddol y cyfeiriwch ato yn gynllun a gytunwyd yn genedlaethol ac mae'n berthnasol i holl staff y Bwrdd Iechyd. Mae darpariaethau'r cynllun hwn wedi bod yn eu lle ers 2009. Mae'r cynllun wedi cael ei ail-hysbysebu i staff ar wahanol adegau. Nid yw'r cynllun hwn wedi cael ei dargedu at staff yn ardal Gwynedd; fodd bynnag ni allwn wahaniaethu yn erbyn staff trwy wrthod ystyried ceisiadau o'r ardal hon ychwaith. Ystyrir pob cais yn unol ag anghenion y busnes; os yw aelod staff yn gwneud cais ag yntau mewn swydd hanfodol na ellir ei rhyddhau, mae'n annhebygol y bydd y cais yn un llwyddiannus, oni bai y gellid ail-ddylunio ardaloedd gwasanaeth eraill i sicrhau bod rhywun yn gwneud gwaith y swydd hanfodol honno.

Yn olaf, hoffwn eich sicrhau bod y dadleuon a'r pryderon a godwyd gennych yn ein cyfarfod ar 24 Hydref 2012 wedi derbyn ystyriaeth lawn. Mae'r pryderon a godwyd mewn ymateb i'r cynigion ymgynghori - a'r cyfathrebu sylweddol a dderbyniwyd cyn y dyddiad hwnnw - wedi cael eu dwyn at sylw'r Bwrdd yn y trafodaethau a gynhaliwyd. Mae'r cynnig a gyflwynwyd i ystyried Ysbyty Goffa Ffestiniog fel canolbwynt ychwanegol hefyd wedi cael ei ystyried. Roedd y materion hyn yn ffurfio rhan o ystyriaethau'r Bwrdd Iechyd yn y cyfarfod a gynhaliwyd ddydd Gwener, 18 Ionawr, 2013, pan adolygwyd yr argymhellion yn dilyn yr ymgynghoriad a phan waned penderfyniadau gan y Bwrdd.

Yn gywir,

Mary Burrows
Prif Weithredwr

## *Detholiad o'r ohebiaeth gyda Merfyn Jones, Cadeirydd cyntaf BIPBC*

***12 Chwefror 2013***

### *Pwyllgor Amddiffyn Ysbyty Coffa Ffestiniog*

Annwyl **Athro Merfyn Jones**,

Derbyniais eich llythyr ddoe ac roeddwn yn siomedig o ddarllen ynddo'r ystrydebau arferol. Rydych yn honni bod BIPBC wedi rhoi ***'ystyriaeth drwyadl i'r holl ymatebion a ddaeth i law'*** **ac** ***'wedi gwrando ar safbwyntiau rheini a ymatebodd i'r ymgynghoriad'***. Awgrymu'r ydych chi felly bod pob un o'r safbwyntiau hynny wedi cael eu gwrthod, hyd yn oed y dadleuon a gyflwynwyd ichi gan ein meddygon lleol a phob un (ond un!) o'n cynrychiolwyr etholedig?

A gaf i, felly, eich atgoffa o'r broses ymgynghorol hyd yma –

(a) **Misoedd Mawrth i Fehefin 2012** - Cyfres o gyfarfodydd ymgynghorol gyda chynrychiolwyr grwpiau rhanddeiliaid lleol – meddygon, nyrsys, cynghorwyr sir a thref, Cwmni Seren sy'n

gweithio gyda rhai ag anabledd dysgu, Cyfeillion yr Ysbyty a ninnau fel Pwyllgor Amddiffyn. Roedd rhai ohonynt wedi colli dwyawr o'u gwaith er mwyn bod yno. Ond doedd gan y Bwrdd mo'r cwrteisi i anfon neb ond Clare Jones i'r cyfarfod cyntaf gan ddisgwyl iddi nid yn unig ateb pob cwestiwn – yr hyn na allai ei wneud - ond i godi cofnodion yn ogystal! Mynegwyd anfodlonrwydd llwyr efo'r sefyllfa honno ond pan ddigwyddodd yr un peth yn union yn yr ail gyfarfod, yna fe gododd y cynrychiolwyr i gyd a cherdded allan mewn protest. Do, fe ymddangosodd John Jones, y Swyddog Nyrsio, mewn un o'r cyfarfodydd nesaf ond prin y caed unrhyw wybodaeth o bwys allan ohono. Ac fe anfonwyd Dr Bill Whitehead i'ch cynrychioli mewn un neu ddau o gyfarfodydd eraill ac i ymateb i bryderon tri o feddygon oedd â mwy o brofiad na fo ei hun! Pa fath o sarhâd oedd peth felly? A sut y cafodd ef ei ddewis fel lladmerydd i'r Bwrdd, beth bynnag, ac yntau'n cynrychioli practis arall o fewn yr un sir ac, yn fwy na hynny, yn cynrychioli ysbyty arall oedd â mwy i'w ennill, efallai, o weld Ysbyty Coffa Ffestiniog yn cau? Oni ddylai fod wedi 'datgan diddordeb' cyn mynegi ei farn o gwbwl? Ond wnaeth o mo hynny!

(b) **Medi 6ed, 2012** - Tair sesiwn ymgynghorol 1¾ awr yr un ym Mlaenau Ffestiniog, efo lle i ddim mwy o gynulleidfa na 60 ym mhob sesiwn. Hynny yw, rhyw 180 allan o boblogaeth dalgylch o 7,000 a mwy! Yn un o'r sesiynau hynny, fe gaed addewid ar goedd gan Mr Geoff Lang y byddai pob dadl a phob pryder yn cael eu cofnodi a'u hystyried gan aelodau'r Bwrdd.

(c) **Hydref 4ydd, 2012** - Dirprwyaeth ohonom (yn cynnwys dau feddyg teulu profiadol) yn cyfarfod â chi a Mary Burrows a Geoff Lang yn Ysbyty Gwynedd, pryd y bu'r ddau olaf yn brysur iawn yn codi nodiadau manwl ac yn rhoi'r argraff, o leiaf, bod ein dadleuon yn rhai teilwng ac yn haeddu ystyriaeth. Roeddech chi eich hun yn dyst i'r cyfan! Ac fe aethom adref y diwrnod hwnnw yn llwyr gredu bod yr addewid yn un diffuant ac y byddem yn gweld rhywfaint o wahaniaeth yn agwedd y Bwrdd. Rhaid ein bod ni'n naïf iawn y tro hwnnw hefyd!

Byrdwn eich llythyr diweddaraf yw fod **pob un** dadl a gyflwynwyd yn y cyfarfodydd uchod wedi cael ei gwrthod gan aelodau'r Bwrdd, gan na welsant reidrwydd i newid **dim un** manylyn o'u cynlluniau gwreiddiol. Ac fe wyddoch mai dyna neges eich Prif Weithredwr Mary Burrows hefyd yn ei llythyr hithau, dyddiedig ddiwrnod yn ddiweddarach na'ch un chi – ***'I would like to assure you that the arguments and concerns that you have raised ... have been considered fully ... The proposal put forward for consideration of Ffestiniog Memorial Hospital as an additional hub has also been considered.'*** Datganiad moel sydd ddim hyd yn oed yn trafferthu dweud bod y cais wedi cael ei wrthod, heb sôn am egluro pam! Oedd hi'n ormod inni ddisgwyl i chi neu hi ymateb i'r dadleuon yn

y ddeiseb dros greu ysbyty canolbwynt yn Blaenau hefyd? Deiseb wedi ei harwyddo gan feddygon a nyrsys, cynghorwyr sir a thref a nifer o gynrychiolwyr etholedig eraill! Mae ateb 'Na!', a dim byd mwy na hynny yn anghwrtais a dweud y lleiaf! Ac eto i gyd, fe glywn fod cais gan ysbyty arall i fod yn 8fed *'hub'* wedi cael ei dderbyn! Byddai'n ddiddorol gwybod pwy oedd yn gwthio'r cais hwnnw ymlaen. Rhywun oedd â chlust aelodau'r Bwrdd yn amlwg ac oedd â thipyn mwy o ddylanwad na phobol gogledd Meirionnydd a De Conwy.

Y gwir yw bod BIPBC yn credu bod ganddo'r hawl i weithredu'n gwbwl unbeniaethol, yn union fel Bwrdd Iechyd Lleol Gwynedd o'i flaen. Ond ddylem ni ddim synnu at hynny, wrth gwrs, o gofio bod llawer o'r un pobol yn dal wrth y llyw – e.e. o Wynedd, Grace Lewis Parry, Dr Lyndon Miles ac eraill. Ond siawns eich bod yn gwybod, bellach, beth yw barn pobol ar draws Gogledd Cymru (fel hefyd yn ardal Bwrdd Iechyd Hywel Dda yn y de), sef mai ffârs llwyr a chostus fu'r holl broses ymgynghorol a'ch bod chi, trwy wthio'ch cynlluniau ymlaen, doed a ddelo, yn mynd i beryglu bywydau rhai degau os nad cannoedd o bobol yn ystod y misoedd sydd i ddod. Fe ddylai *'Adroddiad Francis'* yn Lloegr, a chondemniad David Cameron o'r cam-weinyddu gan fwrdd iechyd ardal Stafford, fod yn ddigon o rybudd ynddo'i hun.

Rydych yn honni y bydd cau Ysbyty Coffa Ffestiniog, a cholli'r holl wasanaethau sydd ynghlwm â hi (mân anafiadau, pelydr-X a.y.y.b.) yn ffordd o wella'r gwasanaeth iechyd yn yr ardal hon ac o sicrhau diogelwch cleifion. Gyda phob parch, mae defnyddio dadl o'r fath yn sarhâd llwyr ar ddeallusrwydd unrhyw un. Bu'n bolisi gan y Bwrdd (fel BILlG o'i flaen) i beidio derbyn enghreifftiau unigol o gamweinyddu gan fod peth felly'n mynd yn groes i ddeddfau cyfrinachedd ac yn y blaen. Ond rwyf am restru tair enghraifft, serch hynny, gan fod yr unigolion dan sylw, neu aelodau teulu agos, yn fodlon imi wneud hynny.

***(i)*** *(Dyfyniad o lythyr at Edwina Hart, 4ydd Awst 2008)*

*Annwyl Weinidog,*

*Efallai ichi gael clywed trwy gynrychiolydd ein hetholaeth, yr Arglwydd Dafydd Ellis Thomas, am ddau achos diweddar ym Mlaenau Ffestiniog pan fu gwraig 64 blwydd oed a gŵr, hefyd yn ei chwedegau, farw o drawiadau ar y galon cyn i'r gweithwyr paramedig allu eu cyrraedd. Yn yr achos cyntaf, fe gymerodd yr ambiwlans 29 munud i gyrraedd y claf, ar ôl gorfod rhuthro o'r Bermo, ddeng milltir ar hugain i ffwrdd. Wythnos yn ddiweddarach, fe gymerodd 22 munud i ambiwlans gyrraedd claf arall. Yn y ddau achos, roedd y cleifion wedi marw cyn i'r gweithwyr paramedig eu gweld o gwbwl a bu'r profiad yn un trawmatig iawn i'r teuluoedd, fel y gellwch ddychmygu ...*

*... Rhan allweddol arall o'r un broblem yw'r polisi 'Allan o Oriau' a orfodwyd ar yr ysbyty coffa lleol. Diolch i Fwrdd Iechyd Lleol Gwynedd, ni chaiff staff yr ysbyty agor eu drysau i gleifion allanol ar ôl 6.00 yr hwyr, mwyach, ac fe wnaed hynny'n berffaith glir i bobl y cylch hwn dros y dair blynedd ddiwethaf. Mae sôn yn lleol, pa un ai gwir ai peidio, bod rhai o'r nyrsys wedi cael eu ceryddu am dorri'r rheol hon! Y pwynt perthnasol yn hyn i gyd yw hwn –* ***Mae gan Ysbyty Coffa Ffestiniog ei 'defibrillator' ei hun ac mae'r staff wedi derbyn hyfforddiant i'w ddefnyddio. Ond eto i gyd, ar y ddwy noson dan sylw, bu dau o bobl farw tra bod yr offer allweddol hwnnw'n gorfod bod yn segur****. Pe bai'r teuluoedd uchod wedi teimlo bod ganddynt yr hawl i fynd â'u hanwyliaid yn syth i'r ysbyty yn hytrach na gorfod aros yn ofer i ambiwlans gyrraedd mewn pryd, yna pwy ŵyr na fyddid wedi osgoi'r ddwy drasiedi. Ond ni chawn wybod y naill ffordd na'r llall erbyn heddiw ac nid yw'r ddau a fu farw yn ddim, bellach, ond ystadegau moel ar ffeil y Gwasanaeth Iechyd. Does ryfedd yn y byd bod pobl y cylch hwn yn pryderu ynglŷn â chynlluniau'r Bwrdd Iechyd.*

***(ii)*** Mae'r ail enghraifft yn ymwneud â gwraig 91 oed sy'n trigo, bellach, mewn cartref i'r henoed yn Llan Ffestiniog. Un min nos, lai na mis yn ôl, fe syrthiodd a tharo'i phen a bu'n rhaid cael ambiwlans i'w chludo i Ysbyty Gwynedd; taith sydd, fel y gwyddoch, yn agos at 35 milltir un ffordd. Pan gafodd, merch Mrs _______, sy'n byw yng Nghroesoswallt, glywed am yr anffawd, fe ffoniodd i holi yn ei chylch. Roedd yn hanner nos erbyn hyn ac yn bwrw eira'n drwm. Cafodd glywed nad oedd meddyg byth wedi bod yng ngolwg ei mam. Ond pan gyrhaeddodd hwnnw o'r diwedd, fe benderfynodd nad oedd achos i'w chadw i mewn ac fe'i hanfonwyd hi'n ôl i'r cartref, er gwaethaf y tywydd oer. Roedd yn 4.00 o'r gloch y bore arni'n cyrraedd! Gwraig 91 oed! Bum awr yn ddiweddarach roedd yr hen wraig yn cael ei chludo'n ôl eto i Ysbyty Gwynedd, ar ôl syrthio'r eildro, am nad oedd gwely ar gael iddi yn Blaenau nac Alltwen, ac fe'i cadwyd hi yno am rai dyddiau. Erbyn heddiw, mae hi'n ôl ym Mangor eto, yn waelach o lawer na chynt. Ond y tro hwn, eto, bu'n gorwedd mewn corridor ar droli'r ambiwlans am ddwyawr a mwy, ac roedd y ddau baramedig unwaith eto'n gorfod aros efo hi ac yn ddig iawn bod rhywun o'i hoed hi'n cael ei hanwybyddu yn y fath fodd.

(iii) Mae'r drydedd enghraifft i'w chael yn y llythyr amgaeëdig. Nid eithriad o bell ffordd yw'r math hwn o ddigwyddiad chwaith, lle caiff cleifion o'r ardal hon eu hanfon i Ysbyty Alltwen ac yna'n syth ymlaen o fan'no i Ysbyty Gwynedd am nad oes neb yn yr ysbyty ym Mhorthmadog yn abl i drin clwyfau o'r fath; hynny yw, i wneud rhywbeth mor syml â

rhoi pwyth neu ddau mewn briw! *'Ysbyty newydd gyda chyfleusterau modern a'r gallu i gynnal mwy o gleifion'* yn ôl diffiniad y Bwrdd. Y fath eironi!

Gellid rhestru rhagor o enghreifftiau ond cwestiwn sydd raid i chi ei ateb yw hwn – A yw'r Bwrdd Iechyd yn dal i honni mai *'diogelwch cleifion'* sy'n cael blaenoriaeth gennych? Yn eich cyflwyniad chi a Mary Burrows ***'Mae Gofal Iechyd yng Ngogledd Cymru yn Newid – Ymunwch â'r Drafodaeth'*** fe ddywedwch hyn: ***'Bwriad y cynigion yr ydym yn eu gwneud yn awr yw newid y ffordd y darperir rhai gwasanaethau a hefyd eu lleoliad, fel y gallwn gyrraedd safonau uchel'.*** Onid yw'r enghreifftiau uchod yn gneud nonsens o'r fath ddatganiad? Ac fe ewch ymlaen i ddweud ***'Yn awr, mae arnom eisiau adeiladu ar y trafodaethau hyn a gofyn am eich safbwynt a'ch barn chi. Mae eich llais chi'n bwysig ...'*** Mi fyddai trwch poblogaeth Gogledd Cymru yn cytuno efo fi mai jôc wael ydi hon'na hefyd! Iaith Biwrocratiaeth a dim byd mwy na hynny!

Os yw BIPBC am barhau i weithredu'n gibddall, a chau ysbytai bach a'r gwasanaethau sydd ynghlwm â nhw, yna does dim angen dewin i ddarogan y bydd rhagor o fywydau'n cael eu colli. A phwy ŵyr na chwyd sefyllfa yn fuan iawn lle bydd galw am adroddiad tebyg i Adroddiad Francis yn Lloegr, yma yng Nghymru hefyd? Pe digwydd hynny, bydd yn amhosib cuddio tu ôl i unrhyw ystrydeb, a bydd y cwestiwn yn cael ei ofyn 'Sut bod aelodau bwrdd iechyd, sy'n derbyn cyfanswm cyflogau o £1,600,000 a mwy bob blwyddyn, yn cyfiawnhau cau ysbyty bach effeithiol sydd ond yn costio hanner y swm hwnnw (£800,00) i'w chynnal? Go brin y bydd Pwyllgor Amddiffyn Ysbyty Coffa Ffestiniog mewn bodolaeth erbyn hynny, wrth gwrs, ond bydd gennym ddigon o dystiolaeth i'w chyflwyno, serch hynny.

Fe ddywedwch eich bod *'yn deall y teimladau o ddicter a siom'* yn ein mysg ni, brotestwyr, ond, gyda phob parch, mae gen i ofn mai ystrydeb yw'r geiriau hynny hefyd.

Yr eiddoch yn gywir,

Geraint V. Jones (Cadeirydd Pwyllgor Amddiffyn Ysbyty Coffa Ffestiniog)

…………………………

***18fed Chwefror 2013***

Annwyl Athro Merfyn Jones,

Dyma ôl-nodyn i'r llythyr a anfonais atoch ddeuddydd yn ôl, lle'r oeddwn yn cyfeirio at y cam a gafodd yr hen wraig 91 oed yn Ysbyty Gwynedd dair wythnos yn ôl, pan anfonwyd hi'n ôl i gartref Bryn Blodau yn Llan Ffestiniog mewn tywydd rhewllyd am 4.00 o'r gloch y bore. Er gwybodaeth ichi,

bu Mrs ______ farw bnawn Sadwrn diwethaf a gallaf ddweud bod y teulu'n ddig iawn efo'r ffordd y cafodd hi ei thrin.

Ac fe'ch cyfeiriaf chi hefyd at dudalen flaen y *Caernarfon and Denbigh Herald* (Chwefror 14eg) lle ceir gwraig o'r enw ______________yn talu teyrnged i'r gofal a gafodd ei thad o Ddolwyddelan, yn ystod ei ddyddiau olaf yn Ysbyty Coffa Ffestiniog, o'i gymharu â'r modd y cafodd ei drin yn Ysbyty Gwynedd, rai dyddiau ynghynt. Bu farw o gancr yn yr Ysbyty Coffa fis yn ôl ond dyma dystiolaeth ei ferch o'r hyn a ddigwyddodd iddo yn Ysbyty Gwynedd – *'During the four nights he was there, he was moved four times – one of the moves happened at 3am. He had become severely visually impaired which completely disorientated him, which she says was worsened by having to move around so frequently ... The dressings on his legs had not been changed, or even looked at, until the discharge day.'* Fe anfonwyd Mr ________ adref trwy eira trwm, mewn car ambiwlans, a gorfod mynd trwy Lanbedrog a Phwllheli a Phorthmadog a Blaenau Ffestiniog i gyrraedd ei gartref yn Nolwyddelan. Taith o ddwy awr! A dyma ymateb y Bwrdd Iechyd i gŵyn Ms _________ yn dilyn marwolaeth ei thad - *'A spokeswoman for the Betsi Cadwaladr Unuversity Health Board said "We would like to express our condolences to Mrs ____________ and her family at this very sad time. Unfortunately, due to patient confidentiality, we are unable to comment on individual cases".'* Bobol bach! Ac mae eglurhâd parod fel'na yn esgusodi'r cyfan, mae'n debyg? Ond fe ddaw amser pan na fydd gan y Bwrdd Iechyd ddim dewis ond ymateb yn llawn gerbron llys barn i nifer o enghreifftiau o gam-weinyddu.

Rwy'n dwyn y pethau hyn i'ch sylw chi am y gwn i, o brofiad chwerw bellach, na allwn ddisgwyl oddi wrth swyddogion eraill y Bwrdd Iechyd ddim byd mwy nag addewid gwag i edrych i mewn i'r mater. Sut bynnag, rwy'n diweddu gyda'r dyfyniad yma o'ch eiddo chi a'r Prif Weithredwr, eto o'ch llyfryn *'Mae Gofal Iechyd yng Ngogledd Cymru yn Newid'* – *'Meddyliwch sut gallai gofal iechyd fod yn y 21 ganrif i chi, eich teulu, eich rhieni ac eich plant.'* Gyda phob parch, yng nghyd-destun yr achosion uchod, a sawl enghraifft arall y gallwn gyfeirio ati, mae eich geiriau yn swnio'n fwy o fygythiad nag o addewid! Pa ryfedd, felly, bod Pwyllgor Amddiffyn Ysbyty Coffa Ffestiniog wedi gofyn am farn gyfreithiol ar yr holl broses ac y byddwn yn galw hefyd, yn fuan iawn, am arolwg barnwrol o'r modd y mae BIPBC wedi gwthio'u cynlluniau ymlaen yn wyneb pob gwrthwynebiad, pob gwrth-ddadl a phob tystiolaeth. Roeddem wedi gobeithio y gallem ddwyn perswâd ar y Bwrdd i droi'r Ysbyty Coffa yn un o'i ysbytai canolbwynt ar gyfer cefn gwlad gogledd Meirion a de Conwy ond chafodd ein dadleuon a'n tystiolaeth ddim byd ond eu hanwybyddu'n llwyr gennych, ac mae agwedd o'r fath yn mynd yn gwbwl groes i bob trefn ddemocrataidd.

Yr eiddoch yn gywir,

Geraint V. Jones (Cadeirydd)

DIM ATEB

***Detholiad o'r ohebiaeth efo Dr Peter Higson (Cadeirydd BIPBC ac olynydd Merfyn Jones)***

03.05.14

Annwyl Dr Higson,

Wna i ddim gwadu nad yw eich llythyr diweddaraf wedi ein siomi ni'n fawr iawn, yma yn Stiniog. Er gwaetha'n gobeithion, mae'n ymddangos nad ydych yn barod i roi ystyriaeth i ddim un o'n dadleuon dros gael ein hysbyty yn ôl ac am y rheswm hwnnw, dydw i'n gweld dim pwrpas mewn herio rhai o'ch dadleuon chwithau, er y gallwn i wneud hynny'n hawdd iawn. Yn hytrach, fe ofynnaf ichi roi ystyriaeth deg i'r ychydig ffeithiau canlynol –

Fe wnaethom y cyhuddiad fwy nag unwaith yn y gorffennol fod BIPBC yn ffafrio ardaloedd eraill ar draul yr ardal hon (*'discrimination'* yw'r gair a ddefnyddiwyd gennym). Mae'r Bwrdd wedi gwadu hynny droeon ond mae'r cyhuddiad yn fwy gwir heddiw nag erioed. Er enghraifft, buom yn dadlau ers blynyddoedd mai arbed arian ac nid gwella'r gwasanaeth fu prif nod y Bwrdd Iechyd yn yr ardal hon o'r cychwyn un ond fe gafodd hynny ei wadu dro ar ôl tro. Dim ond teg, felly, yw imi dynnu sylw eto at rywfaint o'r twyll hwnnw trwy eich cyfeirio at dri dyfyniad yn unig allan o'r *'Progress Report to Service Planning Committee'* a ymddangosodd fis Ionawr eleni (yn rhyfedd iawn yn syth ar ôl i'r Bwrdd Prosiect bleidleisio o blaid y cynlluniau!) –

*(i)* *'The Building will house primary care Services,* ***and an increased range of health and social care Services.'*** Mae'r ail gymal yn gelwydd, a hawdd iawn fydd profi hynny!

*(ii)* ***'Services will be closer to home, preventing the need to travel'*** – Celwydd eto, o leiaf cyn belled ag y mae'r ardal hon yn y cwestiwn.

Ond y ffaith fwyaf dadlennol yn yr Adroddiad yw hon –

*(iii)* *'Developing a new Centre on the FfMH site will mean that the old Health Centre Building* [h.y. yr un sydd mewn defnydd ar hyn o bryd!] *will no longer be required, although the X-ray extension of the Health Centre site is likely to be*

*needed for a car park). This estate rationalisation* ***will generate savings in terms of running costs and together with improved efficiency costs of the redeveloped FfMH site, should mean that the associated benefits will be demonstrated in the next 2 – 4 years.'***

[Gyda llaw, nid *'extension'* o'r Ganolfan Iechyd mo'r adeilad pelydr-X o gwbwl oherwydd roedd hwnnw ar ei draed flynyddoedd lawer cyn bod y Ganolfan Iechyd, ac mae'n llawer gwell adeilad hefyd, o ran hynny, fel y gwelsoch drosoch eich hun.]

Ond does dim *'discrimination'* yn ein herbyn ni, meddir. Na dim ffafriaeth chwaith i eraill. Sut felly mae dehongli'r hyn sydd ar y gweill yn ardal Fflint ar hyn o bryd? Ydi'r Bwrdd Iechyd am wadu'r adroddiadau yn y wasg yn ddiweddar bod Fflint am gael eu hysbyty yn ôl (a phob lwc iddynt, wrth gwrs), yn ogystal â mwy o wasanaethau nag oedd ganddynt yn wreiddiol, a hynny oherwydd bod eich Is-gadeirydd chi yn digwydd bod yn wraig i'r Aelod Seneddol Llafur sydd â'i sedd yn Westminster o dan fygythiad? Os nad oes 'ffafriaeth' yn fan'na, yna dydw i ddim yn deall ystyr y gair.

Mae'n ddrwg gen i swnio'n chwerw, Dr Higson, ond ar ôl yr holl flynyddoedd o ymgyrchu, mae gan bobol yr ardal hon le i deimlo'n chwerw iawn, ac nid yw'r penodiad diweddaraf o Brif Weithredwr newydd yn gwneud dim o gwbwl i godi'n gobeithion, o gofio'r enw a wnaeth hwnnw iddo'i hun yn ei swydd flaenorol.

Un pwynt bach ond pwysig i gloi. Mae eich llythyr yn awgrymu eich bod yn fwy na bodlon efo'r gwasanaeth a gynigir yn Ysbyty Alltwen. A gaf awgrymu'n garedig y byddai holi rhai cleifion a'u teuluoedd (hyd yn oed o ardal Porthmadog ei hun!) yn tanlinellu pa mor effeithiol yw'r lle hwnnw mewn gwirionedd.

Maddeuwch eto fy chwerwder a'm rhwystredigaeth.

Yn ddiffuant iawn,

Geraint.

.......................................

07.07.14

Annwyl Peter,

Diolch eto am eich llythyr ond doedd yn gwneud dim, mae gen i ofn, i adfer fy ffydd yn y Bwrdd Iechyd. Fe welwyd cryn newid ym mhersonnel BIPBC yn ystod y flwyddyn a aeth heibio, a hynny o

dan dipyn o gwmwl i sawl un, ond hyd y gwelaf i nid yw'r arweinyddiaeth newydd wedi newid yr un iot ar gynlluniau'r cyn swyddogion hynny a does dim rhaid chwilio'n bell am y rheswm. Mae'r arbediad o dri chwarter miliwn a mwy, o ganlyniad i gau ein hysbyty coffa, yn egluro'r cyfan.

Rydych yn credu y dylai'r cylch hwn fod yn dra diolchgar am yr holl wasanaethau newydd fydd ar gael inni ond gyda phob parch, Peter, mae eich honiad yn gamarweiniol ac yn anghywir, fel sy'n amlwg yn yr atodiad 'Meddygon y Blaenau'. Ynddo, cewch weld llythyr oddi wrth ein Practis Lleol yn 2012 at Mr Geoff Lang yn herio rhai o gasgliadau Dr Ed Roberts yn ei adroddiad i Edwina Hart. Ynddo mae'r meddygon yn rhestru'r gwasanaethau oedd ar gael yma ar y pryd. (Onibai i'ch rhagflaenydd ei rhoi yn y bin, yna fe ddylai'r ddogfen 'Ymateb Pwyllgor Amddiffyn Ysbyty Coffa Blaenau Ffestiniog i adroddiad Dr Ed Roberts' fod yn eich ffeil yn rhywle. Ond dichon mai i'r bin y cafodd hi fynd gan na fu i Mr Lang nac unrhyw aelod arall o'r Bwrdd drafferthu i ymateb i sylwadau'r meddygon nac i'r Pwyllgor Amddiffyn chwaith, mwya'r cywilydd iddyn nhw. Ond dyna fo, mae'n haws cau llygad i'r gwir pan fo hwnnw'n mynd yn groes i gynlluniau rhywun!) Ond, o edrych o'r newydd eto rŵan ar restr y meddygon, ydach chi wir yn disgwyl i bobol y cylch hwn dderbyn eich dadl y byddan nhw ar eu hennill o dan y drefn newydd?

Rwyf hefyd, yn unol a'ch cais, yn atodi copi o'r llythyr a anfonwyd at Dr Bill Whitehead fis Hydref diwethaf (*'gryn amser yn ôl'* yn eich geiriau chi ond os yw'n cymryd 8 mis a mwy i ateb neu anwybyddu llythyrau yna fe all fod pwrpas sinigaidd i'r oediad hwnnw!) Fodd bynnag, er ichi geisio cyfiawnhau penodiad Dr Whitehead, rwy'n sylwi eich bod wedi osgoi yr UN cwestiwn allweddol a ofynnais, sef a ydych yn credu ei fod yn FOESEGOL gywir i feddyg mewn un practis arwain trafodaethau tuag at dorri dros dri chwarter miliwn o bunnoedd oddi ar wasanaethau iechyd mewn ardal arall gyfagos? Rwyf wedi codi'r cwestiwn hwn gydag eraill fwy nag unwaith cyn hyn ac yn dal i ddisgwyl ymateb onest iddo. Mae hwn yn fater o egwyddor bwysig o dan unrhyw drefn ddemocrataidd a dichon mai'r unig ffordd i fynd at wraidd y cwestiwn yn y diwedd fydd ei roi yn nwylo'r cyfryngau Seisnig.

Fe ddywedwch hefyd fod Bwrdd y Prosiect *'wedi cytuno ar y cadeirydd'*. Ydi cofnodion y bwrdd hwnnw ddim yn dangos bod un aelod o leiaf, sef y Cynghorydd Linda Wyn Jones, wedi cwestiynu'r penodiad? Hi, wedi'r cyfan, oedd yn cadeirio'r *Implementation Committee*, sef rhagflaenydd y Bwrdd Prosiect, ac oni ofynnodd hi am eglurhad nid yn unig ar pam y cafodd y pwyllgor hwnnw ei ddileu heb unrhyw ragrybudd nac eglurhad ond hefyd pam bod enw Dr Whitehead wedi cael ei awgrymu mor sydyn i gadeirio'r Bwrdd Prosiect? Peidiwch a deud wrtha i nad oedd dylanwad y Bwrdd Iechyd yn drwm ar y penderfyniad hwnnw'n ogystal.

Siom wirioneddol arall oedd darllen eich ymdrech i fychanu ein deiseb ddiweddaraf. Fe wnaethoch yr un peth hefyd yn eich gohebiaeth ddiwethaf ataf, parthed canlyniad ein holiadur. Yr awgrym bryd hynny oedd bod y cyhoedd wedi pleidleisio mewn anwybodaeth a'n bod ni wedi bod ar fai i beidio egluro iddynt holl oblygiadau'ch cynlluniau chi, fel Bwrdd, ar gyfer adeilad yr Ysbyty. Ond nid ein cyfrifoldeb ni oedd gneud peth felly, does bosib? Do, fe geisiodd Bwrdd y Prosiect drefnu cyfle yn y dref i amlinellu eu cynlluniau ond prin lond dwrn a fanteisiodd ar y cyfle hwnnw, yn rhannol oherwydd y tywydd gwlyb a stormus mae'n debyg. Ond a aethant ati i drefnu ail gyfle ar ôl i'r tywydd wella? Naddo! Felly peidiwch â thaflu'r cyfrifoldeb dros hyfforddi'r cyhoedd arnom ni. Yr awgrym yn eich llythyr yw fod pob deiseb a lanwyd gan drigolion y cylch hwn dros y blynyddoedd wedi bod yn gwbwl ddi-rym. ***'Mae'n bwysig deall y ffeithiau sy'n cael eu cyflwyno i'r rhai y gofynnir iddynt lofnodi deisebau mewn perthynas â'r datblygiad ym Mlaenau Ffestiniog,'*** meddech chi. A dyna esgus BIPBC dros anwybyddu'n deisebau ni, mae'n debyg, sef honni nad yw'r cyhoedd yn ddigon cyfarwydd â'r cefndir i allu pleidleisio'n synhwyrol? Mae'r awgrym yn sarhâd ar ddeallusrwydd pobol yr ardal ac yn deud llawer iawn am y ffordd mae Biwrocratiaeth yn gweithio!

Mewn paragraff arall fe geisiwch wneud achos dros wneud eithriad o Ysbyty Tywyn. Gwan iawn yw'r ddadl honno hefyd, mae gen i ofn. Fe soniwch am yr offer newydd yno'n cael ei ariannu *'trwy garedigrwydd Pwyllgor Apeliadau Ysbyty Tywyn'.* Digon teg, ond pan gynigiodd y Pwyllgor Amddiffyn, ar y cyd efo Chyfeillion yr Ysbyty, yn 2008 gyfrannu hanner y gôst (sef £150,000) tuag at godi estyniad ar gyfer ward newydd i'r dynion, ni chawsom hyd yn oed y cwrteisi o ymateb oddi wrth y Bwrdd, dim ond gair byr fisoedd yn ddiweddarach yn gwrthod y syniad heb unrhyw fath o resymeg. Fe ddylai'r cynlluniau pensaernïol a'r holl fanylion a gyflwynwyd gennym ni bryd hynny fod hefyd yn eich ffeil, Peter. Ond pam bod haelioni yn Nhywyn yn cael ei gydnabod tra bod haelioni mwy yn yr ardal hon yn cael ei anwybyddu? Ydych chi'n dal i ddeud na yw'r Bwrdd Iechyd yn dangos ffafriaeth rhwng un ardal ac un arall?

A thra ar y pwynt hwnnw, ga' i ailadrodd cais a wnes yn fy llythyr diwethaf atoch, sef hwn –

> *'Os na ddangoswyd ffafriaeth i un ardal mwy nag arall, ga i ofyn sut yr aeth BIPBC ati i bwyso a mesur rhwng gwahanol ardaloedd yng ngogledd orllewin Cymru.* ***Roedd rheidrwydd ar y Bwrdd i gynhyrchu dogfen yn cloriannu'r sefyllfa, nid yn unig yma yn Stiniog ond hefyd yn nalgylchoedd Tywyn, Dolgellau, Alltwen, Pwllheli a Chaernarfon. Carwn wneud cais am gopi o'r ddogfen honno, Peter, er mwyn gweld beth yn union oedd y dadleuon dros roi gwell gwasanaeth i drefi llai poblog ond mwy Seisnig y glannau.'***

Cyn gorffen, rwyf am ddyfynnu paragraff olaf fy erthygl i'n papur bro yn Chwefror eleni, bum mis a mwy yn ôl -

> *Nid yw'n gyfrinach i neb bellach bod Dr Tom Parry a Dr Dawn Jones o dan bwysau gwaith aruthrol ers yr ad-drefnu. Beth pe bai un ohonynt – neu'r ddau hyd yn oed! – yn penderfynu codi pac ac ymuno â phractis arall er mwyn cael ysgafnach byd? (Wedi'r cyfan, mae'r Cynghorydd ei hun wedi awgrymu y byddai unrhyw bractis arall yng ngogledd-orllewin Cymru yn eu croesawu nhw â breichiau agored.) Be wedyn i ni yma? Ydi aelodau'r Bwrdd Prosiect wedi ystyried y posibilrwydd hwnnw, os gwn i? Y posibilrwydd o gael ysbyty nid yn unig heb wlâu ond heb feddygon yn ogystal? Ac ydi'r Cyngor Tref wedi ystyried posibilrwydd arall, sef yr embaras i bobol yr ardal o weld adeilad £4m yn troi'n eliffant gwyn o flaen ein llygaid?*

A gaf awgrymu'n garedig bod goblygiadau *'scenario'* o'r fath yn rhywbeth i'r Bwrdd Iechyd, hefyd, gnoi cil o ddifrif arno, a hynny'n fuan.

Yn ddiffuant iawn,

Geraint.

***25.09.2014***

Annwyl Peter,

Fyddwch chi ddim yn croesawu llythyr arall oddi wrthyf, rwy'n gwybod. Rwy'n sylweddoli cymaint o bwysau gwaith sydd arnoch y dyddiau hyn ond rwy'n gobeithio eich bod chwithau hefyd yn sylweddoli'r pryderon cynyddol sydd yn yr ardal hon parthed dirywiad amlwg y gwasanaeth iechyd yn y cylch. Rwy'n gwybod eich bod wedi ceisio cyfiawnhau camgymeriadau BIPBC yn y gorffennol ond mae'r sefyllfa wedi bod yn gwaethygu'n gynyddol ers penderfyniad y Bwrdd Iechyd i gau ein hysbyty coffa yn Ionawr 2012 a'r brys anarferol i wneud hynny wedyn cyn diwedd Mawrth trwy symud y gwlâu, tynnu holl offer y gegin allan a.y.y.b. Mae'n gwbwl amlwg i unrhyw un ohonom mai holl bwrpas y brys oedd i roi taw buan ar y protestiadau lleol.

Rydym yn sylweddoli nad oeddech chi yn eich swydd pan gymerwyd y camau byrbwyll rheini a bod nifer o swyddogion wedi gorfod gadael oherwydd y trafferthion cynyddol a ddaeth i fod, ond mae ambell swyddog yn dal efo chi o hyd, a dichon mai nhw ac nid chi ddylai ateb ambell gwestiwn. Hwn, er enghraifft – Onid oedd RHEIDRWYDD (cyfreithiol, o bosib?) ar y Bwrdd Iechyd i sefydlu

gwasanaethau hanfodol megis 'Gofal yn y Cartref' **CYN** cau'r Ysbyty? Ond oherwydd y rhuthr gwyllt, ddigwyddodd hynny ddim ac, o ganlyniad, doedd dim gobaith i'r drefn lwyddo, ac erbyn heddiw mae morál y nyrsys a'r gofalwyr - heb sôn am un y meddygon! - wedi diflannu'n llwyr. Roedd y ddadl yn eich llythyr dyddiedig Mai 29 yn gamarweiniol a deud y lleiaf, lle roeddech yn cyfeirio at ***'Gofal Lefel Uwch yn y Cartref ym Meirionnydd'***. Ond cynllun ar gyfer y sir gyfan oedd hwnnw, wedi'i fwriadu ar gyfer ardaloedd megis Dolgellau a Bermo a Thywyn lawn cymaint ag ardal Stiniog.

Yn un o'm llythyrau diwethaf atoch roeddwn yn dyfynnu rhywbeth a gafodd ei ddarogan gennym **saith mis a mwy yn ôl** yn ein papur lleol, sef y peryg o golli'r ddau feddyg sy'n weddill yma. Erbyn heddiw, gwyddom y bydd yr ofn hwnnw'n cael ei wireddu o fewn yr ychydig fisoedd nesaf! Be wedyn? Does dim gwadu mai blerwch BIPBC sydd wedi creu'r sefyllfa yma, a hynny er gwaethaf pob dadl a phrotest gan bobl yr ardal. A rŵan mae'r Bwrdd yn ceisio cuddio tu ôl i'r esgus bod ardaloedd eraill ar draws gogledd Cymru hefyd yn cael trafferth denu meddygon!

Gwyddom hefyd fod nifer o'n nyrsys ni yn y gymuned yn bwriadu ymddeol gynted â phosib oherwydd eu bod wedi cael eu syrffedu a'u dadrithio gan eu hamodau gwaith. Ystyriwch eto y cynlluniau gwych (ar bapur, o leia!) oedd yn cael eu haddo inni yn ystod y cyfnod 'ymgynghorol' - *'Meddyliwch sut gallai gofal fod yn y 21 ganrif i chi, eich teulu ac eich plant.'* Eich rhagflaenydd a'r cyn brif weithredwr oedd piau'r geiriau yna (gw. Cyflwyniad i *'Mae Gofal Iechyd yng Ngogledd Cymru yn Newid'*). Roeddem yn wamal o'r addewid ar y pryd ond ddaru ni na neb arall ddim dychmygu y byddai'r Bwrdd Iechyd yn caniatáu i bethau ddirywio mor gyflym â hyn. *'Os bydd ein cynlluniau'n llwyddo bydd Blaenau Ffestiniog yn dangos y ffordd ymlaen i weddill Cymru.'* Geiriau Dr Whitehead, llynedd! *'Os'*, sylwch, nid *'Pan'*! Rhaid bod amheuon yn ei feddwl yntau hefyd, felly. Ond gwthio'r cynlluniau ymlaen wnaeth o, serch hynny. Agwedd gwbwl anghyfrifol ddywedwn i.

Yn fy llythyr diwethaf atoch, bum mis yn ôl bellach, fe ofynnais gwestiynau ynglŷn â'r priodoldeb o benodi rhywun fel fo yn gadeirydd y Bwrdd Prosiect. Fe ofynnais yr un peth i'ch rhagflaenydd ac i'r cyn-Brif Weithredwr ac mae'r ffaith fy mod yn dal i ddisgwyl atebion yn awgrymu bod gan y Bwrdd rywbeth i'w guddio. Ga' i awgrymu, ac nid heb reswm, mai Mr Geoff Lang ddylai ateb y cwestiynau hyn?

Yn yr un llythyr, fe wnes y cais canlynol hefyd - *'Roedd rheidrwydd ar y Bwrdd i gynhyrchu dogfen yn cloriannu'r sefyllfa nid yn unig yma yn Stiniog ond hefyd yn nalgylchoedd Tywyn, Dolgellau, Alltwen, Pwllheli a Chaernarfon. Carwn wneud cais am gopi o'r ddogfen honno, Peter, er mwyn gweld beth yn union oedd y dadleuon dros roi gwell gwasanaeth i drefi llai poblog ond mwy Seisnig y glannau.'*. Ond ddaeth y wybodaeth honno, chwaith, ddim i law.

Bythefnos yn ôl manteisiais ar gyfle i ymweld ag Ysbyty Coffa Tywyn, yn rhannol i dynnu llun y paneli coffa sydd yno, gan fod taid imi ymysg y rhai o'r ardal honno a laddwyd yn y Rhyfel Mawr. Coeliwch fi, roeddwn yn genfigennus o'r gwaith adeiladu oedd yn mynd ymlaen yno ac yn arbennig o weld y wên hapus ar wyneb un o'r nyrsys wrth iddi egluro imi'r datblygiadau cyffrous oedd ar y gweill. Ydach chi'n rhyfeddu, Peter, bod pobol ardal Stiniog yn dal i ddisgwyl i'r Bwrdd Iechyd egluro pam y ffafriaeth amlwg tuag at un ardal, a hynny ar draul ardal arall o fewn yr un sir?

O'u hail ofyn, siawns y caiff fy nghwestiynau sylw rhywun neu'i gilydd yn y Bwrdd Iechyd .

Yn ddiffuant,

Geraint (ar ran Pwyllgor Amddiffyn Ysbyty Coffa Ffestiniog

DIM ATEB I'R UCHOD

12.11.2014

Annwyl Peter,

Rwy'n siomedig iawn nad ydych wedi ymateb i fy ymholiadau ynglŷn â phriodoldeb penodi Dr Bill Whitehead yn gadeirydd y Bwrdd Prosiect yma yn Stiniog (gw. fy llythyrau e-bost atoch dyddiedig 25 Mehefin a 25 Medi eleni). Rwy'n derbyn nad oedd â wneloch chi ddim byd â'r penderfyniad hwnnw, wrth gwrs, ond mae eich tawelwch ar y mater yn siarad cyfrolau.

Rwyf yr un mor siomedig na ddaeth ymateb chwaith i'r cais canlynol gennyf (hwnnw hefyd wedi ei gyflwyno ddwywaith, yn yr un llythyrau e-bost ag a grybwyllir uchod) – ***'Roedd rheidrwydd ar y Bwrdd i gynhyrchu dogfen yn cloriannu'r sefyllfa nid yn unig yma yn Stiniog ond hefyd yn nalgylchoedd Tywyn, Dolgellau, Alltwen, Pwllheli a Chaernarfon. Carwn wneud cais am gopi o'r ddogfen honno, Peter, er mwyn gweld beth yn union oedd y dadleuon dros roi gwell gwasanaeth i drefi llai poblog ond mwy Seisnig y glannau.'*** Pam tybed bod BIPBC mor gyndyn o ddatgelu cynnwys y ddogfen hon? Ai oherwydd bod ffafriaeth amlwg i'w gweld ynddi? Rwy'n fawr obeithio na fydd raid cyflwyno cais o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth am gael ei gweld.

Ac yn olaf, caniatewch imi gyfeirio at lythyr a dderbyniodd gŵr o'r Blaenau oddi wrth Mr Geoff Lang ychydig ddyddiau'n ôl. Mae rhai o'r pethau a gaiff eu dweud yn y llythyr hwnnw yn anhygoel a dweud y lleiaf! Ystyriwch y brawddegau a danlinellwyd gennyf yn ei atebiad:-

***'Hoffwn eich sicrhau nad oes argyfwng iechyd ym Mlaenau Ffestiniog**. Bwriad y llythyr a dderbynioch yn eich diweddaru ar gynlluniau'r Bwrdd Iechyd oedd tawelu eich meddwl na fydd y practis yn cau, a bod y Bwrdd Iechyd yn gweithio i **sicrhau bod Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol yn parhau i gael eu darparu mewn modd diogel a chynaliadwy i drigolion yr ardal**. Mae Meddygon y Blaenau wedi dweud y byddant yn rhoi'r gorau i'w contract ddiwedd mis Ionawr ond **nid yw eu hymddiswyddiad hwy na cholli'r ddau Feddyg Teulu blaenorol oedd yn gweithio yn y Practis yn gysylltiedig â chau'r gwelyau yn yr Ysbyty Coffa**. Mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithio'n galed i ddatblygu'r cynlluniau ar gyfer y Ganolfan Gofal Cychwynnol newydd a fydd yn **cynnig nifer o wasanaethau ychwanegol i drigolion yr ardal yn eu cymuned eu hunain, ac yr wyf yn siŵr y byddwch yn eu croesawu.**'*

(i) Dim ***argyfwng iechyd***. Bobol bach! Os nad yw Mr Lang, o bawb, sy'n dal swydd mor allweddol o fewn BIPBC *(Executive Director of Primary, Community and Mental Health)* yn sylweddoli cyflwr pethau yn yr ardal yma, yna Duw â'n gwaredo ni!

Pryd, os gwn i, fuodd o yn yr ardal yma ddiwethaf? Ddim ers y sesiynau ymgynghorol ym Medi 2012, o bosib? Ers hynny, wrth gwrs, fe gauwyd yr Ysbyty, fe gollwyd gwasanaeth mân anafiadau, fe ddiflannodd ein huned belydr-X, fe gauwyd meddygfa Llan Ffestiniog a chwtogwyd yn ddifrifol ar oriau meddygfa Dolwyddelan, caed clywed am fwriad ein dau feddyg i adael y Practis a bwriad cymaint â phedair allan o bump o'n nyrsys cymunedol i ymddeol neu ymddiswyddo. Ychwanegwch at hynny y prinder difrifol o ofalwyr yn y gymuned ... a.y.y.b. Ac mae Mr Lang, y gŵr sy'n gyfrifol am y gwasanaethau hyn, yn gallu deud nad oes argyfwng? O'i weld yn traethu gyda'r fath awdurdod, rhaid gofyn neu ddychmygu o ble yn union y mae'n derbyn ei wybodaeth, os nad yn uniongyrchol, efallai, oddi wrth gadeirydd y Bwrdd Prosiect!

Diddorol fyddai cael clywed ei ymateb i ambell sylw yn adroddiad diweddar yr Athro Marcus Longley (a derbyn, wrth gwrs, ei fod wedi ei ddarllen).

(ii) Gwasanaethau Meddygol yn cael ***eu darparu mewn modd diogel a chynaliadwy i drigolion yr ardal.*** Gyda phob parch, dydi'r dyn ddim yn byw ar yr un blaned â ni, yma! Er enghraifft, gafodd o glywed, tybed, am y ddamwain yn ddiweddar i wraig fethiedig **pan y bu'n rhaid galw'r gwasanaeth tân i lifio darn o 'hoist' oedd wedi mynd i mewn i gnawd ei hysgwydd hi**?

(iii) Mae hefyd yn gwadu nad oedd a wnelo cau'r Ysbyty Coffa ddim oll â cholli meddygon o'r ardal. Oni chafodd y peryg hwnnw ei ddatgelu iddo fo'n bersonol, yn ogystal ag i eraill o gynrychiolwyr y Bwrdd Iechyd, mor bell â dwy flynedd a chwarter yn ôl, yn ystod un o'r sesiynau ymgynghorol (honedig)? Ac fe wyddoch chwithau, Peter, fod y Pwyllgor Amddiffyn hefyd wedi darogan, mor bell yn ôl â Chwefror eleni yn ein papur bro, y bydden ni'n colli'n meddygon o ganlyniad i gau'r Ysbyty Coffa. (gw. trydydd paragraff fy llythyr diwethaf atoch *25/09/2014*). Os oedd y peth mor boenus o amlwg i ni yma, yna oni ddylai Mr Lang, o bawb, yn rhinwedd ei swydd, fod wedi sylweddoli'r perygl? Sôn am gladdu pen mewn tywod!

Caed hefyd addewid ar goedd gan Mr Lang, yn ystod y sesiynau ymgynghorol hynny ddwy flynedd yn ôl, y byddai holl gŵynion a phryderon y rhai oedd yn bresennol yn cael eu cofnodi ac yna eu hystyried gan aelodau'r Bwrdd. Ond ni chlywyd dim mwy am y peth, er imi geisio atebion yn ddiweddarach. Ac ni welwyd newid yr un iot ar gynlluniau'r Bwrdd! Rhaid casglu, felly, mai geiriau gwag – celwydd hyd yn oed! – oedd yr addewid a gafwyd ganddo y diwrnod hwnnw hefyd.

(iv) ***'... cynnig nifer o wasanaethau ychwanegol i drigolion yr ardal yn eu cymuned ... ac yr wyf yn siŵr y byddwch yn eu croesawu.'.*** Beth am i Mr Lang ddod yma i ddangos inni ymhle'n union y mae'r gwasanaethau hynny yn cuddio? A thra ei fod o yma, beth am iddo hefyd geisio egluro i ambell deulu yn yr ardal mai ond teg yw disgwyl iddyn nhw deithio i lawr i Ysbyty Alltwen bob dydd, neu hyd yn oed cyn belled â Bryn Beryl, os ydynt am fod o gysur i'w hanwyliaid sy'n gleifion yn y llefydd hynny.

Wythnos yn ôl roedd cymaint ag un-ar-ddeg o gleifion, o dre'r Blaenau yn unig, yn llenwi gwlâu yn Ysbyty Gwynedd. Bu rhai ohonynt, oedd ar wella, yn aros dyddiau lawer nes bod lle ar eu cyfer yn Alltwen, neu Bryn Beryl hyd yn oed, ac roedd peth felly'n creu problemau yn YG ei hun, wrth gwrs. O'r hyn a glywaf, mae'r un math o sefyllfa yn bodoli yno heddiw hefyd.

Pe bai Ysbyty Coffa Ffestiniog yn dal ar agor, yna fyddai'r broblem honno ddim wedi codi'i phen, a fyddai dim rhaid i deuluoedd deithio 70 milltir ôl a blaen bob dydd i ymweld â'u hanwyliaid. Ond nid yw'n ymddangos bod gan Mr Lang, na BIPBC o ran hynny, lawer o gydymdeimlad efo'r ddadl honno chwaith.

Rydych wedi gwadu fwy nag unwaith bod BIPBC yn dangos ffafriaeth i rai ardaloedd ar draul yr ardal hon. Fe'ch cyfeiriaf felly at atodiad *Appendix 11* allan o adroddiad yr Athro Marcus Longley lle gwelir y rhestrau, a gyflwynwyd iddo gan BIPBC ei hun, o'r gwasanaethau sydd ar gael heddiw ym Meirionnydd. Yn reit siŵr, does gan bobol Dolgellau na Thywyn le i gwyno! Ond fe benderfynodd y Bwrdd gau Ysbyty Coffa Ffestiniog yn ôl ym mis Ionawr ac erbyn heddiw, ddeng mis yn ddiweddarach, y cwbwl a gynigir inni yw hyn – *'The precise pattern of services in this hospital is currently being reviewed'.* Gyda phob parch, Peter, mae'r geiriau yn gneud ffârs llwyr o'r hyn a ddywed Mr Lang yn ei lythyr, heb sôn am holl addewidion y Bwrdd yn y gorffennol.

Yfory, bydd Cyngor Tref Ffestiniog yn ystyried cynnal refferendwm, tebyg i un Fflint, er mwyn mesur dyheadau pobol Blaenau a Llan Ffestiniog ynglŷn â dyfodol adeilad yr Ysbyty Coffa. Mae cyngor cymunedol Dolwyddelan eisoes wedi penderfynu o blaid cynnal pleidlais o'r fath, a does gen i fawr o amheuaeth nad dyna fydd y penderfyniad yma, yn Stiniog, hefyd. Dichon y byddwch yn dadlau eto, fel ag a wnaethoch gyda'n holiadur a'n deiseb yn ddiweddar, fod pobol yn pleidleisio mewn anwybodaeth. Os felly, yna oni ddylai'r Bwrdd drefnu cyfarfod cyhoeddus mewn da bryd, yma yn y Blaenau, er mwyn addysgu'r cyhoedd?

Yn gywir, a'r un mor bryderus ag erioed,

Geraint.

.................................

*Pwyllgor Amddiffyn Ysbyty Coffa Ffestiniog*

Annwyl Peter,

Derbyniais eich ateb i'm llythyr dyddiedig *12.11.2014* ac rwy'n cydnabod y ffaith eich bod wedi mynd i gryn drafferth i'w lunio ac yn diolch ichi am hynny. Serch hynny, nid yw'ch dadleuon yn cynnig ateb boddhaol o gwbwl i'n pryderon ni ond mi fyddwch wedi amau hynny eisoes, rwy'n tybio.

Rwy'n sylwi eich bod eto'n osgoi ateb y cwestiwn ynglŷn â Dr Whitehead – ***Pa mor foesegol* oedd ei osod yn gadeirydd ar y Bwrdd Prosiect a pha mor foesegol oedd iddo yntau dderbyn?** – Fe ddywedwch mai gwneud ei waith yr oedd ***'yn unol â gofynion ei rôl fel Arweinydd Ardal Leol a Chyfarwyddwr Clinigol'*** ond nid yw hynny'n newid y ffaith ei fod wedi cael ei osod mewn sefyllfa fanteisiol iawn o safbwynt ei bractis ei hun, a'i ysbyty ei hun yn Nolgellau. A dyna pam rwy'n holi ynglŷn â pha mor foesegol yw peth felly. Yn ystod un o'r sesiynau ymgynghorol ym Medi 2012, efo Mr Lang a hanner dwsin o 'arbenigwyr' eraill BIPBC yn wynebu'r gynulleidfa, fe gododd Dr Tom Parry

ar ei draed i fynegi pryderon ynglŷn â dyfodol y Practis, pe bai cynlluniau'r Bwrdd yn cael eu mabwysiadu a'r Ysbyty Coffa yn cau. Bu'n siarad gydag angerdd am rai munudau ac yn amlinellu'r union fath o sefyllfa sydd wedi codi yma erbyn heddiw. A be oedd ymateb Mr Lang ar y pryd? *'I think I'll ask Dr Whitehead, who's sitting next to you, to answer that!'* Hynny yw, gofyn i feddyg teulu arall yn y gynulleidfa, oedd yn gwbwl ddieithr i bawb o'i gwmpas ar y pryd, i ateb ar ran y Bwrdd Iechyd! Roedd y peth yn gywilyddus, ac yn sarhâd nid yn unig ar feddyg profiadol fel Tom Parry ond ar y Practis yn ogystal, a bu'n rhaid imi gael dweud hynny ar goedd cyn diwedd y cyfarfod. A be oedd ymateb Mr Lang? Anwybyddu'r sylw gyda gwên wan, fel pe bai barn neb arall yn cyfrif dim! Nodweddiadol, mae'n ddrwg gen i ddweud Peter, o agwedd drahaus BIPBC o'r cychwyn!

Yn ddiweddar cafodd dirprwyaeth ohonom wahoddiad i ymddangos gerbron Cyngor Iechyd Cymunedol Gwynedd (CIC). Cynhaliwyd y drafodaeth yn gyfangwbwl trwy gyfrwng y Gymraeg a doedd dim amheuaeth ynglŷn â chydymdeimlad a chefnogaeth yr aelodau oedd yno i'n hachos. Mae agwedd aelodau'r Bwrdd Iechyd, ar y llaw arall, yn llawer mwy Seisnig a mwy gwrthnysig i'n pryderon ni fel Cymry Cymraeg ond does dim sy'n newydd mewn peth felly chwaith.

Fe ddywedwch hyn yn eich llythyr diweddaraf – *'Yn rhan o'r ymgynghoriad, cafodd y pryderon a godwch ynghylch cau gwasanaethau cyn bo dewisiadau eraill ar gael eu trafod yn fanwl yn ystod cyfarfodydd cyhoeddus. Bryd hynny, gwnaethom ddatgan yn eglur nad oedd gennym refeniw ychwanegol ar gael i sefydlu gwasanaethau newydd ochr yn ochr â'r hen wasanaethau ac felly byddai angen cyfnod o drawsnewid tra bod cyfleusterau i gleifion mewnol yn cau cyn ail-hyfforddi a recriwtio staff i weithredu gwasanaethau cymunedol newydd.'* Gan nad oeddech chi yn eich swydd ar y pryd, yna efallai y carech chi ofyn i Mr Geoff Lang egluro pryd yn union y dywedwyd hynny ar goedd wrth bobol yr ardal hon? A gan bwy? Yn bwysicach fyth, gofynnwch iddo egluro pryd ac ymhle y dywedwyd, eto ar goedd, y byddai'n rhaid inni aros blynyddoedd cyn i'r *gwasanaethau newydd* ein cyrraedd ni o gwbwl. Mae dwy flynedd a chwarter wedi mynd heibio eisoes ers y cyfarfodydd ymgynghorol hynny ac yn y cyfamser mae gofal iechyd yn yr ardal hon wedi cymeryd cam anferth yn ôl! Rwy'n ddigon hen, Peter, i gofio beth oedd y sefyllfa yma yn 1945, ar ddiwedd y rhyfel byd, a gallaf ddweud yn gwbwl onest fod pethau'n fwy anobeithiol heddiw nag oedden nhw bryd hynny hyd yn oed! A phwy ond BIPBC sydd i'w feio am hynny? Ond nid yw Mr Lang i'w weld yn poeni y naill ffordd na'r llall, wrth gwrs! A deud y gwir, dwi'n amau os ydi o wedi bod ar gyfyl Stiniog ers y diwrnod tyngedfennol hwnnw nac wedi colli eiliad o gwsg chwaith ynglŷn â'r llanast a grëwyd ganddo ef a'i debyg. Ac eto i gyd rydych yn dal i ddadlau, Peter, nad yw swyddogion y Bwrdd yn dangos **anffafriaeth** ***('discrimination')*** tuag at yr ardal hon?

Yn eich ail baragraff, rydych yn cyfeirio at y trefniant i ddirprwyaeth ohonom gyfarfod *'â Chadeirydd y Bwrdd, y Prif Weithredwr a Chyfarwyddwr Gofal Cychwynnol'.* Do, fe gaed cyfarfod ac, fel y dywedais wrthych eisoes, fe wnaed sioe ganddynt o wrando ar ein cwynion a'n pryderon ac o godi nodiadau lu. Ond dyna'i diwedd hi! Chlywsom ni ddim mwy wedyn am y peth, a gan na newidiwyd un dim ar gynlluniau'r Bwrdd yn sgîl y cyfarfod, yna rhaid casglu bod ein pryderon ni wedi cael eu sgubo unwaith eto o dan garped trwchus BIPBC. Mewn geiriau eraill, doedd y cyfarfod yn ddim byd mwy na thwyll, ac agwedd swyddogion y Bwrdd yn warth, ac rwy'n synnu eich bod yn defnyddio'r cyfarfod hwnnw fel enghraifft o barodrwydd y Bwrdd i wrando!

Fe ddywedwch hefyd yn eich llythyr ***'fod y Bwrdd yn llwyr werthfawrogi nerth y teimlad yng nghymuned Blaenau ynghylch cau gwelyau yn yr ysbyty'*?** Oni chawsom glywed eich rhagflaenydd, yn ogystal â'r Gweinidog Iechyd a'i ragflaenydd yntau, yn dweud yr un peth, hyd syrffed? Fe ddaeth yr enghraifft ddiweddaraf oddi wrth Mr Drakeford ei hun, wythnos union yn ôl! – ***'I would like to reassure the Committee*** [h.y. Pwyllgor Amddiffyn yr Ysbyty Coffa**]** ***that I do understand how strongly people feel about their local health services, and I note the committee's concerns expressed in your letter.'*** Gyda phob parch, Peter, mae gan yr ardal yma angen mwy na chydymdeimlad ffuantus.

Rwy'n sylweddoli bod gennych ddigon o broblemau eraill ar eich plât. Dyna pam **na** fyddaf yn disgwyl ichi ymateb i'r llythyr hwn gan mai dal i gefnogi penderfyniadau'r Bwrdd wnewch chi er gwaethaf pob dadl. *'Mae eich llais chi'n bwysig!'* Dyna ddywedodd eich rhagflaenydd yn ei gyflwyniad i'r llyfryn *'Mae Gofal Iechyd yng Ngogledd Cymru yn Newid'*. Do, bu gwrando ar lais ambell ardal, megis Tywyn er enghraifft, ond fe gafodd llais pobol yr ardal yma ei anwybyddu'n llwyr ac os yw Mr Lang a'i debyg am wadu'r cyhuddiad, yna fe'u heriaf i brofi'n wahanol.

*Meddyliwch sut gallai gofal iechyd fod yn y 21 ganrif i chi, eich teulu, eich rhieni ac eich plant'* meddai'ch rhagflaenydd! O edrych yn ôl heddiw, roedd y geiriau yn fwy o fygythiad nag o addewid ac, i bobol y cylch yma, mae'r bygythiad hwnnw eisoes wedi troi'n rhywbeth real iawn!

Er gwybodaeth, Peter, cafodd Pwyllgor Amddiffyn Ysbyty Coffa Ffestiniog ei ffurfio ddeng mlynedd union yn ôl ac, fel y gwelwch o dudalen flaen ein papur bro yn yr atodiad, roedd yr amheuon wedi dechrau ymddangos bryd hynny, ac mae ein brwydyr wedi bod yn un gyson ers yr amser hwnnw. (Fyddech chi ddim yn diolch imi pe bawn i'n anfon atoch bob erthygl a gyhoeddwyd a phob llythyr a anfonwyd gennym ers y dyddiau cynnar hynny!) Cynhaliwyd sawl rali, cyflwynwyd mwy nag un deiseb ac anfonwyd mwy nag un dirprwyaeth i drafod efo gwahanol swyddogion y Bwrdd - Bwrdd Iechyd Lleol Gwynedd i ddechrau, ac yna BIPBC – a chael yr un ymateb bob tro *'fod y Bwrdd yn llwyr*

*werthfawrogi nerth y teimlad yng nghymuned Blaenau ynghylch cau gwelyau yn yr ysbyty'* (neu eiriau cyffelyb) ac yna'r gair mawr ***'ond*** ...'! Hynny yw, ffordd neis, dro ar ôl tro, o sgubo'n pryderon ni o dan y carped fel pe bai pobol yr ardal yma ddim yn haeddu'r un ystyriaeth â thrigolion Porthmadog a Thywyn a Phwllheli a threfi eraill y glannau. Ac erbyn heddiw dwi'n deall bod y Prif Weithredwr wedi penderfynu, yn ôl ryw fformiwla hwylus ganddo ef, mai 2.5 meddyg sydd eu hangen arnom bellach! Bobol bach! Os yw dau feddyg profiadol, oedd yn adnabod yr ardal a'i phobol, wedi methu ymgodymu efo'r pwysau gwaith (Roedd yn 6.30 – 8.00 o'r gloch arnynt yn gallu troi am adre bob nos bron!), yna pa mor hir, meddech chi, fydd y ddau newydd yn para? A phan fyddan nhw yn codi pac, be wedyn? Yr un broblem yn codi'i phen unwaith eto? A'r un hen esgusion eto fyth? Ac a fydd Mr Lang yn dal i honni *'nad oes argyfwng iechyd ym Mlaenau Ffestiniog'* ? Ydi'r Prif Weithredwr – gŵr sy'n hawlio mwy o gyflog na phrif weinidog Prydain Fawr! - mor fyr ei weledigaeth fel nad yw'n sylweddoli'r tebygolrwydd hwnnw?

Mae ambell beth arall yn eich llythyr y gallwn ei herio ond digon yw digon mae'n debyg a dydw i ddim am hawlio mwy o'ch amser. Cyn gorffen, fodd bynnag, carwn fanteisio ar y cyfle i ddymuno gwyliau llawen a blwyddyn newydd lawn iechyd i chi a'r teulu.

Yn ddiffuant iawn,

Geraint

***10.04.2015***

Annwyl Peter,

Rwy'n gwybod bod cyfarfod wedi ei drefnu rhyngom ni ar Fai 6ed ac y bydd y Prif Weithredwr a Mr Geoff Lang hefyd yn bresennol yn fan'no ond mae mater difrifol arall sydd raid imi ei godi cyn hynny.

O fewn y misoedd diwethaf, fe wyddoch fy mod wedi ceisio atebion gennych chi, a gan y Gweinidog Iechyd hefyd, i'r ddau gwestiwn canlynol –

***(i)*** ***Pa mor foesegol oedd penodi Dr Bill Whitehead, aelod o bractis meddygol arall ym Meirionnydd, yn gadeirydd ar y Bwrdd Prosiect a rhoi arno'r cyfrifoldeb o gwtogi £¾m a mwy (gweler ffigyrau'r Bwrdd Iechyd ei hun) oddi ar gyllid y gwasanaeth iechyd yn yr ardal hon?***

***(ii)*** ***A pha mor foesegol oedd iddo yntau, fel gŵr proffesiynol, dderbyn y cyfrifoldeb hwnnw?***

Fel Mr Drakeford, dewis peidio ateb wnaethoch chitha a ’dydi hynny ond yn cadarnhau ein holl amheuon am fwriadau cudd y Bwrdd Iechyd ar gyfer yr ardal hon, heb sôn am rai’r Gweinidog ei hun. (Mae’r ohebiaeth, a fu rhwng y ddau ohonom ni gennych chi ar ffeil ond, er gwybodaeth, dwi hefyd yn atodi’r ohebiaeth a fu rhyngof a Mr Drakeford, er mwyn ichi weld bod ei atebion yntau - neu’n hytrach ei ddiffyg atebion – yn awgrymu bod ganddo ef hefyd rywbeth i’w gelu. Enghraifft arall, o bosib, o fel mae Biwrocratiaeth yn gweithio?

Ond er i chi eu hanwybyddu nhw, mae’r cwestiynau yn dal yno, Peter,

Yr eiddoch, mor bryderus ac mor ddiffuant ag erioed.

Geraint.

DIM ATEB

...............

***22.03.2016***

Annwyl Peter,

Gair o ddiolch ichi i ddechrau am ddod i Blaenau i’n cyfarfod ni wythnos yn ôl ond gair o siom yn fwy na dim, gwaetha’r modd. Siom oherwydd bod agwedd y Bwrdd Iechyd mor gwbl ddigyfaddawd ac annheg. Rhyngoch, roeddech wedi dod yno gyda gwrth-ddadl barod i bob un o’n cwynion a’n pryderon ni, gan wadu neu anwybyddu pob enghraifft oedd yn profi bod y gwasanaeth a gynigir yn yr ardal hon yn un israddol. Mewn gair, doeddech chi ddim yn barod i ildio i **ddim un** o’n dadleuon ni. Ond ddylen ni ddim synnu oherwydd dyna fu’n wir ers cychwyn ein trafodaethau gyda’r Bwrdd, flynyddoedd yn ôl bellach.

Rydym yn hen gyfarwydd, wrth gwrs, ag agwedd nawddoglyd Geoff Lang tuag at ardal Gymraeg-ei-hiaith fel hon. Mae gen i ofn mai llathen o’r un brethyn â’r cyn Brif Weithredwr David Purt ydi o ac nid ydym yn mynd i anghofio’n fuan iawn y ffârs o Ymgynghoriad ffuantus a gynhaliwyd ganddo yma, yn ôl ym Medi 2012. Ond roeddem wedi disgwyl i’r gweddill ohonoch ddod efo meddyliau mwy agored.

Sut bynnag, o edrych yn ôl ar y drafodaeth, mae’n amlwg nad yw’r Bwrdd yn barod i newid un dim ar ei gynlluniau cyn belled ag y mae’r ardal hon yn y cwestiwn. Erbyn diwedd y cyfarfod fe ddaeth yn amlwg i bawb mai eich unig reswm dros ddod aton ni o gwbl oedd i geisio’n perswadio ni i

gydweithredu efo'ch cynlluniau digyfnewid chi fel Bwrdd. Ond wnawn ni mo hynny, Peter, ddim tra bod pobol yr ardal hon am inni barhau i frwydro ar eu rhan dros adfer y gwasanaethau pwysig sydd wedi cael eu dwyn oddi arnyn nhw. A ddim chwaith tra bod y BIPBC a'r Gweinidog Iechyd yn dangos y fath ffafriaeth amlwg tuag at ardaloedd Seisnig a mwy llewyrchus y glannau.

Mae BIPBC yn gyson wedi gwadu ffafriaeth o'r fath ond heb allu cynnig unrhyw wrth-ddadl onest. Yn wreiddiol, £3.9m-yr-un a glustnodwyd ar gyfer ysbytai Tywyn a Blaenau, ond mae'r gwariant yn Nhywyn eisoes wedi codi i £5m+ ! O ble mae'r arian ychwanegol yn dod tybed, os nad o Gaerdydd? A sut mae egluro bod amcan-gost gwreiddiol y bwrdd iechyd mor bell allan ohoni?

Mae'n ffaith na ellir ei gwadu, bellach, Peter, mai bwriad y Betsi o'r cychwyn oedd arbed arian yn ein rhan ni o'r wlad ac rydym wedi profi hynny ichi fwy nag unwaith trwy ddyfynnu o bapurau'r Bwrdd Iechyd ei hun.

Rhwng popeth, hawdd iawn erbyn heddiw yw profi'r cyhuddiad o ***'discrimination'*** yn ein herbyn.

## LLYTHYRAU CŴYN

Doedd y cyfarfod ddim yn caniatáu amser i drafodaeth fanwl ar unrhyw bwnc penodol, rhaid derbyn hynny, ond roedd pob dadl a chŵyn a gyflwynid gennym yn cael ei gwthio o'r neilltu gennych. Er enghraifft, pan soniwyd am ddiffyg ymateb y Bwrdd i lythyrau cŵyn a gyflwynwyd i'r CIC mor bell yn ôl a mis Mehefin diwethaf, roedd Ffion Johnstone yn barod iawn i achub ei cham trwy ddweud nad oedd wedi derbyn y llythyrau hynny tan fis yn ôl. Dichon bod hynny'n wir ond mae wedi cael amser ers hynny i ymateb i'r rhan fwyaf ohonynt, siawns? Ond beth am yr holl lythyrau eraill sydd wedi cael eu hanfon yn uniongyrchol i'r Bwrdd ei hun dros y blynyddoedd diwethaf? Pam nad yw rheini byth yn cael eu cydnabod, heb sôn am eu hateb?

Mae'r ddau atodiad yn enghreifftiau o'r hyn y cyfeiriaf ato. Fe'u hanfonwyd i'r Bwrdd fisoedd yn ôl ond dal i aros am ateb o unrhyw fath y mae'r llythyrwr, sydd ei hun yn bensiynwr! Dim ond ddoe ddiwethaf roedd yn egluro imi fel mae ei fam, sy'n 94 oed ac yn preswylio yng nghartref gofal yr henoed yn Llan Ffestiniog, wedi cael ei chludo i Ysbyty Gwynedd gymaint â **NAW** gwaith i gyd yn ystod y pedwar mis diwethaf, a'i hanfon yn ôl wedyn, yn amlach na pheidio, o fewn ychydig oriau, a weithiau hyd yn oed yn ystod oriau mân y bore. Dychmygwch! Hen wraig mor oedrannus ac mor fregus â hi yn gorfod treulio oriau lawer yn teithio'n ôl a blaen i Fangor ym mhob tywydd, ac aros mewn ambiwlans yn fan'no am sylw. A'r rheswm pam bod hynny'n digwydd, mae'n debyg, yw bod meddygon y Practis yn Blaenau - Practis sydd bellach yng ngofal y Betsi ei hun, wrth gwrs! – naill ai'n

gwrthod neu yn methu ymweld â'r Cartref yn Llan Ffestiniog pan ddaw'r galw am hynny! O ganlyniad, yr unig opsiwn sydd gan staff y Cartref ydi ffonio'r gwasanaethau brys sydd wedyn yn anfon ambiwlans i gludo'r claf i Ysbyty Gwynedd, pa un a oes gwir angen hynny ai peidio!

**Fedrwch chi, Peter, enwi un ardal arall yng Ngwynedd, neu yng Nghymru gyfan hyd yn oed, lle mae peth felly'n cael ei ganiatáu?** Does ryfedd yn y byd bod meddygon yr A&E yn Ysbyty Gwynedd yn ddig oherwydd yr holl ymweliadau diangen a'r gwastraff adnoddau.

**PRACTIS MEDDYGON Y BLAENAU** [Bellach yng ngofal BIPBC]

Pan gyfeiriais at feirniadaeth HIW o'r modd yn mae'r Practis hwn yn cael ei gynnal, nid oedd Mr Lang na chitha yn fodlon cydnabod y cyhuddiad, na derbyn y feirniadaeth. Ydych chi, felly, yn gwrthod derbyn y pethau a gaiff eu dweud yn yr adroddiad hwnnw? Y canlynol, er enghraifft – *'We looked at the practice development plan and saw that Meddygon y Blaenau had not participated in identifying some of the key Health issues or National Clinical priorities pertinent to patients registered at their practice due to other work constraints. These areas included smoking cessation, falls prevention* and cancer care ... The Health board's Head of Primary Care (West) informed us that plans have been outlined for a new development plan. However, this work is* ***in its infancy*** *...* ***Services need to be developed with consideration to patient needs in an area where high levels of deprivation are prevalent ...***

*... At the time of our inspection there was no system to monitor the effectiveness and consistency of record keeping. This would be particularly pertinent given the number of GP locums working at the practice* ***to ensure that satisfactory standards are maintained*** *...*

*... The business continuity arrangements did not cover unforeseen events such as GP annual or sickness leave or poor wintry weather conditions (****which is a common occurrence in this practice area****).*

A beth am y bennod *Quality of management and leadership* (tud. 16 -18) ?

Oes raid mynd ymlaen, Peter? Fe allwn ddyfynnu mwy pe bai raid, megis er enghraifft y nifer llythyrau cŵyn a dderbyniwyd gennych ers misoedd am agwedd ac ymddygiad un meddyg *'locum'* yn arbennig. Dylech wybod bod nifer o gleifion yr ardal, erbyn hyn, yn gwrthod apwyntiadau efo hwnnw, ac mae hynny'n rhoi straen annerbyniol ar feddygon eraill, yn enwedig y meddyg lleol Dr Parry rwy'n tybio. Ond dal i gael ei anfon yma mae o, sy'n profi eto cyn lleied o barch sydd gan y Bwrdd i drigolion yr ardal hon.

A thra ar y pwnc, beth sydd wedi digwydd i bolisi iaith BIPBC? Hwyrach y gall Mr Parker, Rheolwr y Practis, sy'n Sais uniaith ei hun, egluro pam bod llythyrau uniaith Saesneg yn cael eu hanfon allan i gleifion sy'n Gymry Cymraeg glân gloyw!

## CAMARWAIN POBL UCHELDIR CYMRU

**1.** ***' ...it is noted that Tywyn as a community is viewed as being more remote than Blaenau Ffestiniog. In terms of accessibility, the Welsh Index of Deprivation scores Blaenau fairly well as it benefits from a train line, bus routes and good roads. This was an important factor taken into account by the Welsh Government when approving the Tywyn Business Case and also by the Health Board in its discussions with the CHC culminating in the decision to retain the MIU in Tywyn.'***

Dyma oedd un o brif ddadleuon Simon Dean dros egluro pam bod Tywyn yn haeddu gwell gwasanaeth iechyd na Blaenau a'r cylch. Fe wyddoch, gobeithio, imi herio ei farn ar y mater yn fanwl iawn ond diflannu'n gynnar ac yn swta o'i swydd wnaeth Mr Dean a hynny heb allu cyfiawnhau dim un o'i ddadleuon.

**2.** Mae BIPBC yn mynnu bod Ysbyty Alltwen o fewn cyrraedd hwylus i drigolion Blaenau, hyd yn oed y rhai heb gar, gan fod *'gwasanaeth bws hwylus'* ar gael reit at ddrws yr ysbyty. Rydym wedi gwneud ein gorau yn y gorffennol i ddangos nad yw hynny'n wir ond, gan na chafodd y ddadl honno, chwaith, fawr o gydymdeimlad gan y Bwrdd, efallai y rhowch chi sylw dyladwy rŵan i lythyr Mrs Lilian Jones (gw. y ddau atodiad yn ei henw) sy'n manylu ar y drafferth a gafodd hi i gadw apwyntiad yn Alltwen.

A thra ar y pwnc, dichon ichi glywed ar y cyfryngau, o fewn y pythefnos diwethaf, fel roedd ysgolion Blaenau i gyd wedi gorfod cau am ddiwrnod, a hynny am i'r cwmnïau bysys benderfynu osgoi'r ardal oherwydd y tywydd? Roedd gweddill Gwynedd i gyd yn glir o eira y diwrnod hwnnw! Wrth gwrs bod plant y cylch wedi croesawu'r gwyliau annisgwyl, ond faint, tybed, o'r 5 neu 6 o gleifion o'r ardal hon oedd yn Ysbyty Alltwen ar y pryd, a fethodd â chael ymwelydd o gwbwl y diwrnod hwnnw? Ydi'r Bwrdd Iechyd wedi ystyried peth felly, os gwn i? Go brin.

## PRYDER POBL DOLWYDDELAN A DE CONWY

Wrth ymddiheuro na allai fynychu'r cyfarfod wythnos yn ôl, dyma oedd gan Gwyn Roberts, Clerc Cyngor Cymuned Dolwyddelan, i'w ddweud:-

***"Mae'r drefn o orfod ffonio'r feddygfa yn y Blaenau am 8am i gael apwyntiad yn creu problemau. Nid pawb sydd â ffôn wrth gwrs ac nid pawb, yn arbennig y rhai hŷn, sy'n hoffi defnyddio ffôn na chodi am yr amser yna o'r bore! Mae cael amser cyfleus ar gyfer apwyntiad i gydfynd ag amser tren neu fws ar gyfer y rhai sydd heb gar yn broblem hefyd, a phroblem ychwanegol ydi'r ffaith fod cwtogi wedi bod ar nifer y bysiau X1 sy'n teithio drwy'r ardal ... Achos y dylid dwyn i sylw'r Bwrdd Iechyd yw'r enghraifft o wraig yn cael ei chymryd yn wael yn ei chartref yn Nolwyddelan, anfon am ambiwlans - honno'n cyrraedd efo dim ond un dyn arni - anfon am ambiwlans arall, un dyn ar honno wedyn, felly dyma ddau ddyn yn mynd â'r wraig mewn un ambiwlans i Fangor a gadael yr ambiwlans arall ger y tŷ yn Nolwyddelan. Yna, y ddau yn dod yn ôl i Ddolwyddelan i godi'r ambiwlans arall. Sôn am smonach a gwastraffu adnoddau prin!"***

Roeddech eich pedwar yn barod iawn i egluro nad yw'r gwasanaeth ambiwlans yn rhan o gyfrifoldeb BIPBC, ac mae hynny'n wir, ond mae'r enghraifft uchod unwaith eto'n tanlinellu mor annerbyniol ydi'r gwasanaeth a gaiff ei gynnig yn Ucheldir Cymru. Dal i wadu'r cyhuddiad a chau llygad i'r broblem mae'r Bwrdd Iechyd!

## CYNYDD MEWN GWASANAETHAU

Mae disgwyl inni gredu bod rhestr wych o wasanaethau yn ein haros pan gaiff yr Ysbyty ei ail gynllunio. Ond erbyn hynny bydd o leiaf bedair blynedd wedi mynd heibio ers inni golli beth oedd gennym gynt!

Un o'r gwasanaethau a gafodd ei gynnal yma'n foddhaol am flynyddoedd lawer oedd y *'falls prevention group'**. Onid yw'n eironig, Peter, bod adroddiad yr HIW rŵan yn beirniadu'r Practis am fethu cynnal grŵp o'r fath? Ac fe ellir deud yr un peth hefyd am nifer o'r gwasanaethau eraill a ddygwyd oddi arnom ni. **Pa mor dwyllodrus yw BIPBC yn cyflwyno rhestr o *'wasanaethau newydd'* oedd eisoes ar gael yma cyn cau'r Ysbyty Coffa dair blynedd yn ôl?**

Bu gennym glinig ffisiotherapi yma ers 1945, mewn adeilad a godwyd yn unswydd at y diben hwnnw, gydag arian wedi'i gyfrannu'n lleol, llawer ohono gan filwyr oedd yn dychwelyd o'r ail ryfel byd ac yn dymuno cyflwyno'r arian oedd yn ddyledus iddynt o'r Swyddfa Rhyfel. Bu'r clinig hwnnw'n agored ac yn brysur bum diwrnod yr wythnos ar hyd y blynyddoedd, nes i'r bwrdd iechyd benderfynu symud y gwasanaeth i adeilad yr Ysbyty, a symud ward y dynion yn fan'no i neud lle iddo! Fel rhan o'r cynllwyn (ia, *cynllwyn*, Peter!), lleolwyd y ward honno wedyn mewn stafell gwbwl anaddas, drws nesaf i ward y merched, gan orfodi'r cleifion i gyd i rannu'r un stafell ddydd (*'day room'*). Dyna pryd y cynigiodd Cyfeillion yr Ysbyty, ar y cyd efo'r Pwyllgor Amddiffyn, godi hanner y gost (£150,000) o

adeiladu estyniad ar gyfer ward newydd sbon, a chyflwynwyd cynlluniau gan gwmni o benseiri siartredig. Gredwch chi na ddaeth unrhyw fath o ymateb i'r cynnig am fisoedd lawer oddi wrth y Bwrdd. Dim ond ar ôl pwyso a phwyso y cawsom ateb o'r diwedd a hwnnw'n ddim byd mwy na gwrthodiad swta o'r cynnig, heb unrhyw ymgais i egluro pam. Yna, yn fuan iawn wedyn, roedd y Bwrdd yn gneud achos i gau'r Ysbyty oherwydd anaddasrwydd y wardiau a diffyg preifatrwydd i'r cleifion! Oes ryfedd bod y gair **'twyllodrus'** yn codi'i ben pan glywir enw'r Betsi yn cael ei grybwyll?

Gyda llaw, y newyddion diweddaraf yw bod y gwasanaeth ffisiotherapi yn Stiniog wedi cael ei gwtogi eto fyth ac mai dim ond ar UN diwrnod o'r wythnos y bydd yn cael ei gynnig o hyn allan! Mwy o reswm, felly, i orfodi pobol yr ardal i fynd i lawr i Alltwen am driniaeth (fel hefyd am wasanaeth pelydr-X wrth gwrs) er mwyn profi'r galw cynyddol yn fan'no a chreu dadl dros gau'r uned yn Blaenau yn gyfangwbwl. *'Services need to be developed with consideration to patient needs,'* meddai adroddiad diweddar HIW, ***'in an area where high levels of deprivation are prevalent'*** ond mae'n ymddangos bod y Betsi eisoes wedi penderfynu anwybyddu hwnnw hefyd!

Os gwn i pam bod y dywediad Saesneg *'kicking a man when he's down'* yn dod i feddwl rhai ohonom pan yn trafod cynlluniau'r bwrdd iechyd yn yr ardal hon?

## MID WALES COLLABORATIVE

Mae cynrychiolaeth o'r Pwyllgor Amddiffyn wedi mynychu pob cyfarfod o'r *Mid Wales Collaborative* ers iddo gael ei ffurfio, yn y gobaith o allu cryfhau'r achos ar ran pobol Ucheldir Cymru. Fedrwch chi ddychmygu'n syndod ni, felly, Peter, o'ch clywed chi'n deud ar goedd yn y cyfarfod na fydd y *Collaborative* yn gallu delio efo problemau mewn ardaloedd unigol fel hon? Os gwn i beth fydd ymateb Jack Evershed a Ruth Hall i'r wybodaeth honno, o glywed eu bod yn cyd-gadeirio rhywbeth sy'n ddim byd mwy na siop siarad gostus arall?

Rwy'n sylweddoli bod nifer o'r cwynion uchod yn gyfarwydd ichi'n barod a bod y rhan fwyaf ohonynt yn perthyn i gyfnod eich rhagflaenydd yn y swydd. Ond nid yw'n rhy hwyr, serch hynny, i BIPBC ddechrau dangos yr un tegwch i'r ardal hon ag i ardaloedd Seisnig y glannau.

Yn ddiffuant iawn,

Geraint. (ar ran y Pwyllgor Amddiffyn)

Annwyl Dr Higson,

Mae eich ymateb dyddiedig 21 Mawrth 2017 i fy e-bost ar ddiwrnod cyntaf y mis hwnnw unwaith eto'n hynod o siomedig. Unwaith eto, rydych yn osgoi'r rhan fwyaf o'r materion a godwyd ac yn dal ati i geisio amddiffyn camgymeriadau, anwireddau a thwyll cyn brif swyddogion y Bwrdd Iechyd.

Rydych yn mynd ati ymhellach i fynnu fod penodiad Dr Whitehead yn Gadeirydd ar Fwrdd Prosiect Iechyd Integredig a Gofal Cymdeithasol Blaenau yn 'hollol briodol'. Wrth gwrs, mae'n siŵr mai felly yr oedd hi o safbwynt y Bwrdd Iechyd, ond nid yw 'priodol' a 'moesegol' yn golygu'r un peth o bell ffordd, nac ydynt? Fe wyddoch yn iawn, *fod gan 'moesegol'* oblygiadau moesol uniongyrchol a dyna pam ein bod unwaith eto am herio nid yn unig chi eich hun a'r Bwrdd ond hefyd Dr Whitehead ei hun i ddadlau'r achos nad yw'n foesegol iddo oruchwylio cau gwasanaethau hanfodol yn Ysbyty Goffa Ffestiniog ac ar yr un pryd sicrhau bod yr union wasanaethau hynny yn cael eu diogelu yn Ysbyty Dolgellau-Bermo sy'n gwasanaethu ei Feddygfa ef ei hun. Mae ei honiad fod gan 'Blaenau fynediad i wasanaethau iechyd sydd cystal â phob man arall ym Meirionnydd ac mae ganddi well mynediad i amrediad eang o wasanaethau gofal cynradd' yn gwbl gywilyddus, gan un sydd mewn gwell sefyllfa na neb arall o ran ei broffesiwn i wybod beth yw'r gwir ffeithiau, pe bai'n dewis eu hwynebu.

Fodd bynnag, mae hi bellach yn du hwnt o amlwg, nad oes gennych unrhyw fwriad i ymateb yn uniongyrchol i'r materion yr ydym wedi'u codi â chi dro ar ôl tro, ddim hyd yn oed i achos y wraig oedrannus pan wrthodwyd triniaeth mân anafiadau iddi yn y Ganolfan Iechyd yn Ffestiniog ac yn Ysbyty Alltwen, nes iddi dderbyn triniaeth yng nghartref nyrs gymunedol drugarog y tu allan i'w horiau gwaith. Rhaid tybio felly eich bod chi a BIPBC yn cyd-fynd â barn ragfarnllyd Dr Whitehead fod achos o'r fath yn enghraifft o *'fynediad da at wasanaethau iechyd'* sydd yn cael ei ddarparu yn Ucheldir Cymru ac y dylwn fodloni ar hyn.

Yn olaf, gadewch i mi dynnu eich sylw at enghraifft arall, eto fyth, o'r caledi gormodol sy'n rhaid i gleifion oedrannus Ucheldir Cymru eu dioddef. Ymddengys mai polisi BIPBC bellach yw i gleifion sydd angen gofal nyrsio mwy hirdymor ddod o hyd i drefniadau eraill mewn cartrefi nyrsio preifat, fel modd o liniaru'r penbleth blocio gwlâu a achosir wrth gau ysbytai cymunedol fel ein hysbyty ni. Gyda chymorth Cyngor Gwynedd, gwyddwn bellach fod cleifion a'u teuluoedd yn cael eu rhoi dan bwysau i wneud trefniadau o'r fath. A yw'r Bwrdd Iechyd felly'n poeni, o'r wyth 'ardal llesiant' yng Ngwynedd, mai Ucheldir Cymru yw'r unig ardal heb gartref nyrsio o gwbl ynddi? Cymharwch hynny gyda nifer y sefydliadau o'r fath sy'n bodoli yn yr ardaloedd Saesnig mwy llewyrchus. Er enghraifft, rhyngddynt, mae gan Borthmadog a thref fechan Cricieth o leiaf saith! Ymhellach, Bryn Blodau yn Llan Ffestiniog yw'r unig gartref gofal i'r henoed yn yr Ucheldir ac mae ganddo restr aros barhaol.

O'r herwydd, mae disgwyl i gleifion yr ardal hon, wedi iddynt dreulio amser yn Ysbyty Gwynedd neu Ysbyty Glan Clwyd cyn cael eu symud i Alltwen, a hyd yn oed Bryn Beryl neu Ddolgellau, yn y pendraw, ddod o hyd i ofal nyrsio arall, ac os nad yw hynny'n bosib yn eu cartref, yna'n amlach na pheidio rhaid mynd i gartref nyrsio preifat a chostus. Hyd y gwyddwn, mae cymaint â NAW claf oedrannus, dim ond o Flaenau a Llan Ffestiniog, bellach yn breswylwyr parhaol mewn cartrefi preswyl, a hynny heb gael unrhyw ddewis, yn Llandudno (pellter o 38 milltir), Cricieth (17m), Pentrefelin (15m), Llanrwst (15m), Porthmadog (13m) ... ac o fewn y deuddeg mis diwethaf mae nifer o bobl eraill wedi marw mewn rhai o'r sefydliadau hynny, a hefyd yng Nghartref Bryn yr Eglwys, Pentrefoelas (pellter o 18 milltir).

Y mwyaf diweddar i farw oedd gwraig oedrannus o Danygrisiau a gafodd ei symud yn gynharach eleni o Alltwen i gartref nyrsio **yn Nhywyn, o bob man**, 42 milltir o'i chartref! Nid oedd gan ei phartner gar, nid oedd yn medru gyrru car ychwaith, felly ystyriwch beth oedd yn rhaid iddo wneud i ymweld â hi am y dydd - bws clippa o Danygrisiau i Flaenau Ffestiniog (10 munud), taith bws (gwasanaeth pob awr) o Flaenau Ffestiniog i'r Oakeley Arms ym Maentwrog (tua 18 munud) i ddal bws (gwasanaeth pob dwy awr) i Ddolgellau (tuag awr) a bws arall wedyn o'r fan honno i Finffordd ger Tal-y-llyn cyn dal bws arall eto wedyn i Dywyn (tua 1½ awr) ac yna deng munud arall o gerdded i'r cartref nyrsio, cyfanswm o fwy na 3 awr un ffordd! Byddai wedi medru defnyddio bysus o Danygrisiau i Benrhyndeudraeth (10 + 22 munud) i ddal trên (gwasanaeth pob dwy awr) i Dywyn (1awr 16munud), sy'n gyfanswm o fwy na 2 awr un ffordd, yn ddibynnol wrth gwrs ar gysylltiadau hwylus ar gael ar gyfer y daith yna ac yn ôl.

O fewn dau fis o gael ei symud, bu farw'r wraig heb neb o'i theulu yn bresennol ac fe'i claddwyd yn Ffestiniog bythefnos yn ôl. Mae'n rhaid bod eironi a chaledwch enghraifft o'r fath yn amlwg i bob un ohonoch.

Felly pwy sydd ar fai, Dr Higson? Pawb ond ... , dybiwn i! Yn y cyfamser, mae'r gwahaniaethu a'r cam yn erbyn poblogaeth gynhennid Cymry'r Ucheldir yn parhau!

Roedd cyhoeddiad y Bwrdd 'Gofal Iechyd yn Newid yng Ngogledd Cymru' yn gaddo 'mwy o ofal yn nes at adref' ac yn honni mai ei fwriad oedd 'gwella iechyd, nid dim ond ymestyn bywyd'. Gyda phob parch, dylai fod cyn aelodau ac aelodau presennol BIPBC, ynghyd â'r ymarferydd arweiniol yr oeddech mor barod i wrando ar ei farn, yn cywilyddio o ran Ucheldir Cymru. Yn hytrach na gwneud hynny, byddwch, mae'n siŵr, yn ein hatgoffa unwaith eto ein bod yn cael adeilad newydd gwerth £4m, ar gyfer nid dim ond yr ychydig wasanaethau sy'n weddill yma (gweler yr atodiad), ond hefyd i

gael Bloc Gweinyddol trawiadol iawn a swyddfeydd yn edrych dros banorama hyfryd a fwriadwyd yn wreiddiol ar gyfer cleifion mewnol Ysbyty Goffa Ffestiniog.

Yn gywir, ac â phryder cynyddol,

Geraint V Jones (ar ran aelodau Pwyllgor Amddiffyn Ysbyty Coffa Ffestiniog)

……………………..

## ***Gohebiaeth efo Simon Dean*** (olynydd David Purt fel Prif Weithredwr BIPBC)

***28.09.2015***

***Er sylw Simon Dean, Prif Weithredwr Dros Dro Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr***

Annwyl Simon,

Diolch i chi am ateb fy neges e-bost dyddiedig 24 Awst, ond ni allaf adael i nifer o bwyntiau, sydd yn cael eu gwneud eto, fynd heb eu gwrthbrofi, er eu bod wedi cael eu herio'n danbaid yn y gorffennol.

Hoffwn ddechrau gyda dau o'r tri 'egwyddor allweddol' honedig y cyfeiriwch atynt -

i) ***Gofal Cartref Uwch***. A ydych yn awgrymu fod y gwasanaeth hwn yn bodoli mewn gwirionedd? Fedrwch chi ddweud gyda llaw ar eich calon ei fod wedi cael ei lansio'n iawn o gwbl, er gwaetha'r addewidion y byddai'n weithredol cyn i Ysbyty Goffa Ffestiniog gael ei chau? Os felly, fedrwch chi ddarparu'r ystadegau sy'n profi ei fodolaeth os gwelwch yn dda?

ii) ***Symud gofal o ysbytai aciwt i'r gymuned*** ...
Pe baech yn gwirio'ch ystadegau eto, fe welwch fod cleifion Ffestiniog yn cael eu hanfon ar hap o Ysbyty Gwynedd i ysbytai llai dwys yn Alltwen (14m) neu Fryn Beryl (26m), ac i Ddolgellau (23m) o dro i dro neu hyd yn oed Caernarfon (31m). (Ychwanegwch 6m arall i'r pellter o Ddolwyddelan). Mewn geiriau eraill, maent yn cael eu hanfon i ysbytai mewn lleoedd eraill, y tu allan i'w bröydd eu hunain.
Ac mae hyn yn gwrthbrofi'r honiad yn eich trydydd paragraff, pan ddywedwch, *'The Health Board's aim was, and continues to be, to ensure that services in communities are based on local needs.'*

Gadewch i mi nawr herio cynnwys eich pedwerydd paragraff lle'r ewch ati i wrthbrofi ein honiad o ragfarn yn erbyn pobl cymunedau Cymraeg Ucheldir Cymru:-

- Wrth egluro pam roddir blaenoriaeth i Ysbyty Tywyn, dywedwch ***'...it is noted that Tywyn as a community is viewed as being more remote than Blaenau Ffestiniog. In terms of accessibility, the Welsh Index of Deprivation scores Blaenau fairly well as it benefits from a train line, bus routes and good roads. This was an important factor taken into account by the Welsh Government when approving the Tywyn Business Case and also by the Health Board in its discussions with the CHC culminating in the decision to retain the MIU in Tywyn.'***

  Gan mai dyma oedd eglurhad Geoff Lang hefyd pan gyfarfyddom ag ef, Dr Higson a Trevor Purt 4½ mis yn ôl, mae'n rhaid i mi gasglu eich bod yn dyfynnu o'r un ffynhonnell.

  **Yr hyn yr ydych eich dau yn ei ddweud, felly, yw nad yw Llywodraeth Cymru na BIPBC yn gwybod fod rheilffordd a gorsaf yn Nhywyn hefyd! A'i bod yn elwa o wasanaeth sy'n darparu cyswllt uniongyrchol rhwng Pwllheli, Birmingham a gorsaf Euston, Llundain! Mae clywed fod gweinidogion llywodraeth a swyddogion y bwrdd iechyd sy'n cael eu talu'n hael yn barod i wneud penderfyniadau pwysig ar sail y fath anwybodaeth yn wirioneddol syndod!**

  Ar y llaw arall, os oedd LlC a Betsi yn gwybod am fodolaeth y rheilffordd, ond wedi dewis anwiredd i gryfhau achos Tywyn am wlâu cleifion mewnol, Uned Mân Anafiadau ac ati, yna mae hyn yn brawf pendant o ddangos ffafriaeth a rhagfarn.

  **Mae eich llythyr hefyd yn honni fod gan Dywyn wasanaeth bws llai dibynadwy na Ffestiniog ac nad oes ganddi *'ffyrdd da'.* Unwaith eto, mae hyn yn ddadleuol iawn ac yn cryfhau'r ddadl fod rhywun neu'i gilydd, un ai yn LlC neu yn BIPBC wedi dewis llunio achos ffug yn erbyn cadw Ysbyty Goffa Ffestiniog. Os mai hyn yw'r gwir, mae lle yma i gyflwyno her gyfreithiol ac i gwestiynu o ddifri ffynhonnell y wybodaeth a roddwyd i Fynegai Amddifadedd Cymru.**

Mae sawl pwynt arall yn eich llythyr sydd hefyd angen eu herio -

- ***'Minor injury Services continue to be provided both by the GP Practice in Blaenau (similar to many other GP Practices across North Wales) and in Ysbyty Alltwen (7 days a week).'*** Y gwir yw ers i'n hysbyty gael ei chau mewn brys mawr ym mis Mawrth 2013, mae'r gymuned leol wedi bod ar ddeall nad oes ganddynt ddewis mwyach ond mynd i Alltwen (14 milltir) i dderbyn triniaeth, ac yn aml iawn cael eu hanfon oddi yno i Ysbyty

Gwynedd ym Mangor i dderbyn triniaeth syml megis pwytho mân friwiau! Mewn gwirionedd, mae eich honiad fod Alltwen yn cynnig gwasanaeth mân anafiadau saith diwrnod hefyd yn ffuantus.

° Aech ymlaen i awgrymu y dylai Ffestiniog fod yn ddiolchgar i gael gwasanaeth gofal dydd Dementia unwaith yr wythnos a chlinig offthalmoleg wedi'i arwain gan ymgynghorydd ddwywaith y mis, ac, *'yn y misoedd nesaf', clinig resbiradaeth wedi'i arwain gan ymgynghorydd!* Dwy flynedd a hanner a mwy ar ôl i'r Bwrdd bleidleisio i gau'r ysbyty, dyma'r cwbl fedrwch chi ei gynnig i ni? Mae'r rhan fwyaf o'r gwasanaethau eraill ar eich rhestr hefyd yn gynigion yn unig ar hyn o bryd ac mae'n debyg na fyddant yn weithredol am o leiaf 12 mis arall.

Cymharwch hyn gydag un o atodiadau'r llythyr hwn sy'n dangos rhestr gwasanaethau'r feddygfa leol cyn i BIPBC bleidleisio i gau'r ysbyty. Mae'r atodiad arall yn gopi o ddogfen BIPBC sy'n rhestru'r gwasanaethau sydd ar gael - neu nad ydynt ar gael i ni bellach, o gymharu â’r rhai hynny sy'n cael eu darparu ar hyn o bryd yn ysbytai Dolgellau a Thywyn. A ydych am barhau i haeru nad oes yma ragfarn?

° Dywedir gennych fod 'gofal diwedd oes yn flaenoriaeth i gymuned Blaenau' a'ch bod yn ymchwilio i sgôp talu Cyngor Gwynedd am ddefnyddio hyd at 5 gwely yng nghartref gofal preswyl Bryn Blodau (sydd eisoes â rhestr aros hir!) A fydd y cleifion yn y gwlâu hyn yn derbyn gofal nyrsio 24 awr?! Na fyddan, wrth gwrs. Cyfyd y cwestiwn: Ai dyma yw gweledigaeth BIPBC ar gyfer gofal diwedd oes?

° Mae eich penderfyniad i gau meddygfa Dolwyddelan yn seiliedig ar ddiffyg ymateb neu wrthwynebiad gan y pentrefwyr, a dim arall.  Gyda phob parch, Simon, mae hwn eto'n ddadl ffuantus gan fwrdd iechyd sydd yn gyson wedi anwybyddu neu wrthod ymateb i bryderon penodol a llythyrau cwyn gan y cyhoedd. Sut allech chi gyflwyno'r fath ddadl ac ar yr un pryd dewis anwybyddu canlyniadau arwyddocaol y ddau refferendwm a gynhaliwyd ym Mlaenau ac yn Nolwyddelan ym mis Chwefror eleni lle'r oedd 99.6% o'r ddwy gymuned wedi galw i weld gwlâu cleifion mewnol, gwasanaeth mân anafiadau ac adran pelydr-x yn dychwelyd i'r ardal?

Mae gan y Panel Gofal Cynradd lawer i ateb drosto!

° Mae eich paragraff olaf unwaith eto yn ceisio cyfiawnhau penodi Dr Bill Whitehead yn gadeirydd ar y Bwrdd Prosiect Iechyd Integredig a Gofal Cymdeithasol. Rydych yn haeru mai ef oedd y dewis naturiol am mai ef yw Arweinydd Clinigol/Lleol Meirionnydd. Fodd bynnag, byddem yn dadlau, am yr union reswm hwnnw, y dylai BIPBC fod wedi rhagweld

gwrthdaro rhwng buddiannau, yn enwedig ar adeg pan oedd Dr Whitehead yn chwarae rhan yn y frwydr i gadw gwasanaethau penodol yn ei Ysbyty ei hun (Dolgellau a Bermo)! Rwy'n sylweddoli fod penderfyniadau o'r fath wedi'u gwneud cryn amser cyn i chi gyrraedd y swydd, ac eich bod yn eich swydd yn benodol i ymdrin â materion adnabyddus eraill, ond ni fydd y sefyllfa yn Ffestiniog yn diflannu er gwaetha'r ffaith fod eich rhagflaenwyr wedi ceisio bychanu ein problemau.

Yr eiddoch yn gywir,

Geraint.

(Geraint V Jones, Cadeirydd Pwyllgor Amddiffyn Ysbyty Coffa Ffestiniog)

DIM ATEB

## *Gohebiaeth efo Gary Doherty, Cadeirydd presennol BIPBC*

***16.05.2017***

Annwyl Mr Doherty,

Ar fy rhan i a Dr Walt Evans, hoffwn gyflwyno sylwadau ar ein cyfarfod â chi ac aelodau o'ch tîm yn eich swyddfeydd yn Llanelwy, ddydd Iau diwethaf (12.05.2017).

Rhaid i ni atgoffa ein hunain yn barhaus, ers 2012, mai chi yw pumed Prif Weithredwr Betsi i ni geisio cynnal trafodaethau ag o - y PUMED mewn pum mlynedd! - Mary Burrows (o dan ei goruchwyliaeth hi y dechreuwyd y smonach hon yn y lle cyntaf), Geoff Lang (Prif Weithredwr Dros Dro yn ystod absenoldeb salwch maith Mrs Burrows), David Purt (fu raid gadel ei swydd dan gwmwl), Simon Dean (wedi'i ddethol gan y Gweinidog fel *'trouble-shooter'* i gael BIPBC allan o fesurau arbennig mewn cyn lleied â 90 diwrnod, ac wrth gwrs fe fethodd yn llwyr â gwneud hynny, hyd yn oed ar ôl cyfnod estynedig yn y swydd), a bellach dyma chi, sy'n profi i fod yr un mor gyndyn yn wyneb yr holl ddadleuon.

O gychwyn cyntaf y cyfarfod, daeth eich bwriad yn amlwg i mi. Roeddech yno i siarad ac nid i wrando ar unrhyw un o'n dadleuon. Roeddech yn glir iawn hefyd y byddech yn gadael o fewn yr awr, tybiaf oherwydd bod gennych ymrwymiad i fod yn rhywle arall o 5.15 ymlaen. Roedd hyn, yn ei hun, yn ddigon i'n synnu, yn enwedig gan fod Mr Hamilton wedi bod yn aros am dros ddau fis i chi gytuno i'r cyfarfod yn y lle cyntaf ac wedi teithio'r holl ffordd o Gaerdydd i'ch cyfarfod (taith o dros 350 milltir

yna ac yn ôl!). Ond hyd yn oed os oedd gennych ddigon o reswm i adael, roeddem o leiaf yn disgwyl i weddill eich tîm - pob un ohonynt yn weithwyr proffesiynol ar gyflog uchel - gymryd drosodd ac ymateb i'n pryderon. Dychmygwch ein syndod, felly, pan godasant hwythau, yn amlwg yn dilyn eich arweiniad, i ddod a'r cyfarfod i ben. Pell iawn o fod yn agwedd broffesiynol.

Nawr gadewch i mi gyflwyno sylwadau ar y cyfarfod ei hun. Yn dilyn cyflwyniad byr gan Mr Hamilton aethoch ati i ddarllen ymateb wedi'i baratoi er mwyn tanseilio ein hachos cyn i ni hyd yn oed gael y cyfle i'w gyflwyno, gan roi'r argraff amlwg mai eich bwriad oedd defnyddio cymaint o'r amser a oedd ar gael i ni â phosib. Nid oedd gennym unrhyw ddewis wedyn ond bod yn ddigywilydd a thorri ar eich traws er mwyn i chi wrando arnom. Ond nid oedd yr un ohonoch, chi na'ch tîm, yna i wrando arnom, nag oeddech Mr Doherty? A bod yn gwbl onest, daeth yn amlwg yn fuan mai'r unig reswm yr oeddech yno oedd rhoi cyn lleied â phosib o drugaredd i Mr Hamilton ac i ninnau. Ystyriwch, er enghraifft-

> Pan gyflwynwyd copïau i chi o bamffled yn cynnwys manylion cymaint â DEUNAW o achosion o gam-drin pobl hŷn ym Mlaenau Ffestiniog ei hun yn ystod y deuddeg i ddeunaw mis diwethaf, ni wnaeth yr un ohonoch ddangos digon o ddiddordeb i hyd yn oed edrych ar y clawr.
> Yn yr un modd, pan roddwyd i bob un ohonoch gopi o ddogfen yr Athro Marcus Longley yn cymharu pa wasanaethau sydd bellach ar gael yn Nolgellau, Tywyn a Ffestiniog o ganlyniad i weithredoedd rhagfarnllyd Betsi, ni wnaeth yr un ohonoch drafferthu i edrych ar hwnnw ychwaith. Pam, ys gwn i, os nad i wneud yn hollol amlwg i ni, unwaith eto, fod gofal iechyd Ucheldir Cymru yn dod ar waelod un rhestr flaenoriaethau'r Bwrdd.
>
> Ac wrth i mi wedyn godi mater y Meddyg Teulu ar ddyletswydd yng Nghanolfan Iechyd Blaenau yn methu ag ymateb i alwad o gartref henoed tair milltir i ffwrdd, dim ond oherwydd **<u>mai ef oedd yr unig un ar ddyletswydd ac yn gyfrifol am y feddygfa</u>**'r bore hwnnw, a'i fod wedyn wedi gorfod mynd adref yn sâl yn fuan wedyn, unwaith eto, fe anwybyddoch hynny. Mewn geiriau eraill, roedd eich bwriad yn rhy amlwg o lawer o'r cychwyn cyntaf; nid oedd gennych UNRHYW fwriad o ystyried ein pryderon gwirioneddol am siaradwyr Cymraeg cynhenid Ucheldir Cymru. Ac yna, wrth i chi godi i adael, am 5.15 yn union, gadawsoch ni gyda'r argraff eich bod yn credu eich bod wedi cwblhau'ch gwaith, a dyna ni. Yr hyn a oedd yn annisgwyl i ni oedd fod gweddill eich tîm hefyd wedi codi, ar eich arweiniad chi, i adael. Ai fel hyn yr oeddech chi wedi cynllunio'r peth, Mr Doherty?

A dweud y gwir, ni roddwyd cyfle i ni fynegi ein pryderon nac i herio rhai o'r datganiadau camarweiniol yn eich gohebiaeth gyda'r Pwyllgor Deisebau ar 6 Ionawr, eleni. Yn Atodiad 1 y llythyr hwnnw, mae sawl datganiad sy'n dangos yn glir for BIPBC wedi mynd i drafferth arbennig i wahaniaethu yn erbyn Ucheldir Cymru, ond pan geisiais i a Dr Evans godi un o'r materion hynny fe anwybyddwyd y mater yn gyfleus iawn gennych. Dyma'r rheswm pan yr ydym nawr yn bwriadu creu rhestr gyflawn o enghreifftiau o'r fath (gan gynnwys y rhai hynny a adawyd heb eu hateb yn y gorffennol) i'w chyflwyno, ynghyd â chopi o'r llythyr hwn, nid yn unig i'r Pwyllgor Deisebau a'r Gweinidog Iechyd ond hefyd i eraill sydd â dealltwriaeth broffesiynol o faterion o'r fath.

Yr eiddoch yn gywir,

Dr Walt Evans

Geraint V. Jones

**Atodiad 6 – <u>Cynnig i'r Bwrdd Iechyd</u>**

**PWYLLGOR AMDDIFFYN YSBYTY COFFA FFESTINIOG**

***FFESTINIOG MEMORIAL HOSPITAL DEFENCE COMMITTEE***

***4ydd Ionawr 2008***

***I sylw aelodau a swyddogion y Bwrdd Iechyd***

Wele restr isod o rai o'r penderfyniadau a gymerwyd gan y Bwrdd yn ystod y tair blynedd diwethaf parthed gofal iechyd yn ardal Blaenau Ffestiniog:-

- Defnyddio salwch ffisiotherapydd fel esgus i gau'r clinig ffisiotherapi yn barhaol, a hynny er gwaethaf protest leol gref.
- Mae eich dadl dros gau yr Ysbyty Coffa yn un wan (Caed sicrwydd o sawl cyfeiriad yn y gorffennol, gan gynnwys un y Gweinidog Iechyd Brian Gibbons ei hun yn ystod etholiadau 2007, mai unig fwriad i ysbyty newydd Alltwen oedd i ddisodli Ysbyty Bron-y-garth a Chlinig Porthmadog.)
- Rydych wedi anwybyddu pob pryder, gwrthwynebiad a dadl a gyflwynwyd ichi (oddi wrth y meddygon lleol, staff yr Ysbyty, CIC Meirionnydd, Aelodau Seneddol a rhai'r Cynulliad, y Pwyllgor Amddiffyn a hyd yn oed bryderon un o aelodau'r Bwrdd ei hun, heb sôn am y gwrthwynebiad a welwyd mewn cyfarfodydd cyhoeddus, mewn gweithdai, deisebau a ralïau).
- Roedd eich dogfen 'Dweud Eich Dweud' yn dadlau mai *'diffyg preifatrwydd i'r claf'* oedd un o'r prif ddadleuon dros gau'r Ysbyty Coffa, a hynny pan oedd wardiau'r dynion a'r merched wedi eu lleoli yn nau ben yr adeilad, efo hanner canllath o goridor yn eu gwahanu. Ond eto i gyd, eich ateb chi i'r *'broblem'* honedig oedd symud cleifion y dynion i ystafell gul drws nesaf i Ward y Merched, oedd yn golygu bod merched a dynion yn awr yn gorfod rhannu nid yn unig yr Ystafell Ddydd ond hefyd yr un ward yn aml iawn! Mewn geiriau eraill, fe aethoch allan o'ch ffordd i **greu wardiau cymysg** a thrwy hynny y 'diffyg preifatrwydd' nad oedd yn bod cyn hynny. Gellir gweld hyn naill ai fel blerwch amaturaidd ar eich rhan neu fel ymgais gwbwl sinigaidd i gryfhau eich dadl dros gau yr Ysbyty. Efallai y byddwch cystal ag egluro pa un?

- Roeddem yn arbennig o flin bod eich swyddogion gweithredol – pob un ohonynt ar gyflogau hael iawn – wedi cymryd yn ganiataol o'r cychwyn bod ganddynt yr awdurdod i anwybyddu barn y cyhoedd ac i weithredu'n unbenaethol.
- Mae tynnu 5 o wlâu o Ysbyty Coffa Ffestiniog wedi creu rhagor o broblemau yn ysbytai Gwynedd a Llandudno. Fe allodd Mr Michael Williams, Adolygydd Swyddogol y Gweinidog Iechyd, gadarnhau hynny drosto'i hun pan ymwelodd yn ddirybudd â'r Ysbyty rhyw chwe wythnos yn ôl. Roedd y 12 gwely yn yr Ysbyty Coffa yn llawn, fel sy'n arferol, ac roedd cymaint â 4 claf yn YG yn dal i aros am gael eu trosglwyddo yno. Ac nid eithriad yw sefyllfa o'r fath, fel y gall ystadegau YG ei brofi'n hawdd oherwydd mae'r broblem yn parhau hyd heddiw.

  Os y byddwch yn glynu at eich bwriad i symud pob gwely o'r Ysbyty Coffa, yna mae'n gwbwl amlwg mai gwaethygu wnaiff y sefyllfa ac na fydd Ysbyty Alltwen, unwaith y caiff honno ei hagor, yn gallu delio efo'r galw.

***Y FFORDD YMLAEN YN EIN BARN NI***

- *Ni allwn mwyach gau llygad i'r diffyg preifatrwydd sy'n bodoli erbyn hyn yn Ysbyty Coffa Ffestiniog*
- *Ac ni allwch chi, Aelodau'r Bwrdd, wadu eich rhan chi yn mynd ati'n fwriadol i greu'r sefyllfa honno.*
- *Yn ein barn ni, gellir datrys y broblem mewn un o ddwy ffordd :-*
  *NAILL AI (i) Bydd raid symud Ward y Dynion yn ôl i ble'r oedd hi a chodi estyniad ar y safle i ad-leoli'r Uned Ffisiotherapi.*
  *NEU (ii) Defnyddio'r estyniad i greu Ward 4-gwely newydd ar gyfer y dynion.*
  *(Ym marn yr arbenigwyr, mae'r naill ddewis neu'r llall yn gwbl ymarferol)*

Rydym yn amgáu cynlluniau pensaernïol ar gyfer ward 4-gwely sy'n cynnwys darpariaeth *'en-suite'*. (Hawdd fydd addasu'r cynllun yn ôl y gofyn.)

Byddai adeiladu'r estyniad yn golygu'r newidiadau hyn i'r adeilad presennol –

(a) Ymestyn y prif goridor.
(b) Creu drws cyswllt rhwng yr Ysbyty a'r adeilad newydd.
(c) Creu cyntedd a phrif fynedfa newydd (Atodir sgets artist i roi syniad o fel y byddai'r cyfan yn edrych.

**AMCANGOST**

Mae'r cynllun enghreifftiol yn dangos ward 4-gwely o faint 70 metr sgwâr. Gan weithio ar gost hael o £2,500 y fetr sgwâr (£2,326 y fetr sgwâr a awgrymir yn y cyfarwyddyd swyddogol *'Departmental Cost Allowance Guide'*), yna cost lawn adeiladu ward newydd fyddai £175,000. Ychwaneged £120,000 ar gyfer y gwaith addasu i gysylltu'r estyniad newydd efo'r Ysbyty ei hun (y swm yma eto'n un hael), yna byddai cost lawn y cynllun yn dipyn is na £300,000.

**EIN HADDEWID**

**Ar y cyd efo Cyfeillion yr Ysbyty Coffa, rydym yn gwneud addewid y byddwn yn cyfrannu hanner yr amcangost uchod - £150,000 – tuag at y datblygiad.**

Ein gobaith yw y byddwch yn rhoi ystyriaeth ddifrifol i'r cynnig hwn yng ngyfarfod nesaf y Bwrdd.

**DIM ATEB!**

**Atodiad 7 - CYMHARIAETH O WASANAETHAU GOFAL IECHYD CYFREDOL SYDD WEDI EI GYNLLUNIO MEWN TAIR CYMUNED LLES YM MEIRIONNYDD**

| **GWASANAETHAU** | **DOLGELLAU** | **TYWYN** | **FFESTINIOG** |
|---|---|---|---|
| Darpariaeth Meddygol 24 Awr | Oes | Oes (GP –OOH) | Na |
| Darpariaeth Nyrsio 24 Awr | Oes | Oes | Na |
| Uned Fân Anafiadau | Oes (8-5) | Oes (10-6) | Na |
| Darpariaeth Radiograffeg | Oes – yn dyddiol | Oes – saith diwrnod | Na |
| Gwelyau ar Gael | Oes - 20 | Oes – 10 rwan 16 | Dim |
| Gwasanaeth Triniaeth Tu Allan i Oriau | Oes | Na - Dolgellau | Na – Tremadog |
| Argyfyngau | Oes | Oes | Na |
| Dadwenwyno Alcohol Mewn Cleifion Mewnol | Oes | Na | Na |
| Gwasanaeth Bydwreigiaeth Integredig | Oes | Oes | Oes |
| Gwasanaeth Uwchsain Diagnostig | Oes | Na | Na |
| Gofal Lliniarol | Oes | Oes | Newydd wedi'i gynllunio |
| Gofal Terfynol | Oes | Oes | Na |
| Triniaeth Mân | Oes | Oes | Na |
| Pediatreg | Oes | Oes | Oes |
| Ffisiotherapi | Oes | Oes | Oes |
| Therapi Iaith a Lleferydd | Oes | Oes | Oes |
| Therapi Galwedigaethol | Oes | Oes | Na – Tremadog |
| 24 Awr o Fonitro BP | Oes | Oes | Oes |
| Monitro Digwyddiadau | Oes | Oes | Na |
| Clinig Pediatrig Cymunedol | Oes | Oes | Oes |
| Gwasanaeth Deintyddol Cymunedol | Oes | Oes | Oes |
| Cyfleuster Fideo Gynhadledd | Oes | Oes | Na |
| Gwasanaethau Ymweld | | | |
| Clinig Llawfeddygaeth Gyffredinol | Oes | Oes | Na |
| Clinig Awdioleg | Oes | | |
| Clinig Calonnau Iach | Oes | Oes | Oes |
| Clinig Hyrwyddo Cyfandriaeth | Oes | Oes | Oes |
| Clinig Llygad | Oes | Oes | Oes |
| Clinig y Frest | Oes | | Newydd wedi'i gynllunio |
| Clinig Rhiwmatoleg | Oes | Oes | Oes |
| Clinig Nyrsio CKD | Oes | | |
| Clinig Retinopathi Diabetig | Oes | | |
| Clinig Telefeddygaeth | Oes | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Clinig Pediatrig | Oes | Oes | Oes |
| Clinig Nyrs Diabetig | Oes | Oes | Oes |
| Clinig Orthopedig | Oes | Oes | |
| Clinig Orthoptydd | Oes | Oes | Oes |

Bydd y ganolfan newydd yn darparu canolbwynt i gael mynediad at wasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol, gwasanaethau trydydd sector a gwasanaethau lles yn y gymuned, a hefyd yn cefnogi gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer darparu gofal yn y gymuned ac yn agosach at gartrefi unigolion.

Bydd gwasanaeth a ddarparir o Ganolfan Goffa Ffestiniog yn cynnwys:

- Gwasanaethau Gofal Cychwynnol Meddyg Teulu
- Gwasanaeth Deintyddol Cymuned
- Nyrsio Ardal
- Ymwelwyr Iechyd
- Gwasanaethau Bydwreigiaeth
- Cynllunio Teulu
- Parafeddyg Cymunedol
- Camddefnyddio Sylweddau
- Iechyd Meddwl Oedolion
- Gwasanaethau Anabledd Dysgu
- Gwasanaeth Dydd Dementia
- Grŵp Cefnogi
- Cynghori
- Gofal Lliniarol
- Ffisiotherapi
- Orthoteg
- Dietoleg
- Therapi Iaith a Lleferydd
- Clinig Awdioleg
- Offthalmoleg
- Clinig Rhithwir
- Clinig Ortholeg y Llygad
- Clinig Methiant y Galon
- Clinig Dermatoleg
- Clinig Resbiradol
- Clinig Rhiwmatoleg
- Gwasanaethau Cymdeithasol
- CAMHS
- Clinig Cof
- Podiatreg
- Sgrinio Retinopothi Diabetes
- Clinig Rhoi’r Gorau i Ysmygu Cymru
- Cyrsiau Grŵp Ystyriol Lles Cymuned
- Sesiynau Cerdded
- Canolfan Waith
- Cynghorwyr Cyflogaeth Anabledd

**GIG**

## Llawr Isaf / Ground Floor

**Waiting room (33 cadair)**

**Reception**

**Lobby, Toilets and storerooms**

**Interview and hot desk**

**SURGERY**

**4 Consultation Room**

**3 Nurse consultation**

**Treatment room**

**Multi purpose treatment room**

**Group consultation room**

**Practice Manager**

**Phlebotomy**

**Medicine store**

**2 Young People' Consult/ Exam**

**Waiting room**

**Dining room**

**Older Persons Day Room**

**Chiropody and Podiatry**

**Mental Health Therapies**

**Treatment cubicle**

**Physiotherapy**

**Physio store**

**4 Multi purpose consultation room**

**1 Multipurpose Treatment**

**Clinical sub-wait**

## Llawr 1af / First floor

**Reception + Dental store**

**Waiting area**

**3 Dental surgery**

**Recovery room**

### Swyddfeydd / Office Administration block

***Health midwife /CAMHS**

*** Adult & children Social Services**

*** Palliative care**

*** District nurses Office**

*** Therapy hub**

*** HV SN Service Manager**

*** Mental Health Office Hotdesk**

**Rest room**

**Male /Female change**

**WCs**

**Store**

**Primary care conference room**

**Multi purpose wing**

**2 x Teaching Group meeting rooms**

**Informal discussion/ Beverage**

### STAFELLOEDD YR ADEILAD NEWYDD

Fawr o ddim byd newydd i'r hyn sydd eisoes ar gael yn y Ganolfan Iechyd bresennol.